

ESTYN ALLAN AT BOB DYSGWR:
pecyn adnoddau ar gyfer cefnogi cynhwysiant a thegwch mewn addysg

International Bureau of Education

unesco

Pecyn adnoddau IBE – aelodau'r grŵp cynghori

Anupam Ahuja, *Cyngor Cenedlaethol Ymchwil a Hyfforddiant Addysgol, India*

Ignacio Calderón Almendros, *Prifysgol Malaga, Sbaen*
Cynthia Duk, *Universidad Central de Chile*

Petra Engelbrecht, *North-West University, De Affrica*

Maha Khochen-Bagshaw, *Ymgynghorydd sy'n gweithio yn y Taleithiau*

Arabaidd **Nerida Spina**, *Queensland University of Technology, Awstralia*

Jess Whitley, *Prifysgol Ottawa, Canada*

CYDNABYDDIAETH

Mae Biwro Addysg Ryngwladol UNESCO (UNESCO-IBE) yn falch o gyhoeddi'r fersiwn newydd hon o'r Pecyn Adnoddau Addysg Gynhwysol.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Renato Opertti (Uwch Arbenigwr Addysg, UNESCO-IBE), Florence Migeon (Arbenigwr Addysg, UNESCO) a Mel Ainscow (Uwch Ymgynghorydd Addysg) am eu cyfraniadau at ddatblygu'r Pecyn Adnoddau Addysg Gynhwysol.

Hoffem hefyd fynegi ein gwerthfawrogiad a'n diolch i Gyfarwyddwr UNESCO-IBE, Mr Yao Ydo, am ei gefnogaeth ddiamod, ei ymddiriedaeth a'i arweiniad adeiladol. Diolchwn yn gynnes hefyd i gydweithwyr UNESCO-IBE Perrine Arsendeau a Carlos Bueno am gynorthwyo gyda'r gwaith o adolygu a golygu'r Pecyn Adnoddau hwn.

Hoffai Llywodraeth Cymru hefyd ddiolch i Fiwro Addysg Ryngwladol UNESCO am roi caniatâd i gyfieithu'r adnodd i'r Gymraeg i gefnogi dysgu yng Nghymru. Er gwybodaeth mae copi o'r fersiwn wreiddiol yn Saesneg ar gael yma.

Os ydym wedi hepgor enwau unrhyw rai sydd wedi cyfrannu yn y prosiect hwn, rydym yn ymddiheuro ac yn cynnig ein cydnabyddiaeth ddiffuant am eu cymorth amhrisiadwy.

unesco
International Bureau of Education

Cyhoeddwyd yng Ngenefa, Rhagfyr 2021 gan: UNESCO - IBE
C.P. 199 1211 Geneva 20 Y Swistir
Ffôn: +41.22.917.78.00 Ffacs: +41.22.917.78.01
E-bost: ibe.training@unesco.org

WWW.IBE.UNESCO.ORG

Nid yw'r wybodaeth a ddarperir yn y deunydd a'r astudiaethau achos o reidrwydd yn cynrychioli barn Biwro Addysg Ryngwladol UNESCO (UNESCO-IBE). Nid yw'r datganiadau a ddefnyddir a chyflwyniad y deunydd, gan gynnwys mapiau, yn awgrymu mynegiant unrhyw farn o gwbl ar ran UNESCO-IBE ynglŷn â statws cyfreithiol unrhyw wlad, tiriogaeth, dinas neu ardal, neu ei hawdurdodau, neu ynglŷn â ffiniau.
Rhoddir caniatâd i ddefnyddwyr atgynhyrchu neu gyfieithu darnau byr, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydnabod gallwch argraffu copïau caled at ddefnydd personol, ar yr amod nad yw at ddibenion budd preifat neu fasnachol. Ni all UNESCO-IBE ymgymryd â chyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd dilynol o'r deunydd, neu gywirdeb yr wybodaeth a ddarperir. Mae UNESCO-IBE yn argymell yn gryf sefydlu hyperddolenni i'r deunydd presennol yn hytrach na'i ddefnyddio a'i bostio ar unrhyw wefan arall at unrhyw ddiben. Nid yw'n annog postio fersiynau PDF ar wefannau eraill heb fod cytundeb blaenorol yn ei le.
Darperir hyperddolenni i wefannau eraill er hwylustod y defnyddiwr. Nid yw UNESCO-IBE yn rheoli nac yn gwarantu cywirdeb, perthnasedd na chyflawnrwydd yr wybodaeth allanol hon. Nid bwriad cynnwys hyperddolenni i wefannau eraill yw adlewyrchu eu pwysigrwydd. Ni fwriedir ychwaith cymeradwyo unrhyw farn a fynegir, neu gynhyrchion neu wasanaethau a gynigir, ar y safleoedd hyn, na'r sefydliadau sy'n cynnal y safleoedd. Ymhellach, nid yw'r disgrifiad byr o'r wybodaeth a'r gwasanaethau a ddarperir ar safleoedd allanol yn gynhwysfawr ac nid yw'n cynrychioli gwerthusiad o'r safleoedd hyn ar ran UNESCO-IBE.



RHAGAIR

Ms Stefania Giannini, UNESCO
Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynorthwyol Addysg

Mae cynhwysiant cymdeithasol ac addysgol yn un o brif flaenoriaethau UNESCO. Mae'n fater o gyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol ac urddas dynol. Fel y nodwyd yn Agenda 2030, mae cynhwysiant yn golygu cyplysu tegwch ac ansawdd i sicrhau bod pob dysgwr yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae polisïau cynhwysol yn hanfodol i gyrraedd Datblygu Cynaliadwy 4, sef "sicrhau addysg o ansawdd sy'n gynhwysol a theg a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb."

Mae'r her o sicrhau cynhwysiant wedi cynyddu yn sgil pandemig COVID-19 sydd wedi ehangu argyfwng addysg a oedd yn bodoli eisoes ac wedi effeithio ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd ar gyrion cymdeithas yn fwy na neb. Cafodd miliynau eu heithrio o ddysgu yn llwyr pan gaeodd ysgolion oherwydd statws economaidd-gymdeithasol, rhywedd, anabledd a diffyg mynediad at dechnoleg. Rhaid i gynhwysiant fod yn ffon fesur ar gyfer yr adferiad - i ddod â'r holl ddysgwyr yn ôl i'r ysgol, asesu'r hyn a gollwyd o ran dysgu a chefnogi'r rhai sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at gyfleoedd dysgu o bell.

Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi'i ymgorffori yn ymrwymiad UNESCO i gynhwysiant fel diwylliant a phroses sy'n effeithio ar addysgu, dysgu, cwricwla, amgylcheddau ysgol a mwy. Ei nod yw cefnogi Aelod-wladwriaethau i gyflymu eu hymdrechion tuag at Nod Datblygu Cynaliadwy 4, i sicrhau fod systemau addysg yn gweithio i bob plentyn a pherson ifanc. Yn wir, mae Estyn Allan at Bob Dysgwr: pecyn adnoddau ar gyfer cefnogi cynhwysiant a thegwch mewn addysg wedi'i seilio ar yr argyhoeddiad a'r weledigaeth bod addysg gynhwysol yn golygu ymgysylltu â phob dysgwr waeth beth fo'u hamgylchiadau, cysylltiadau, rhywedd, ethnigrwydd, cefndir ieithyddol a'u gallu, ac ymateb yn effeithiol i'w disgwyliadau a'u hanghenion. Mae'n ymwneud â gwerthfawrogi bod pob dysgwr yn arbennig ac unigryw, a chydnabod amrywiaeth fel cryfder i wneud ein cymdeithasau yn fwy cydlynol a chyfiawn.

Mae'n hanfodol ein bod yn cryfhau cysylltiadau'r cwricwlwm â dyheadau cymdeithasol a heriau byd-eang fel bod dysgwyr yn cael yr wybodaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r cymwyseddau i lunio cymdeithasau mwy cynaliadwy, cynhwysol, teg a chydlynol. Fel y gwyddom, mae'r cwricwlwm yn sbardun cryf ar gyfer polisïau addysgol a chymdeithasol. Mae'n cefnogi datblygiad ysgolion ac arferion cynhwysol a gall annog ymgysylltiad rhanddeiliaid amrywiol, o'r tu mewn a'r tu allan i'r system addysgol. Rwy'n gobeithio y bydd y pecyn adnoddau hwn yn ased ar gyfer trawsnewid systemau addysg i ddatgloi a chyflawni potensial pob dysgwr.



Mr Yao Ydo
Cyfarwyddwr Biwro Addysg Ryngwladol UNESCO

Mae'r UNESCO-IBE, fel Canolfan Ragoriaeth fyd-eang mewn cwricwla a materion cysylltiedig, yn pwysleisio perthnasedd cwricwlwm cynhwysol i fynd i'r afael ag amrywiaeth pob dysgwr beth bynnag eu cysylltiadau, rhywedd, cyd-destunau, amgylchiadau a'u gallu. Rydym yn deall fod cynhwysiant yn sbarduno addysg deg o ansawdd, sy'n awgrymu y gall pob dysgwr gael cyfle cyfartal i ddysgu.

Mae'r cysyniad ehangach hwn o addysg gynhwysol wedi'i fynegi'n glir yn Nod Datblygu Cynaliadwy 4 sef "Sicrhau addysg o ansawdd sy'n gynhwysol a theg a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb". Ar ben hynny, mae heriau a goblygiadau addysgol y pandemig wedi cryfhau'r her o gyplysu cynhwysiant a chydraddoldeb gydag ansawdd. Mae natur yr her yn aros yr un fath ar gyfer pob cyd-destun unigol – myfyrwyr eithriedig ar gyrion cymdeithas, myfyrwyr o'r aelwydydd tlotaf, merched, dysgwyr ynghanol gwrthdaro neu amgylcheddau peryglus, lleiafrifoedd ieithyddol ac ethnig, cefndiroedd brodorol, a phlant â galluoedd amrywiol.

Mae gosod cynhwysiant wrth wraidd addysg a systemau addysg yn y cyfnod wedi'r pandemig yn golygu ailystyried addysgu, dysgu ac asesu i sicrhau bod pob dysgwr yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae'n drobwynt yn ein hanes lle mae cyfle i lunwyr polisïau ac arweinwyr addysgol symud agenda addysg gynhwysol flaengar yn ei blaen, gan adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig a gweithredu'r egwyddor polisi bod pob dysgwr yn arbennig. Wrth wraidd mandad UNESCO-IBE mae'r bwriad i ddatblygu adnoddau ac offer o ran cwricwla a materion cysylltiedig i gynorthwyo Aelod-wladwriaethau a rhanddeiliaid addysgol wrth iddynt ddiffinio a gweithredu eu strategaethau ac arferion addysg. Felly, nod y Pecyn Adnoddau hwn yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosesau cwricwlwm effeithiol er mwyn sicrhau bod cynhwysiant yn rhan o'r prif ffrwd mewn addysg.

Credwn y bydd y pecyn adnoddau hwn yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o theori ac ymarfer ym maes addysg gynhwysol ar draws pob lefel o'r system addysg, gyda ffocws ar lefelau'r ysgol a'r ystafell ddosbarth.





CRYNODEB

CYDNABYDDIAETH **5**

RHAGAIR **6**

CYFLWYNIAD **10**

DARLLEN PELLACH **16**

DOLENNI I ADNODDAU PERTHNASOL **17**

ATODIAD FFRAMWEITHIAU AR GYFER Y TRI CHANLLAW **18**

CANLLAW 1 - ARWAIN DATBLYGIAD YSGOL CYNHWYSOL **23**

Gweithgaredd 1 - Gwneud synnwyr o gynhwysiant a thegwch mewn addysg 25

Gweithgaredd 2 - Defnyddio'r fframwaith adolygu ysgolion 31

Gweithgaredd 3 - Disgrifiadau o ymarfer 33

Gweithgaredd 4 - Cynnal ymchwiliad cydweithredol 42

Atodiad 46

Darllen Pellach 48

Dolenni i adnoddau perthnasol 49

CANLLAW 2 - DATBLYGU ARFERION CYNHWYSOL **51**

Gweithgaredd 1 - Gwneud addysgu a dysgu yn gynhwysol 53

Gweithgaredd 2 - Defnyddio'r fframwaith adolygu addysgu a dysgu 59

Gweithgaredd 3 - Disgrifiadau o ymarfer 61

Gweithgaredd 4 - Defnyddio ymchwiliad cydweithredol i ddatblygu addysgu a dysgu cynhwysol 69

Darllen Pellach 74

Dolenni i adnoddau perthnasol 75

CANLLAW 3 - GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID **77**

Gweithgaredd 1 - Ysgolion yn cydweithio â phartneriaid 79

Gweithgaredd 2 - Defnyddio'r fframwaith adolygu ysgolion 84

Gweithgaredd 3 - Disgrifiadau o ymarfer 86

Gweithgaredd 4 - Cydweithio â phartneriaid cymunedol 95

Darllen Pellach 98

Dolenni i adnoddau perthnasol 99



ESTYN ALLAN AT BOB DYSGWR: pecyn adnoddau ar gyfer cefnogi cynhwysiant a thegwch mewn addysg



CYFLWYNIAD

Mae pecyn adnoddau *Estyn Allan at Bob Dysgwr* yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir dadlau yw'r her fwyaf sy'n wynebu systemau addysg ledled y byd, sef dod o hyd i ffyrdd o gynnwys pob plentyn a sicrhau eu bod yn gallu dysgu mewn ysgolion. Mewn gwledydd sy'n dlotach yn economaidd, mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r miliynau o blant nad ydynt yn gallu mynychu addysg ffurfiol. Yn y cyfamser, mewn gwledydd cyfoethocach mae llawer o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau gwerth chweil, mae rhai yn dewis gadael gan fod y gwersi yn ymddangos yn amherthnasol, ac eraill yn cael eu rhoi mewn dosbarthiadau neu ysgolion arbennig i ffwrdd o addysg brif ffrwd. Mae UNESCO yn amcangyfrif bod merched 12-17 oed mewn perygl arbennig o adael yr ysgol mewn gwledydd incwm isel a chanolig is, tra bod bechgyn mewn mwy o berygl mewn gwledydd incwm canolig uwch ac uchel.

Yn ddiweddar, mae athrawon wedi wynebu heriau digynsail pellach wrth iddynt geisio dod o hyd i ffyrdd o sicrhau addysg o safon i'w holl fyfyrwyr yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Er bod natur yr heriau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad, mae pryder cyffredin ynghylch y myfyrwyr hynny y gwyddom eu bod yn agored i gael eu hymyleiddio neu eu hallgáu. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai o'r aelwydydd tlotaf, ffoaduriaid a'r rhai sydd ynghanol gwrthdaro, lleiafrifoedd ethnig ac ieithyddol a chefndiroedd brodorol, a phlant ag anableddau. Mae'n dilyn bod yn rhaid seilio ymdrechion i sicrhau adferiad addysgol ar ôl y pandemig ar egwyddorion cynhwysiant a thegwch.

DEFNYDDIO'R PECYN ADNODDAU

Mae deunyddiau'r adnodd *Estyn Allan at Bob Dysgwr* yn ymdrin â'r gwaith ymarferol o fynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ysgolion a chanolfannau addysg eraill, gan gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg bellach. Yn fwy penodol, mae'r deunyddiau yn canolbwyntio ar dri chwestiwn strategol:

- Sut y gellir datblygu ysgolion er mwyn ymateb yn gadarnhaol i amrywiaeth y myfyrwyr?
- Sut y gellir datblygu arferion ystafell ddosbarth a fydd yn sicrhau bod gwersi yn gynhwysol?
- Sut y gall ymarferwyr annog teuluoedd, ysgolion sy'n bartneriaid a'r gymuned ehangach i ymgysylltu â'u hymdrechion i ddod yn gynhwysol a theg?

Er bod modd i unigolion ddarllen y pecyn adnoddau, mae wedi'i gynllunio i annog ffurfiau cydweithredol o ddysgu proffesiynol yn y lleoliadau canlynol:

- O fewn ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion i hyrwyddo datblygiad polisïau ac arferion;
- Fel rhan o gyrsiau neu weithdai mewn-swydd i athrawon;
- O fewn prosiectau ymchwil ar gyfer gweithredu cydweithredol sy'n cynnwys ysgolion sy'n gweithio gyda chefnogaeth staff prifysgol; ac
- O fewn cyrsiau addysg athrawon cyn iddynt wasanaethu (er y bydd angen adolygu rhai o'r gweithgareddau yng ngoleuni profiadau cyfyngedig y rhai sydd ar y cyrsiau).



Mae'r cyflwyniad hwn yn esbonio cynnwys y pecyn adnoddau a sut y bwriedir i chi ei ddefnyddio. Rhestrir awgrymiadau ar gyfer darllen pellach ac adnoddau perthnasol ychwanegol ar ddiwedd y ddogfen hon a phob un o'r tri chanllaw. **Cyn rhannu unrhyw rai o'r deunyddiau hyn, mae'n bwysig eu hadolygu mewn perthynas â thraddodiadau diwylliannol cymunedau penodol.**

Yn yr hyn a ganlyn, cyflwynir cysyniadau allweddol, ac yna esboniadau o'r deunyddiau yn y tri chanllaw sy'n ffurfio'r pecyn adnoddau.

CYNHWYSIANT A THEGWCH

Mewn llawer o wledydd, mae addysg gynhwysol yn dal i gael ei hystyried fel dull o wasanaethu plant ag anableddau mewn lleoliadau addysg cyffredinol. Yn rhyngwladol, fodd bynnag, mae'n cael ei gweld yn gynyddol fel egwyddor ehangach sy'n cefnogi ac yn croesawu amrywiaeth ymhlith yr holl ddysgwyr. Mae hyn yn golygu mai'r nod yw rhoi diwedd ar allgáu cymdeithasol sy'n digwydd o ganlyniad i agweddau ac ymatebion i amrywiaeth o ran hil, dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws mudwyr a gallu. Fel y cyfryw, mae'n dechrau gyda'r gred bod addysg yn hawl ddynol sylfaenol ac yn sylfaen ar gyfer cymdeithas fwy cyfiawn. Mae'r pwyslais hwn ar fod yn deg yn cael ei nodi gan y defnydd o'r gair 'tegwch' yn neunyddiau'r adnoddau hyn.

Yn rhyngwladol, roedd y flwyddyn 2016 yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r agenda bolisi hon. Gan adeiladu ar Ddatganiad Incheon y cytunwyd arno yn Fforwm y Byd ar Addysg ym mis Mai 2016, cyhoeddodd UNESCO Fframwaith Gweithredu Addysg 2030. Mae hyn yn pwysleisio cynhwysiant a thegwch fel elfennau sy'n gosod y sylfeini ar gyfer addysg o safon. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i fynd i'r afael â phob math o allgáu ac ymyleiddio, anghydraddoldebau rhwng y rhywiau, gwahaniaethau ac annhegwch o ran mynediad, cyfranogiad, a phrosesau a chanlyniadau dysgu.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw hyrwyddo cynhwysiant a thegwch yn newid technegol neu sefydliadol yn unig. Yn hytrach, mae'n symudiad i gyfeiriad athronyddol clir sy'n cynnwys datblygu diwylliant croesawgar a chefnogol o fewn cymunedau addysgol. Mae creu newid diwylliannol o'r fath yn gofyn am ymrwymiad a rennir rhwng pawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys athrawon, myfyrwyr, teuluoedd a chymunedau ehangach. Felly, mae'n hanfodol bod gan y rhai y mae angen iddynt fod yn rhan o greu'r newid synnwyr clir o'r bwriad. Yn benodol, rhaid diffinio'r termau 'cynhwysiant' a 'tegwch' mewn ffyrdd a fydd yn glir i ystod amrywiol o randdeiliaid.

Mae'r diffiniadau canlynol i'w cael yng Nghanllaw UNESCO ar gyfer sicrhau cynhwysiant a thegwch mewn addysg, *A Guide for Ensuring Inclusion and Equity in Education*:

- Mae CYNHWYSIANT yn broses sy'n helpu i oresgyn rhwystrau sy'n cyfyngu ar bresenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad dysgwyr.
- Mae TEGWCH yn ymwneud â sicrhau chwarae teg, lle mae addysg pob dysgwr yn cael ei hystyried yr un mor bwysig â'i gilydd.

Mae'r neges ganolog felly yn syml: **mae pob dysgwr yn bwysig ac yr un mor bwysig â'i gilydd.** Mae'r cymhlethdod yn codi, fodd bynnag, pan fyddwn yn ceisio rhoi'r egwyddor ar waith yn ymarferol. Mae'n debygol y bydd angen newidiadau sylweddol mewn meddylfryd ac ymarfer o fewn systemau addysg i hyn ddigwydd. Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi'i gynllunio gyda hyn mewn golwg: mae'n ymwneud â datblygu meddylfryd, polisïau ac ymarfer.

CYD-DESTUNAU A HERIAU

Bwriad *Estyn Allan at Bob Dysgwr* yw dylanwadu ar feddylfryd ac arferion cynhwysol a'u cefnogi mewn ysgolion a chyd-destunau addysgol eraill, megis lleoliadau blynyddoedd cynnar ac addysg bellach. Mae fersiwn gynharach o'r pecyn wedi cael ei defnyddio mewn llawer o wledydd ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf yn 2016. Mae'r fersiwn newydd hon wedi'i datblygu yng ngoleuni gwersi a ddysgwyd o'r profiadau hyn. Yn benodol, darperir canllawiau mwy penodol ynghylch sut y dylid defnyddio'r deunyddiau adnodd i hwyluso datblygiadau yn y maes.

Mae'r fersiwn ddiwygiedig hefyd yn ystyried yr heriau newydd sylweddol sy'n bodoli o fewn systemau addysg ledled y byd mewn perthynas ag effaith pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn dangos bod angen mwy o bwyslais eto ar y mathau o ddulliau a argymhellir yn y pecyn adnoddau hwn, gyda'u ffocws ar sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn ysgolion.

O ystyried yr heriau newydd sy'n bodoli, mae angen rhoi mwy fyth o bwyslais ar bwysigrwydd cydweithio â theuluoedd a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi plant a'r gymuned ehangach. Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon hefyd yn ystyried tystiolaeth y gall cydweithredu rhwng ysgolion gryfhau gallu ysgolion unigol i ymateb i amrywiaeth ymhlith dysgwyr.

SYMUD GWYBODAETH O GWMPAS

Gan dynnu ar brofiadau ac ymchwil mewn gwahanol rannau o'r byd, mae *Estyn Allan at Bob Dysgwr* yn canolbwyntio ar wneud gwell defnydd o arbenigedd presennol athrawon. Mae hyn yn adeiladu ar ymchwil sy'n awgrymu fod cynnwys athrawon mewn prosesau penderfynu yn debygol o hyrwyddo diwylliant cryfach ar gyfer cymryd rhan a dysgu mewn ysgolion. Mae tystiolaeth hefyd bod ysgolion y mae eu hathrawon yn cydweithio i ddatblygu eu harferion mewn sefyllfa well i wella canlyniadau myfyrwyr a lleihau bylchau cyrhaeddiad.

Mae'r meddylfryd hwn yn cyd-fynd ag adroddiad Comisiwn Rhyngwladol UNESCO ar Ddyfodol Addysg1, sy'n nodi:

> *Mae'r ymateb addysgol i argyfwng COVID-19 wedi datgelu gallu addysgwyr i dynnu ar eu gwybodaeth broffesiynol a gweithredu ar y cyd gyda dyfeisgarwch a chreadigrwydd na allai fod wedi digwydd petai awdurdod cyhoeddus wedi rhoi gorchmynion o'r brig i lawr yn unig.*

1-Comisiwn Rhyngwladol ar Ddyfodol Addysg. 2020. Education in a post-COVID world: Nine ideas for public action. Paris, UNESCO

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad:

Mae angen i athrawon gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n well; maent yn gyfranogwyr hanfodol wrth ddiffinio dyfodol addysg.

Y man cychwyn ar gyfer cryfhau gallu ysgolion felly yw rhannu syniadau, gwybodaeth ac arferion trwy gydweithio ymhlith aelodau staff. Gall hyn hefyd annog ffyrdd newydd o feddwl ac arbrofi gyda ffyrdd amgen o weithio. Mae ymchwil yn dangos y gellir ysgogi hyn trwy gymryd sylw o syniadau myfyrwyr a theuluoedd, a gwybodaeth o ymchwil academaidd, mewn ffyrdd sy'n herio rhagdybiaethau a gymerir yn ganiataol, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed.

SYNIADAU ALLWEDDOL

Yn seiliedig ar y meddylfryd hwn, mae *Estyn Allan at Bob Dysgwr* yn rhoi canllawiau manwl ar sut y dylid defnyddio'r deunyddiau. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar:

- EGLURDER YSTYR – Nod y pecyn adnoddau yw hyrwyddo datblygu ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag amrywiaeth ymhlith dysgwyr. O fewn y deunyddiau, rhoddir llawer o bwysigrwydd i'r angen am ddealltwriaeth gyffredin o ddibenion y dull hwn.

- DADANSODDIAD O GYD-DESTUNAU – Nod y pecyn adnoddau yw darganfod a thynnu sylw at ffyrdd o oresgyn agweddau ar feddylfryd, polisi ac ymarfer cyfredol a allai fod yn creu rhwystrau i bresenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad rhai plant a phobl ifanc.

- ADEILADU AR ARFERION PRESENNOL – Gan gydnabod bod arferion effeithiol fel arfer y gellir adeiladu arnynt mewn unrhyw gyd-destun, mae'r prosesau a argymhellir yn y pecyn adnoddau yn annog cyfnewid arbenigedd o fewn ysgolion a rhwng ysgolion, a chyda theuluoedd a'r gymuned ehangach.

- GWEITHIO AR Y CYD – Mae ailfeddwl ynghylch ymarfer mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch yn debygol o gynnwys cyfnodau o 'aflonyddwch', wrth i syniadau am beth sy'n cael ei wneud fel arfer gael eu herio. Mae'r deunyddiau felly yn pwysleisio pwysigrwydd annog rhanddeiliaid i gefnogi ei gilydd.

- GWERTHUSO CYNNYDD – Wrth i'r pecyn adnoddau gael ei ddefnyddio, mae angen casglu tystiolaeth ynghylch gweithrediad ac effaith y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno. Gall hyn hefyd helpu i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

- RHEOLI NEWID – Rhaid rheoli ac arwain y defnydd o'r pecyn adnoddau ar y cyd. Felly, mae'r tri chanllaw yn pwysleisio pwysigrwydd cryfhau ymarfer arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys lefel yr ystafell ddosbarth.

CYFLWYNIAD

Rhaid nodi bod *Estyn Allan at Bob Dysgwr* wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio yn hyblyg mewn ymateb i gyd-destunau diwylliannol amrywiol sydd ar wahanol gamau datblygu a lle mae adnoddau yn amrywio'n sylweddol. Gyda hyn mewn golwg, gwneir defnydd helaeth o enghreifftiau o wahanol rannau o'r byd i annog datblygu ffyrdd newydd o estyn allan at bob dysgwr. Yn achos ysgolion bach, yn enwedig y rhai sydd ag un athro yn unig, bydd yn ddefnyddiol i grŵp o ysgolion weithio gyda'r deunyddiau ar y cyd.

Y DEUNYDDIAU

Mae *Estyn Allan at Bob Dysgwr* yn cynnwys tri chanllaw sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

CANLLAW 1. ARWAIN DATBLYGIAD YSGOL CYNHWYSOL -

Mae'r canllaw hwn yn helpu uwch staff i adolygu a datblygu eu hysgolion er mwyn gwneud i'w holl fyfyrwyr deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi yn eu dysgu.

CANLLAW 2. DATBLYGU YSTAFELLOEDD DOSBARTH CYNHWYSOL -

Nod y canllaw hwn yw cefnogi athrawon i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o sicrhau bod pob plentyn yn ymgysylltu â'u gwersi.

CANLLAW 3. GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID -

Mae'r canllaw hwn yn annog ysgolion i gydweithio â'i gilydd, a chyda theuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'r tri chanllaw yn pwysleisio prosesau ymchwilio cydweithredol, lle mae'r rhai sy'n defnyddio'r deunyddiau yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd wrth adolygu a datblygu eu meddylfryd a'u harferion. Bwriad y dull hwn yw helpu i wella presenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad myfyrwyr.

Mae pob un o'r canllawiau yn darparu'r canlynol:

- Cyflwyniad sy'n esbonio agenda'r canllaw;
- Papur trafod yn seiliedig ar dystiolaeth o brofiadau ac ymchwil rhyngwladol;
- Fframwaith o ddangosyddion a chwestiynau y gellir eu defnyddio i lywio trafodaethau (gweler yr Atodiad am y rhestr lawn);
- Enghreifftiau darluniadol o'r maes ar ffurf disgrifiadau o ymarfer; a
- Canllawiau ar gyfer defnyddio'r deunyddiau i ysgogi proses adolygu a datblygu o fewn canolfan addysgol.

Yn ogystal, mae awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a dolenni i ddeunyddiau clyweledol perthnasol y gellir eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau datblygu proffesiynol ymhlith aelodau staff.

CYDLYNU

Wrth ddefnyddio *Estyn Allan at Bob Dysgwr*, argymhellir y dylai ysgolion ffurfio grŵp cydlynu sy'n cynnwys athrawon (a, lle bo'n briodol, myfyrwyr, staff cymorth ac aelodau o'r teulu) sydd â'r gallu i gynnig arweiniad ynghylch defnyddio'r pecyn adnoddau. Dylai un aelod o'r grŵp hwn fod yn bennaeth neu uwch aelod arall o staff.

Dylai'r grŵp cydlynu gynnwys cydweithwyr a fydd yn cynnig amrywiaeth o safbwyntiau am waith yr ysgol. Dylent hefyd fod yn barod i weld gwahaniaethau ymhlith myfyrwyr fel ysgogiad ar gyfer myfyrio a newid.

Tasgau'r grŵp yw:

- Cynnig arweiniad wrth i ddeunyddiau'r adnoddau gael eu defnyddio i hyrwyddo cynhwysiant a thegwch;
- Hwyluso prosesau ymchwilio cydweithredol ymhlith staff ac aelodau eraill o gymuned ysgol;
- Cefnogi a herio ei gilydd mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn; a
- Cyflwyno a thrafod eu profiadau mewn amrywiol ddigwyddiadau yn yr ysgol ac yn allanol.

Mae'n werth nodi, hefyd, y gall cyfranogiad yn y grŵp cydlynu agor cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a datblygiad gyrfa.

Fe fydd yn hanfodol neilltuo amser i'r grŵp cydlynu weithio gyda'u cydweithwyr wrth ddefnyddio'r gweithgareddau a awgrymir yn y pecyn adnoddau. Yr her i arweinwyr ysgolion, felly, yw dod o hyd i ffyrdd o wneud hyn yn bosibl. Yma, mae'n werth nodi bod tystiolaeth yn dangos bod buddsoddiad amser o'r math hwn yn y dysgu proffesiynol ymhlith aelodau staff yn debygol o dalu ar ei ganfed o ran dysgu plant a phobl ifanc.

Mae pob un o'r canllawiau yn cyflwyno cyfres o weithgareddau datblygu proffesiynol. Gellid defnyddio'r rhain yn unigol fel sail i sesiwn gweithdy unigol sy'n para awr neu lai. Fel arall, gellid cynllunio diwrnod datblygu proffesiynol o amgylch yr holl weithgareddau yn un o'r tri chanllaw.

NEWID SYSTEM

Gellir defnyddio deunyddiau *Estyn Allan at Bob Dysgwr* hefyd i gefnogi ymdrechion i ddatblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant a thegwch ar draws system addysg gyfan. Gallai hyn fod ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu ardal leol. Mewn cyd-destunau o'r fath, dylid defnyddio dogfen UNESCO sef 'Guide for Ensuring Inclusion and Equity in Education'2.

Cyhoeddwyd y canllaw hwn gan UNESCO yn 2017, a'i fwriad yw cefnogi newid system gyfan er mwyn goresgyn pethau sy'n rhwystro mynediad i addysg o safon, cyfranogiad, prosesau dysgu a chanlyniadau, ac i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei werthfawrogi a'i groesawu yn gyfartal. Cyflwynir fframwaith asesu yn y canllaw sy'n canolbwyntio ar bedwar dimensiwn allweddol: cysyniadau, datganiadau polisi, strwythurau a systemau, ac arferion. Yn ogystal, bydd y dystiolaeth o ymchwil ryngwladol sydd wedi'i chynnwys yn y canllaw yn helpu'r rhai sy'n ei ddefnyddio i ddysgu o'r cynnydd a wnaed gan wledydd eraill tuag at ddatblygu systemau addysg mwy cynhwysol a theg.

2-UNESCO. 2017. A Guide for ensuring inclusion and equity in education. Paris: UNESCO. https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000248254



DARLLEN PELLACH

AINSCOW, M. (2020).
Promoting inclusion and equity in education: lessons from international experiences. *The Nordic Journal of Studies on Educational Policy, 6*(1), 7-16.

AINSCOW, M., BOOTH, T., DYSON, A., WITH FARRELL, P., FRANKHAM, J., GALLANNAUGH, F., HOWES, A. & SMITH, R. (2006). *Improving Schools, Developing Inclusion*. Llundain: Routledge.

ANTONINIS, M., APRIL, D., BARAKAT, B. ET AL. (2020).
All means all: An introduction to the 2020 *Global Education Monitoring Report on inclusion. Prospects*, 49, 103–109.

CONFENSIWN AR HAWLIAU POBL AG ANABLEDDAU (2016). *Erthygl 24*. Efrog Newydd: Cenhedloedd Unedig https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-%2Bdisabilities/article-24-education.html

DYSON, A., HOWES, A. & ROBERTS, B. (2004). What do we really know about inclusive schools? A systematic review of the research evidence. Yn D. Mitchell (gol.), *Special Educational Needs and Inclusive Education: Major Themes in Education*. Llundain, Routledge.

HEHIR, T., ET AL. (2016). *A Summary of the Evidence on Inclusive Education*. Instituto Alana, Sao Paulo. https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED596134.pdf

KEFALLINOU, A., SYMEONIDOU, S. & MEIJER, C.J.W. (2020)
Understanding the value of inclusive education and its implementation: A review of the literature. *Prospects*, *49*, 135–152.

OECD (2021). *Adapting Curriculum to Bridge Equity Gaps: Towards an Inclusive Curriculum*. Paris: OECD Publishing.

OPERTTI, R., WALKER, Z., & ZHANG, Y. (2014). Inclusive education: From targeting groups and schools
to achieving quality education as the core of EFA. Yn L. Florian (Gol.), *The SAGE handbook of special education*. Llundain: SAGE.

UNESCO (2017). *A guide for ensuring inclusion and equity in education*. Paris: UNESCO.

UNESCO (2020). *Global Education Monitoring Report 2020: Inclusion and education: All means all*. Paris, UNESCO.

UNESCO (2020). *Towards inclusion in education: status, trends and challenges: the UNESCO Salamanca Statement 25 years on*. Paris: UNESCO.

CENHEDLOEDD UNEDIG (2015).
Transforming our world: The 2030 Agenda for Sustainable Development. Efrog Newydd: Cenhedloedd Unedig. https://sdgs.un.org/2030agenda



Noder: *Cyn cyflwyno'r adnoddau hyn i eraill, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y cyd-destun penodol.*

'Inclusion and Education: All Means All'. Mae'r fideo animeiddiedig am Adroddiad Monitro Addysg Fyd-eang 2020 yn arbennig o ddefnyddiol fel cyflwyniad i bwysigrwydd cynhwysiant mewn addysg: https://youtu.be/kEyjlqixq9c

'The Universal Design for Learning'. Fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio'n eang yn rhyngwladol i wneud dysgu yn gynhwysol ac yn drawsnewidiol i bawb: https://www.cast.org/impact/universal-design-for-learning-udl

'Every school is inclusive: to some degree'. Mae'r cyfweliad hwn yn esbonio datblygiadau rhyngwladol dros y 30 mlynedd diwethaf mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch mewn addysg: https://youtu.be/oKz09ngdNcA

'The Enabling Education Network (EENET)'. Rhwydwaith rhannu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag addysg gynhwysol ac addysg sy'n galluogi, yn bennaf mewn cyd-destunau lle mae adnoddau'n brin. Mae ei weithgareddau rhannu gwybodaeth yn agored i bawb: https://www.eenet.org.uk/what-we-do

'Prospects'. Mae rhifyn arbennig y cyfnodolyn hwn ar y thema 'Inclusive education: New developments, new challenges' yn darparu adroddiadau o ddatblygiadau ledled y byd: https://link.springer.com/journal/11125/volumes-and-issues/49-3

'Adnoddau UNESCO'. Mae'r rhain ar gael mewn amryw o ieithoedd i hyrwyddo cynhwysiant a thegwch mewn addysg: https://en.unesco.org/themes/inclusion-in-education/resources

'Inclusive classrooms'. Detholiad o adnoddau ar ystod o faterion sy'n ymwneud ag ymarfer: https://www.readingrockets.org/article/websites-blogs-and-media-about-inclusive-classrooms

'Why we need LGBTQ education'. Gellid defnyddio'r sgwrs hon gan fyfyriwr ifanc fel sbardun ar gyfer trafodaeth: https://www.youtube.com/watch?v=dWieTvjkj0k

'Escuelas Inclusivas'. Mae'r deunyddiau hyn yn Sbaeneg yn cynnwys fideos am brofiadau o hyrwyddo cynhwysiant mewn ysgolion yn Chile: http://oce.uaq.mx/index.php/galeria/galeria-de-videos/escuelas-inclusivas-oei-novasur-2015

'School Education Gateway'. Yn darparu amrywiaeth o adnoddau mewn perthynas ag ystod o themâu perthnasol: https://www.youtube.com/c/SchoolEducationGateway/videos

'Edutopia'. Arferion dysgu seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ystod o bynciau: https://www.edutopia.org/videos



ATODIAD

FFRAMWEITHIAU AR GYFER Y TRI CHANLLAW

Mae pob un o'r canllawiau wedi'u llunio o amgylch fframwaith o ddangosyddion a chwestiynau i'w defnyddio i ysgogi adolygiadau a gweithgaredd cynllunio mewn ysgolion a chyd-destunau addysgol eraill. Mae'r rhain fel a ganlyn:

CANLLAW 1. ARWAIN DATBLYGIAD YSGOL CYNHWYSOL

1.1 Mae pawb yn cael eu gwneud i deimlo yn ddiogel a bod croeso iddynt

- A yw myfyrwyr yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel?
- A yw rhieni ac ymwelwyr yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu wrth gyrraedd yr ysgol?
- A oes gwybodaeth hygyrch am yr ysgol ar gael?

1.2 Mae pob myfyriwr yn cael ei werthfawrogi yn yr un modd

- A yw gwaith yr holl fyfyrwyr yn cael ei gydnabod ac, lle bo'n bosibl, yn cael ei arddangos o amgylch yr ysgol a'r ystafelloedd dosbarth?
- A yw'r holl fyfyrwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd ysgol?
- A oes gan rai myfyrwyr rôl arwain yn yr ysgol?

1.3 Mae disgwyliadau uchel i bob myfyriwr

- A yw pob myfyriwr yn teimlo bod disgwyl iddynt gyflawni?
- A yw cyflawniadau'r holl fyfyrwyr yn cael eu dathlu?

1.4 Mae staff a myfyrwyr yn trin ei gilydd gyda pharch

- A oes perthynas gynnes a chyfeillgar rhwng staff a myfyrwyr?
- A ddangosir parch at wahanol ieithoedd, traddodiadau diwylliannol a chredoau crefyddol?

1.5 Mae partneriaeth rhwng staff a theuluoedd

- A oes cyfathrebu effeithiol rhwng cartrefi a'r ysgol?
- A yw rhieni'n teimlo eu bod yn rhan o'r broses wrth gefnogi dysgu eu plant?

1.6 Mae'r ysgol yn hygyrch i bob myfyriwr

- A wneir ymdrechion i oresgyn rhwystrau posibl i gyfranogiad a dysgu?
- A all myfyrwyr ac oedolion ag anableddau gael mynediad i bob rhan o'r adeilad?
- A yw myfyrwyr sy'n siarad iaith wahanol yn cael eu helpu i gymryd rhan?

1.7 Mae uwch staff yn cefnogi athrawon i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyfranogi ac yn dysgu

- A oes gweithgareddau datblygu staff rheolaidd sy'n canolbwyntio ar wella addysgu?
- A yw uwch staff yn arsylwi gwersi ac yn cynnig awgrymiadau cefnogol ar gyfer gwella?
- A yw athrawon yn cael cyfleoedd i arsylwi arferion ei gilydd?



1.8 Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad yr holl fyfyrwyr

- A oes systemau ar waith ar gyfer gwirio presenoldeb myfyrwyr yn yr ysgol ac yn ystod gwersi?
- A yw'r ysgol yn ymwybodol o resymau penodol pam nad yw myfyrwyr yn mynychu'r ysgol ar adegau oherwydd arferion yng nghymuned ehangach yr ysgol?
- A yw myfyrwyr yn cael cyfleoedd i gynnig sylwadau ar sut mae'n teimlo i fod yn aelod o'r ysgol?
- A yw cynnydd a chyflawniadau pob myfyriwr yn cael eu tracio?

CANLLAW 2. DATBLYGU ARFERION CYNHWYSOL

2.1 Mae'r addysgu yn cael ei gynllunio gyda'r holl fyfyrwyr mewn golwg

- A yw gweithgareddau mewn gwersi yn ystyried diddordebau a phrofiadau myfyrwyr?
- A ddefnyddir dulliau addysgu amrywiol?
- A yw'r myfyrwyr yn deall dibenion gweithgareddau'r gwersi?

2.2 Mae gwersi yn annog cyfranogiad yr holl fyfyrwyr

- A gyferchir pob myfyriwr gyda'i enw?
- A oes deunyddiau sy'n ennyn diddordeb y myfyrwyr?
- A yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn ystod gwersi?
- A yw gwersi yn ddiwylliannol berthnasol?
- A yw bechgyn a merched fel ei gilydd yn cael eu hannog i siarad yn gyfartal?

2.3 Mae myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain

- A yw myfyrwyr yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain?
- A yw amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn annog dysgu annibynnol?

2.4 Anogir myfyrwyr i gefnogi dysgu ei gilydd

- A yw trefniadau eistedd yn annog myfyrwyr i ryngweithio?
- A oes disgwyl weithiau i fyfyrwyr weithio mewn parau neu grwpiau?
- A yw myfyrwyr yn helpu ei gilydd i gyflawni nodau gwersi?

2.5 Mae cymorth yn cael ei roi pan fydd myfyrwyr yn profi anawsterau

- A yw athrawon yn cadw llygad am fyfyrwyr sy'n profi anawsterau?
- A yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am help?

2.6 Mae disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth yn seiliedig ar barch gan y naill at y llall

- A oes rheolau sefydledig ar gyfer cymryd tro i siarad a gwrando?
- A yw myfyrwyr yn teimlo bod rheolau'r ystafell ddosbarth yn deg?
- A yw'r ysgol yn cymell myfyrwyr i beidio â bwlio?

2.7 Mae myfyrwyr yn teimlo bod ganddyn nhw rywun i siarad â nhw pan fyddant yn poeni neu'n ofidus

- A yw'r ysgol yn gwrando ar bryderon myfyrwyr ac yn mynd i'r afael â hwy?
- A yw athrawon ar gael i fyfyrwyr siarad â nhw'n breifat?

2.8 Mae asesu yn cyfrannu at gyflawniad pob myfyriwr

- A yw athrawon yn defnyddio asesu i annog dysgu?
- A yw myfyrwyr yn cael adborth adeiladol ar eu gwaith?
- A yw myfyrwyr yn cael eu helpu i adolygu ar gyfer profion neu arholiadau?
- A yw athrawon yn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei barchu, hyd yn oed o fewn un system asesu ffurfiol unedig?

CANLLAW 3. CYNNWYS PARTNERIAID

3.1 Mae'r ysgol wedi'i threfnu mewn ffyrdd sy'n galluogi staff i ymgysylltu â phartneriaid allanol

- A oes hyblygrwydd yn y ffordd y mae'r diwrnod ysgol yn cael ei drefnu fel bod aelodau staff yn cael amser i gysylltu â phartneriaid y tu allan i'r diwrnod ysgol?
- A yw uwch aelodau o staff yn ystyried bod gwneud cysylltiadau â phartneriaid allanol yn rhan o'u rôl?

3.2 Mae athrawon yn cynnwys aelodau o'r teulu wrth gefnogi dysgu eu plant

- A yw aelodau'r teulu yn cael eu hannog i ddod i'r ysgol i gefnogi dysgu a gweithgareddau cymdeithasol?
- A yw rhieni/gofalwyr yn rhan o weithgareddau dysgu eu plentyn gartref?
- A gynhelir cyfarfodydd lle mae athrawon a rhieni yn trafod cynnydd eu plentyn?
- A yw'r perthnasoedd hyn yn ymatebol yn ddiwylliannol?

3.3 Darperir gwybodaeth reolaidd i deuluoedd am gynnydd eu plant

- A yw teuluoedd yn cael adroddiadau cynnydd am eu plant?
- A gysylltir â theuluoedd pan fydd eu plentyn yn gwneud cyfraniad sylweddol yn yr ysgol?
- A yw'r ysgol yn cyhoeddi cylchlythyrau neu'n defnyddio ffyrdd eraill o hysbysu teuluoedd am ddatblygiadau diddorol?

3.4 Mae'r ysgol yn aelod o rwydweithiau a phartneriaethau

- A yw'r ysgol yn aelod gweithgar o unrhyw rwydweithiau neu bartneriaethau ysgolion?
- A yw uwch aelodau staff yn cymryd rhan o ran cydlynu unrhyw rwydweithiau neu bartneriaethau ysgolion?



3.5 Mae athrawon yn cael cyfleoedd achlysurol i ymweld ag ysgolion partner er mwyn rhannu arferion

- A yw ymweliadau ag ysgolion eraill yn cael eu hannog a'u trefnu?
- A yw'r ysgol yn annog athrawon o ysgolion eraill i ymweld?

3.6 Mae uwch staff yn cefnogi eu cydweithwyr yn eu hysgolion partner i adolygu polisïau ac arferion

- A yw'r pennaeth ac uwch aelodau eraill o staff yn ymwneud â phrosesau adolygu gan gymheiriaid gyda chydweithwyr mewn ysgolion eraill?
- A yw'r ysgol yn fodlon darparu cymorth pan fydd ysgol arall yn wynebu anawsterau?

3.7 Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â phlant a'u teuluoedd

- A yw staff o'r gwasanaethau iechyd, llesiant cymdeithasol ac amddiffyn plant yn cyfrannu at waith yr ysgol?
- A oes gan yr ysgol gysylltiadau â mudiadau gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau cymorth i deuluoedd?

3.8 Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â sefydliadau cymunedol lleol

- A oes gan yr ysgol gysylltiadau â busnesau lleol, cymdeithasau gwirfoddol a sefydliadau addysg uwch, a chymunedau brodorol?
- A yw'r ysgol yn defnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo ei gwaith?





ARWAIN DATBLYGIAD YSGOL CYNHWYSOL

CANLLAW 1

Nod Canllaw 1 yw cefnogi uwch staff i adolygu a datblygu eu darpariaeth er mwyn gwneud i'w holl fyfyrwyr deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi yn eu dysgu. Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn cyffredinol canlynol:

? *Sut y gellir datblygu ysgolion er mwyn ymateb yn gadarnhaol i amrywiaeth y myfyrwyr?*

Bwriedir i'r Canllaw gael ei ddefnyddio mewn ysgolion a chanolfannau addysgol eraill, gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar ac addysg bellach, i adolygu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch er mwyn meddwl am syniadau ar gyfer symud ymlaen. Er y gellir defnyddio'r deunyddiau mewn gwahanol ffyrdd i weddu i gyd-destunau penodol, argymhellir cyfres o weithgareddau cysylltiedig i annog adolygu a datblygiadau cynhwysol mewn ysgolion.

Dyma'r gweithgareddau:

- **GWEITHGAREDD 1: Gwneud synnwyr o gynhwysiant a thegwch**
- **GWEITHGAREDD 2: Defnyddio'r fframwaith adolygu ysgolion**
- **GWEITHGAREDD 3: Disgrifiadau o ymarfer**
- **GWEITHGAREDD 4: Cynnal ymchwiliad cydweithredol**

Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnwys prosiectau grŵp strwythuredig sydd â'r nod o ysgogi pobl i gymryd rhan mewn trafodaeth.

Rhagwelir y bydd cyfranogwyr, ar ôl cymryd rhan yn y prosiectau hyn, yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer symud eu hysgol yn ei blaen ac yn ei roi ar waith.

Ceir awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a dolenni i adnoddau perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.



GWEITHGAREDD 1

GWNEUD SYNNWYR O GYNHWYSIANT A THEGWCH MEWN ADDYSG

NOD

Helpu cyfranogwyr i fod yn glir am yr hyn a olygir gan gynhwysiant a thegwch mewn addysg.

PROSES

1. Darllenwch y deunydd trafod 'Anelu at ysgolion i bawb'.

2. Trafodwch y cynnwys gyda phartner.

3. Mewn grwpiau mwy (pedwar neu chwech), trafodwch y materion canlynol:
   - Beth ydych chi'n ei feddwl am y diffiniadau o gynhwysiant a thegwch sy'n cael eu cyflwyno?
   - Pa mor berthnasol yw'r diffiniadau hyn i'ch cyd-destun diwylliannol eich hun?
   - Ydych chi'n cytuno y gall ysgolion sicrhau rhagoriaeth trwy ganolbwyntio ar gynnydd eu holl fyfyrwyr?
   - Beth ydych chi'n ei feddwl am y syniad o ysgolion yn gweithio ar y cyd yn hytrach nag yn unigol neu'n gystadleuol?
   - Beth ydych chi'n ei feddwl am y syniad o ddiwylliant ysgol cynhwysol?

4. Cyflwynwch eich canfyddiadau i'r grwpiau eraill ac ystyriwch y goblygiadau ar gyfer cymryd camau gweithredu yn y dyfodol o fewn yr ysgol.

DEUNYDD TRAFOD: ANELU AT YSGOLION I BAWB

> *'Mae'r dystiolaeth yn bendant: mae tegwch mewn addysg yn talu ar ei ganfed. Y systemau addysg sy'n perfformio orau ar draws gwledydd yr OECD yw'r rhai sy'n cyfuno ansawdd uchel a thegwch. Mewn systemau addysg o'r fath, gall y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr ennill sgiliau a gwybodaeth lefel uchel sy'n dibynnu ar eu gallu a'u cymhelliant, yn fwy nag ar eu cefndir economaidd-gymdeithasol'.*
>
> OECD (2012)

Ledled y byd mae plant yn mynd i ysgolion o wahanol gefndiroedd, yn cael profiadau gwahanol o fyd addysg, ac yn gadael gyda chanlyniadau gwahanol iawn. Yn y rhan fwyaf o wledydd, y plant a'r bobl ifanc tlotaf sy'n tueddu i golli allan fwyaf, cael y canlyniadau gwaethaf a mynychu'r ysgolion sy'n perfformio isaf.

Mae merched 12-17 oed mewn perygl arbennig o adael yr ysgol mewn gwledydd incwm isel ac is, tra bod bechgyn mewn mwy o berygl mewn gwledydd incwm canolig uwch ac uchel. Yn fwy diweddar, mae athrawon wedi wynebu heriau digynsail wrth iddynt geisio dod o hyd i ffyrdd o sicrhau addysg o safon i'w holl fyfyrwyr yng nghyd-destun pandemig COVID-19.

Fodd bynnag, mae gwledydd incwm is ac uwch wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn, ac ar yr un pryd cynnal safonau cyffredinol uchel. Yr awgrym yw y gall ysgolion ddod yn fwy effeithiol trwy ganolbwyntio ar gynnydd eu holl fyfyrwyr. Bwriad y deunyddiau hyn yw helpu ysgolion i ystyried goblygiadau ymarferol y ffordd hon o feddwl. Mae'r syniadau a gyflwynir ganddynt yn cael eu llywio gan ganfyddiadau profiadau ac ymchwil ryngwladol.

CYNHWYSIANT A THEGWCH

Nid yw hyrwyddo cynhwysiant a thegwch yn newid technegol neu sefydliadol yn unig. Yn hytrach, mae'n symudiad i gyfeiriad athronyddol clir sy'n cynnwys datblygu diwylliant croesawgar a chefnogol o fewn cymunedau ysgolion. Mae creu newid diwylliannol o'r fath yn gofyn am ymrwymiad a rennir ymhlith staff yr ysgol. Felly, mae'n hanfodol bod y rhai sydd angen cymryd rhan yn cael synnwyr clir o'r hyn a fwriedir. Yn benodol, rhaid diffinio'r termau 'cynhwysiant' a 'tegwch' mewn ffyrdd a fydd yn glir i ystod amrywiol o randdeiliaid.

Mae'r diffiniadau canlynol a ddarperir yng nghanllaw *UNESCO Guide for Ensuring Inclusion and Equity in Education (2017)* yn arbennig o ddefnyddiol:

- Mae **cynhwysiant** yn broses sy'n helpu i oresgyn rhwystrau sy'n cyfyngu ar bresenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad dysgwyr.
- Mae **tegwch** yn ymwneud â sicrhau chwarae teg, lle mae addysg pob dysgwr yn cael ei hystyried yr un mor bwysig â'i gilydd.

Mae'r neges ganolog felly yn syml: mae pob dysgwr yn bwysig ac yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae'r cymhlethdod yn codi, fodd bynnag, pan fyddwn yn ceisio rhoi'r egwyddor hon ar waith yn ymarferol. Mae'n debygol y bydd angen newidiadau sylweddol mewn meddylfryd ac ymarfer o fewn ysgolion i hyn ddigwydd. Mae'r pecyn adnoddau hwn wedi'i gynllunio gyda hyn mewn golwg: mae'n ymwneud â datblygu meddylfryd, polisïau ac ymarfer o fewn ysgolion.

DIWYLLIANT CYNHWYSOL

Nid oes un model unigol sy'n dangos sut fath o le yw ysgol gynhwysol. Yr hyn sy'n gyffredin i ysgolion hynod gynhwysol, fodd bynnag, yw eu bod yn lleoedd croesawgar a chefnogol i'w holl fyfyrwyr, yn enwedig i'r rhai ag anableddau, dysgwyr o leiafrifoedd cenedlaethol ac eraill sy'n profi anawsterau o ran dysgu a/neu gymdeithasu. Nid yw hyn yn atal yr ysgolion hyn rhag ymrwymo i wella cyflawniadau eu holl fyfyrwyr. Yn wir, maent yn defnyddio strategaethau ar gyfer cryfhau cyflawniad sy'n nodweddiadol o'r rhai a ddefnyddir gan bob ysgol effeithiol. Mae'r pwyslais ar gefnogi myfyrwyr agored i niwed yn cyfrannu at ddatblygu'r strategaethau hyn.

Mae ysgolion llwyddiannus yn gynhwysol yn yr ystyr bod disgwyl i'r holl fyfyrwyr wneud cynnydd yn eu dysgu. Maent hefyd yn ddiogel, yn groesawgar ac yn rhydd o drais, gan gynnwys trais ar sail rhywedd. Nid yw hyn yn digwydd ar hap. Yn hytrach, mae'n digwydd o ganlyniad i'r ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli er mwyn creu awyrgylch lle mae pawb - myfyrwyr, staff a theuluoedd - yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Ffactor allweddol arall yw'r pwyslais a roddir ar fonitro a chefnogi cynnydd unigol yr holl fyfyrwyr.

Pan fydd ysgolion yn llwyddo i symud tuag at gyfeiriad mwy cynhwysol, fel arfer mae rhywfaint o gonsensws ymhlith oedolion ynghylch gwerthoedd fel parch at wahaniaeth ac ymrwymiad i gynnig mynediad i bob myfyriwr i gyfleoedd dysgu. Er bod y consensws hwn yn annhebygol o fod yn unfrydol, mae'n arwydd o dwf diwylliant o gynhwysiant.

Mewn cyd-destunau o'r fath, mae'n debygol y bydd lefel uchel o gydweithredu, datrys problemau ar y cyd a rhannu cyfrifoldebau ymhlith staff. Gall gwerthoedd ac ymrwymiadau tebyg ymestyn i blith y myfyrwyr, ac ymhlith teuluoedd a rhanddeiliaid cymunedol eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn debygol o gael eu nodweddu gan ffurfiau o drefniadaeth (megis cymorth arbenigol yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach na thrwy dynnu allan o'r dosbarth) ac arferion y gellid eu hystyried yn rhai cyfranogol yn ôl eu diffiniad (megis gwaith grŵp cydweithredol).

TREFNIADAETH A PHERTHNASOEDD

Yr hyn a welwn mewn ysgolion mwy cynhwysol yw ffurfiau o drefniadaeth sydd â'r bwriad o gydlynu gweithredoedd staff a phlant yn seiliedig ar egwyddorion y cytunwyd arnynt. Mae'n rhaid i'r rhain weithio mewn ffyrdd nad ydynt yn amharu ar ddisgresiwn athrawon unigol i ymarfer yn ôl eu dewisiadau eu hunain.

Mae addysgu yn fusnes cymhleth ac yn aml na ellir ei ragweld sy'n gofyn am rywfaint o weithredu'n fyrfyfyr. Yn wir, un nodwedd arwyddocaol o ysgol gynhwysol yw'r graddau y mae'r athrawon yn barod i addasu eu harferion yng ngoleuni'r adborth a dderbynnir gan aelodau o'u dosbarthiadau.

O ganlyniad, rhaid i athrawon gael digon o ymreolaeth i wneud penderfyniadau yn y fan a'r lle sy'n ystyried cymeriad unigol eu myfyrwyr a natur unigryw pob cyfarfyddiad sy'n digwydd. Yr hyn sydd ei angen, felly, yw arddull cydweithredol a chydlynol o weithio sy'n rhoi hyder i athrawon unigol arbrofi wrth chwilio am yr ymatebion mwyaf priodol i'r holl fyfyrwyr yn eu dosbarthiadau.

Y berthynas rhwng pobl yw'r allwedd wrth fynd ati i gydlynu'n well. Mae ymchwil yn awgrymu y gall perthynas ag eraill mewn ysgol gael ei strwythuro mewn un o dair ffordd: yn unigol, yn gystadleuol neu'n gydweithredol.

Mewn ysgolion sydd â threfniadaeth o natur unigolyddol, mae athrawon yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain i gyflawni nodau nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â nodau eu cydweithwyr. O ganlyniad, nid oes fawr o ymdeimlad o bwrpas cyffredin, dim rhannu arbenigedd a phrin yw'r gefnogaeth i unigolion. Ar ben hynny, mae ysgolion o'r fath yn aml yn symud tuag at drefniadaeth fwy cystadleuol ei natur.

Mewn system gystadleuol, mae athrawon (a myfyrwyr) yn ymdrechu i wneud yn well na'u cydweithwyr, gan gydnabod bod cysylltiad negyddol rhwng tynged pawb oherwydd bod llwyddiant unrhyw unigolyn yn debygol o ddigwydd ar draul methiant unigolyn arall. Yn y frwydr hon i lwyddo, gyda phwyslais ar ennill a cholli, mae bron yn anochel y bydd unigolion yn dathlu anawsterau a brofir gan eu cydweithwyr, gan fod y rhain yn debygol o wella eu siawns eu hunain o lwyddo.

Yn amlwg, y drefniadaeth sydd fwyaf tebygol o greu awyrgylch gwaith cadarnhaol o fewn ysgol yw un sy'n rhoi pwyslais ar gydweithredu. Felly, rhaid sicrhau mai'r nod yw annog system lle mae ymdrechion unigolion yn cael eu cydlynu er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf ar y cyd. Mewn ysgol o'r fath, mae unigolion yn fwy tebygol o ymdrechu i sicrhau budd i'w gilydd, gan gydnabod eu bod i gyd yn rhannu pwrpas cyffredin ac, yn wir, tynged gyffredin. Ar ben hynny, mae athrawon unigol yn gwybod y gall perfformiad eraill ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu perfformiad hwy. Fel hyn, mae unigolion yn teimlo'n falch pan fydd cydweithiwr yn llwyddo ac yn cael ei gydnabod am ei gymhwysedd.

MYND I'R AFAEL Â RHWYSTRAU

Fel pob newid polisi mawr, mae cynnydd o ran cynhwysiant a thegwch yn gofyn am strategaeth effeithiol ar gyfer gweithredu. Yn benodol, mae'n gofyn am feddylfryd newydd sy'n hoelio sylw ar y rhwystrau mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu sy'n golygu eu bod yn cael eu hymyleiddio o ganlyniad i ffactorau cyd-destunol, megis cwricwla a dulliau asesu amhriodol, dim digon o waith paratoi a chefnogaeth gan athrawon, a dulliau addysgu nad ydynt yn ystyried amrywiaeth dysgwyr.

Gall rhwystrau hefyd ymwneud â'r rhagdybiaethau y mae'r ymarfer yn seiliedig arnynt. Gall hyn fod yn gysylltiedig â systemau ymyleiddio sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac sy'n trefnu ac yn gwahanu myfyrwyr yn ôl dosraniadau sy'n ymwneud â hil, gallu, rhywedd, iaith, ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol. Mae hyn i gyd yn golygu bod cynnydd o safbwynt cynhwysiant yn gymhleth ac yn benodol i'r cyd-destun.

Y goblygiad yw mai goresgyn rhwystrau o'r fath yw'r ffordd bwysicaf o ddatblygu mathau o addysg sy'n effeithiol i bob myfyriwr. Yn y modd hwn, mae'r ffocws ar gynhwysiant a thegwch yn dod yn ffordd o gyflawni gwelliant cyffredinol mewn systemau addysg.

DEFNYDDIO TYSTIOLAETH

Er mwyn symud ymlaen, mae'n bwysig gwybod pwy sy'n cael ei gynnwys, pwy sy'n teimlo ar yr ymylon a phwy sydd wedi'i eithrio. Felly, mae angen i ni ofyn cwestiynau fel: Pa rai o'n myfyrwyr sy'n absennol? Pwy sy'n colli allan? Beth yw'r rhwystrau a brofir gan y dysgwyr hyn?

Gall edrych ar dystiolaeth wrth ymdrin â'r cwestiynau hyn helpu i feithrin datblygiad arferion sy'n fwy effeithiol o ran cynnwys dysgwyr anodd eu cyrraedd. Yn benodol, gall hyn greu lle i ailfeddwl trwy ymyrryd â'r ffyrdd presennol o weithio o fewn ysgol. Yn benodol, mae technegau pwerus ar gyfer cynhyrchu tystiolaeth yn cynnwys arsylwi gwersi cydweithwyr, weithiau trwy recordiadau fideo, a sylwadau a gesglir gan fyfyrwyr am drefniadau addysgu a dysgu o fewn ysgol (gweler y Canllaw Ymchwilio Cydweithredol a ddarperir isod am ragor o fanylion am ddulliau casglu tystiolaeth).

O dan rai amodau, mae dulliau o'r fath yn rhoi cyfle i fyfyrio sy'n ysgogi hunan-gwestiynu, creadigrwydd a gweithredu. Wrth wneud hynny, gallant arwain at fynegi'r problemau a welir mewn ffordd wahanol sydd, yn ei dro, yn tynnu sylw'r athro at bosibiliadau a anwybyddwyd ar gyfer mynd i'r afael â'r pethau sy'n rhwystro rhag cymryd rhan a dysgu. Yn y modd hwn, mae gwahaniaethau rhwng myfyrwyr, staff ac ysgolion yn dod yn gatalydd ar gyfer gwelliant.

ATHRAWON YN DYSGU GYDA'I GILYDD

Mae tystiolaeth gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn awgrymu bod gwledydd lle mae athrawon yn credu bod eu proffesiwn yn cael ei werthfawrogi yn cyflawni lefelau uwch o degwch o ran canlyniadau dysgu. Gyda hyn mewn golwg, mae angen diwygio ysgolion mewn ffyrdd a fydd yn arwain athrawon i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth ymateb yn gadarnhaol i amrywiaeth myfyrwyr – gan weld gwahaniaethau unigol nid fel problemau i'w datrys ond fel cyfleoedd i gyfoethogi dysgu. Yn y modd hwn, gall ystyried anawsterau a brofir gan fyfyrwyr gynnig agenda ar gyfer newid a mewnwelediadau ynghylch sut y gellid cyflawni newidiadau o'r fath.

Mae hyn i gyd yn dangos pwysigrwydd ffurfiau o arweinyddiaeth sy'n annog cydweithwyr i herio rhagdybiaethau ei gilydd am fyfyrwyr penodol a'r hyn y gallant ei gyflawni. Fel yr eglurwyd uchod, mae ymchwil yn awgrymu y gall hyn arwain ysgolion i ddatblygu 'diwylliant cynhwysol'. O fewn ysgolion o'r fath, mae consensws ymhlith oedolion ynghylch gwerthoedd fel parch at wahaniaeth ac ymrwymiad i gynnig mynediad i gyfleoedd dysgu i bob myfyriwr.

Efallai na fydd y consensws hwn yn unfrydol ac nid yw o reidrwydd yn dileu'r holl densiynau neu anghysonderau yn ymarferol. Ar y llaw arall, mae'n debygol y bydd lefel uchel o gydweithredu gan staff a datrys problemau ar y cyd, a gall gwerthoedd ac ymrwymiadau tebyg ymestyn i'r myfyrwyr, ac i rieni a rhanddeiliaid cymunedol eraill. Y goblygiad yw bod yn rhaid i uwch staff o fewn ysgol greu hinsawdd lle gall dysgu proffesiynol ddigwydd.

RÔL ARWEINYDDIAETH

Mae ysgol sy'n seiliedig ar strwythur cydweithredol sy'n annog defnyddio tystiolaeth yn debygol o wneud gwell defnydd o arbenigedd pob aelod o'i chymuned. Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu ffynonellau ysgogi a chyfoethogi a fydd yn meithrin eu dysgu a'u datblygiad, ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at gyflwyno ffyrdd newydd o weithio.

Efallai y bydd angen meddylfryd ac arferion newydd ymhlith penaethiaid a'u cydweithwyr uwch, a bydd yn rhaid iddynt:

- Herio status quo dulliau traddodiadol o addysgu;
- Ysbrydoli cyd-weledigaeth glir o'r hyn y dylai'r ysgol fod ac y gallai fod;
- Arwain trwy esiampl, gan ddefnyddio gweithdrefnau cydweithredol;
- Annog aelodau staff i ddal ati a pharhau i ymdrechu gyda'i gilydd i wella eu harbenigedd; a
- Hyrwyddo perthnasoedd cydweithredol â theuluoedd a chymunedau.

Rhaid i uwch staff hefyd roi pwyslais cryf ar adeiladu timau cydweithredol a'r defnydd o ymchwilio cydweithredol i'w hysgogi i arbrofi gyda ffyrdd newydd o weithio.



GWEITHGAREDD 2

DEFNYDDIO FFRAMWAITH ADOLYGU YSGOLION

NOD

Dechrau'r broses o adolygu'r ysgol mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch.

PROSES

1. Mae'r Fframwaith Adolygu Ysgolion yn cael ei gyflwyno i gyfranogwyr, gan nodi bod y dangosyddion a'r cwestiynau yn seiliedig ar ymchwil ryngwladol ynghylch y ffactorau sy'n gysylltiedig â chynnydd wrth ddatblygu ysgolion sy'n gynhwysol ac yn deg.

2. Gan ddefnyddio graddfa sgorio pedwar pwynt, mae cyfranogwyr unigol yn sgorio perfformiad eu hysgol yn erbyn y dangosyddion, lle:
   Mae A yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn dda. Mae nifer o gryfderau sylweddol, a dim gwendidau amlwg.
   Mae B yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn eithaf da. Ar y cyfan, mae cryfderau yn gorbwyso gwendidau.
   Mae C yn golygu: Nid yw'r ysgol yn gwneud yn dda iawn. Ar y cyfan, mae gwendidau yn gorbwyso cryfderau.
   Mae D yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn wael. Nid oes unrhyw gryfderau amlwg ac mae nifer o wendidau sylweddol.

3. Mae cyfranogwyr yn rhannu eu meddyliau am y broses hon ac yn trafod y goblygiadau ar gyfer y camau nesaf mewn perthynas â'r cwestiynau hyn:

   - Beth yw'r cryfderau y gall ein hysgol adeiladu arnynt?
   - Beth yw'r prif heriau a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?
   - Beth ddylai ein camau nesaf fod?

DEFNYDDIO'R FFRAMWAITH ADOLYGU YSGOLION

1.1 Mae pawb yn cael eu gwneud i deimlo yn ddiogel a bod croeso iddynt

- A yw myfyrwyr yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel?
- A yw rhieni ac ymwelwyr yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu wrth gyrraedd yr ysgol?
- A oes gwybodaeth hygyrch am yr ysgol ar gael?

1.2 Mae pob myfyriwr yn cael ei werthfawrogi yn yr un modd

- A yw gwaith yr holl fyfyrwyr yn cael ei gydnabod ac, lle bo'n bosibl, yn cael ei arddangos o amgylch yr ysgol a'r ystafelloedd dosbarth?
- A yw'r holl fyfyrwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd ysgol?
- A oes gan rai myfyrwyr rôl arwain yn yr ysgol?

1.3 Mae disgwyliadau uchel i bob myfyriwr

- A yw pob myfyriwr yn teimlo bod disgwyl iddynt gyflawni?
- A yw cyflawniadau'r holl fyfyrwyr yn cael eu dathlu?

1.4 Mae staff a myfyrwyr yn trin ei gilydd gyda pharch

- A oes perthynas gynnes a chyfeillgar rhwng staff a myfyrwyr?
- A ddangosir parch at wahanol ieithoedd, traddodiadau diwylliannol a chredoau crefyddol?

1.5 Mae partneriaeth rhwng staff a theuluoedd

- A oes cyfathrebu effeithiol rhwng y cartrefi a'r ysgol?
- A yw rhieni'n teimlo eu bod yn rhan o'r broses wrth gefnogi dysgu eu plant?

1.6 Mae'r ysgol yn hygyrch i bob myfyriwr

- A wneir ymdrechion i oresgyn rhwystrau posibl i gyfranogiad a dysgu?
- A all myfyrwyr ac oedolion ag anableddau gael mynediad i bob rhan o'r adeilad?
- A yw myfyrwyr sy'n siarad iaith wahanol yn cael eu helpu i gymryd rhan?

1.7 Mae uwch staff yn cefnogi athrawon i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyfranogi ac yn dysgu

- A oes gweithgareddau datblygu staff rheolaidd sy'n canolbwyntio ar wella addysgu?
- A yw uwch staff yn arsylwi gwersi ac yn cynnig awgrymiadau cefnogol ar gyfer gwella?
- A yw athrawon yn cael cyfleoedd i arsylwi arferion ei gilydd?

1.8 Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad yr holl fyfyrwyr

- A oes systemau ar waith ar gyfer gwirio presenoldeb myfyrwyr yn yr ysgol ac yn ystod gwersi?
- A yw'r ysgol yn ymwybodol o resymau penodol pam nad yw myfyrwyr yn mynychu'r ysgol ar adegau oherwydd arferion yng nghymuned ehangach yr ysgol?
- A yw myfyrwyr yn cael cyfleoedd i gynnig sylwadau ar sut mae'n teimlo i fod yn aelod o'r ysgol?
- A yw cynnydd a chyflawniadau pob myfyriwr yn cael eu tracio?



GWEITHGAREDD 3

DISGRIFIADAU O YMARFER

NOD

Dysgu o brofiadau ysgolion eraill sydd wedi gwneud cynnydd wrth hyrwyddo cynhwysiant a thegwch.

PROSES

1. Mae cyfranogwyr unigol yn darllen un o'r pedwar disgrifiad, fel bod chwarter y grŵp yn edrych ar bob un. Eglurir y gall y disgrifiadau fod mewn cyd-destunau sy'n wahanol o ran polisïau cenedlaethol, traddodiadau a'r adnoddau sydd ar gael.
2. Mae grwpiau yn cael eu ffurfio o gyfranogwyr sydd wedi darllen yr un disgrifiad. Ar ôl trafod y disgrifiad, maent yn cytuno ar grynodeb o'r syniadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg.
3. Mae'r grwpiau i gyd yn dod at ei gilydd ac yn esbonio'r disgrifiadau maen nhw wedi'u darllen a'r syniadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'u trafodaeth.
4. Ystyrir y gwersi sydd wedi'u dysgu o'r gweithgaredd hwn a'u goblygiadau i'w hysgol.

DISGRIFIADAU O YMARFER

Bwriad yr enghreifftiau hyn yw ysgogi trafodaeth am yr hyn y mae angen i ysgolion ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant a thegwch. Wrth ddarllen y disgrifiadau, mae'n bwysig cofio bod cyd-destunau ac adnoddau yn wahanol ledled y byd. Felly, byddai angen newid y dulliau a ddefnyddir gan yr ysgolion yn yr enghreifftiau hyn i gyd-fynd ag amgylchiadau gwahanol mewn cymunedau amrywiol.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r pedair enghraifft yw'r pwyslais a roddir ar ddefnyddio tystiolaeth i ddadansoddi'r rhwystrau sy'n wynebu rhai dysgwyr a phwysigrwydd ymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth wrth symud pethau ymlaen.

DISGRIFIAD 1 **'SIARAD AM GYNHWYSIANT'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Pa mor amrywiol yw eich ysgol?
- Beth mae'r ysgol yn ei wneud mewn ymateb i wahaniaethau ymhlith y myfyrwyr?
- Pa gamau sydd eu hangen i wella'r sefyllfa hon?

Mae dod yn fwy cynhwysol yn golygu dysgu sut i fyw gyda gwahaniaethau ac, yn wir, dysgu sut i ddysgu o wahaniaethau. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut, dros gyfnod o ddeuddeg mis, y cynhaliodd ysgol gynradd brosiect i gryfhau ei dulliau addysgu mewn perthynas â'r syniad hwn. Roedd hyn yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar ymchwilio a ysgogodd gryn drafodaeth. Yn arwyddocaol, chwaraeodd y myfyrwyr eu hunain ran allweddol yn yr hyn a ddigwyddodd.

Y CYD-DESTUN. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer tua 200 o fyfyrwyr yn yr ystod oedran 3-11. Mae wedi gwasanaethu cymuned amlddiwylliannol ers blynyddoedd lawer. Ar hyn o bryd, mae 23 o wahanol genhedloedd, gyda 19 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad ymhlith y teuluoedd. Mae amrywiaeth ethnig nid yn unig yn gysylltiedig â phlant sy'n mynychu'r ysgol ond hefyd ag aelodau'r staff. Wrth sôn am hyn, esboniodd y pennaeth,

> *'Unrhyw beth crefyddol neu ddiwylliannol dwi ddim yn siŵr amdano, mae yna bob amser rhywun y gallaf ofyn iddo'.*

Mae arwyddair yr ysgol, 'Pawb yn wahanol, pawb yn gyfartal', yn adlewyrchu'r ymrwymiad ymhlith staff i sicrhau bod gwahaniaethau yn cael eu gwerthfawrogi a bod cefndir pawb yn cael ei drin â pharch. Nid arwyddair yn unig yw hwn, fodd bynnag, ond athroniaeth hynod bwysig ledled cymuned yr ysgol.

Cymerodd pennaeth cynorthwyol newydd yr awenau wrth gydlynu ymdrechion i gryfhau'r ymrwymiad i gynhwysiant yn yr ysgol. Dechreuodd trwy gynnal cyfarfod staff i friffio ei chydweithwyr newydd. Yn ddiweddarach, ailadroddodd y briffio hwn ar gyfer staff gweinyddol, goruchwylwyr amser cinio a'r tîm o gynorthwywyr cymorth. Wrth wneud hyn, roedd bron pawb yn cael gwybod am yr hyn oedd yn cael ei gynnig.

CASGLU TYSTIOLAETH. Trwy gydol yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd, roedd yr ysgol yn gallu adnabod plant yr oedd eu cynnydd yn achos pryder. Casglwyd rhagor o wybodaeth gan rieni gan ddefnyddio holiadur, y bu'n rhaid ei gyfieithu ar gyfer rhai teuluoedd. Neilltuwyd cyfarfod staff arall i drafod sut y gellid casglu barn y plant. Dechreuodd hyn gydag ystyriaeth o arferion presennol yn yr ysgol ar gyfer gwrando ar lais myfyrwyr. Cynhaliodd yr ysgol arolwg o farn y plant, gan ddefnyddio holiaduron. Cyfieithwyd y rhain i'r plant oedd angen hynny. Yn y dosbarthiadau blynyddoedd cynnar, cynhaliwyd yr arolygon fel gweithgareddau dosbarth cyfan.

Dadansoddodd y pennaeth cynorthwyol yr ymatebion ar gyfer pob dosbarth ac yna ar gyfer yr ysgol gyfan. Er bod hyn yn cymryd llawer o amser, roedd hi'n credu ei fod yn ddefnyddiol iawn i dynnu sylw at faterion yn yr ysgol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Cymaint felly nes iddi benderfynu cynnal arolwg arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn i weld a oedd newidiadau ym marn y plant am yr ysgol. Roedd hefyd yn teimlo ei bod yn arbennig o bwysig casglu barn newydd-ddyfodiaid. Yn ogystal, cwblhaodd y staff holiaduron y gellid edrych arnynt ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gofnodwyd yn y gwahanol gyfarfodydd a gynhaliwyd.

HOELIO SYLW. Mewn cyfarfod arall, cafodd y staff gyfle i edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd. Yn ddealladwy, roedd pawb eisiau gweld sut roedd eu dosbarthiadau eu hunain wedi ymateb, yn ogystal â chymharu'r canlyniadau â rhai gweddill yr ysgol.

O ganlyniad, penderfynwyd neilltuo cyfnod o bythefnos ar gyfer defnyddio gweithgareddau llais myfyrwyr amrywiol ym mhob dosbarth. Trefnodd y pennaeth cynorthwyol amserlen ar gyfer hyn gan atgoffa'r athrawon hefyd pwy oedd y plant targed. Wrth i bob athro gynnal y gweithgareddau yn eu dosbarthiadau, byddai cydweithiwr yn arsylwi'r broses, gan edrych yn benodol ar y ffordd yr ymatebodd plant unigol. Wrth wneud hyn, roeddent yn gallu integreiddio gweithgareddau llais y myfyrwyr yn eu haddysgu a'u dysgu dyddiol, rhywbeth a ddaeth wedyn yn rhan o arfer arferol ar draws yr ysgol.

Yn ystod yr un cyfnod, cymerodd uwch staff a chynorthwywyr cymorth ran mewn rhaglen o arsylwadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfranogiad y plant a oedd wedi'u targedu. Canfuwyd bod angen addasu'r amserlenni arsylwi a ddefnyddiwyd ganddynt er mwyn gadael mwy o le i sylwadau. Yr hyn oedd fwyaf anarferol oedd y ffordd y gwnaethpwyd hyn i gyd mewn cyfnod o bythefnos. Arweiniodd hyn at gyfnod o drafod dwys o fewn yr ysgol.

Roedd y syniad o arsylwi wrth gynnal gweithgareddau llais y myfyrwyr yn llwyddiannus iawn yn yr ystyr bod hyn yn hoelio sylw pawb yn ystod y cyfnod penodol hwn o amser. Roedd staff yn teimlo bod yr arsylwadau yn eu helpu yn fawr, yn rhoi llawer o deimladau cadarnhaol iddynt ac yn gwneud iddynt weld pethau mewn gwahanol ffyrdd.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cynhaliwyd grwpiau ffocws i fyfyrwyr. Gyda'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn arwain, roedd yn ddefnyddiol cael rhywun arall yn yr ystafell a allai gymryd nodiadau, tra oeddent yn arwain y sgyrsiau, er mwyn peidio â thynnu sylw'r sawl oedd yn arwain. Roedd pob athro dosbarth yn enwebu plant ar gyfer y grwpiau ffocws, gan gynnwys rhai o'r plant a dargedwyd. Wrth sôn am hyn, dywedodd y pennaeth cynorthwyol, 'Fe wnaethon ni ddewis y plant hynny'n fwriadol oherwydd ein bod wir eisiau rhoi cyfle iddyn nhw fynegi eu hunain'.

EFFAITH. Erbyn diwedd y flwyddyn ysgol roedd tystiolaeth gref bod y strategaethau a ddefnyddiwyd wedi arwain at newidiadau sylweddol o ran meddylfryd ac ymarfer mewn ysgol a oedd eisoes wedi ymrwymo o ddifrif i ddod o hyd i ffyrdd o ymateb i amrywiaeth myfyrwyr. Fel rhan o'r broses hon, daeth diogelwch yn yr ysgol yn destun trafod mawr, rhywbeth nad oedd wedi'i ragweld.

Nid oedd amheuaeth bod plant yn meddwl bod eu hysgol wedi dod yn lle hapusach i fod ac yn amgylchedd gwell i ddysgu ynddo. Gellir dadlau mai'r effaith bwysicaf, fodd bynnag, oedd y ffordd yr agorodd gyfnod dwys o drafodaeth am yr hyn y mae cynhwysiant yn ei olygu mewn gwirionedd. Allan o hyn daeth mwy o ymrwymiad i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei anwybyddu.

Yn ddiddorol, tra bod hyn i gyd yn digwydd yn yr ysgol, bu gwelliant sylweddol yn y sgoriau ar brofion cenedlaethol. Esboniodd y pennaeth, 'Dyma ein canlyniadau gorau erioed'. Mae'n ymddangos, felly, bod ymdrechion i gryfhau cynhwysiant wedi cyfrannu at welliant cyffredinol dysgu yn yr ysgol.

DISGRIFIAD 2 **'MYFYRWYR ANWELEDIG'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- A oes yna fyfyrwyr sy'n cael eu hanwybyddu yn eich ysgol?
- Beth ydych chi'n ei wybod amdanynt?
- Sut allech chi ddarganfod mwy am eu profiadau mewn ysgolion?

Gwahoddwyd grŵp o chwe athro mewn ysgol uwchradd fawr i ffurfio grŵp ymchwil. Roedd ganddynt deimlad nad oedd rhai pobl ifanc yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol. Roedd hi'n ymddangos hefyd y gallai fod cysylltiad rhwng hyn a diffyg diddordeb mwy cyffredinol yn yr ysgol ymhlith myfyrwyr.

Gyda hyn mewn golwg, penderfynodd y tîm nodi myfyrwyr ym Mlwyddyn 9 a oedd yn ymddangos fel eu bod yn dangos yr ymdeimlad hwn o ddiffyg diddordeb o fewn y cosbau a'r pwyntiau clod a dderbyniwyd ganddynt trwy system ymddygiad yr ysgol.

SAMPL. Wrth edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn ystod wythnosau cyntaf y tymor, roedd y grŵp ymchwil yn synnu o ddarganfod bod tua 25% o'r myfyrwyr - gyda nifer cyfartal o fechgyn a merched - yn ymddangos yn 'anweledig'. Cawsant fwy fyth o syndod wrth weld bod y myfyrwyr hyn - yn groes i'r disgwyliadau - o bob rhan o'r ystod gallu. O ganlyniad, penderfynodd y tîm ymchwilio i brofiadau'r myfyrwyr hyn yn fanylach i weld beth allai hyn ei ddweud wrthynt am arferion o fewn yr ysgol. Gyda hyn mewn golwg, fe wnaethant arsylwi ar y myfyrwyr yn y dosbarth i weld beth oedd eu profiadau o ddysgu a rhyngweithio. Y nod oedd arsylwi'r gwersi 'trwy lygaid y myfyrwyr'.

Gwnaed penderfyniad i ganolbwyntio ar 12 myfyriwr, chwech o bob rhyw. Canolbwyntiodd yr athrawon eu sylw ar bedwar prif faes: y rhyngweithio a'r berthynas rhwng myfyrwyr ac athrawon; rhyngweithio y myfyrwyr â'r tasgau a osodwyd; rhyngweithio y myfyrwyr â'u cyfoedion; a hwyliau cyffredinol y myfyrwyr. Yna ysgrifennodd y grŵp grynodebau byr am yr hyn yr oeddent wedi'i ddarganfod.

HOELIO SYLW. Er bod mân wahaniaethau yn yr hyn a welwyd, trawyd yr athrawon gan ba mor debyg oedd profiadau'r myfyrwyr. Yn benodol, gwnaethant sylwi mai anaml iawn y byddai'r myfyrwyr a dargedwyd yn cael eu henwi yn y dosbarth a phrin y byddai neb yn ymwneud â hwy. Yn hytrach, gwelwyd eu bod fel arfer yn gweithio trwy eu tasgau yn dawel, yn aml yn gorffen cyn myfyrwyr eraill, ond nid yn mynnu sylw wedyn. Yn ystod sesiynau holi ac ateb dosbarth cyfan, nid oeddent ar y cyfan yn ymwthgar o ran iaith eu corff, gyda hanner ohonynt prin byth yn codi llaw neu ddim yn ymateb o gwbl.

O ganlyniad i'r 'ffactorau annisgwyl' hyn, penderfynodd y tîm gynnal trafodaethau grŵp ffocws gyda'r myfyrwyr i ddarganfod beth oedd ganddynt i'w ddweud am eu profiadau yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol yn fwy cyffredinol. Roeddent yn amau nad oedd y myfyrwyr hyn eisiau iddynt sylwi arnynt - eu bod yn hapus i beidio â bod yn ganolbwynt sylw mewn gwersi. Unwaith eto, fodd bynnag, heriwyd eu rhagdybiaethau gan yr hyn a ddywedodd y myfyrwyr.

BARN Y MYFYRWYR. Yn ystod y grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r myfyrwyr nodi ac ysgrifennu am brofiad dysgu diweddar lle roeddent wedi teimlo eu bod yn ymgysylltu â'r dysgu ac yn rhan ohono, ac i'r gwrthwyneb, gweithgareddau lle nad oeddent wedi teimlo eu bod yn ymgysylltu â'r dysgu nac yn rhan ohono. Yna gofynnwyd iddynt ehangu ar y rhain, ac i drafod materion ynghylch tegwch a chael gwrandawiad o fewn yr ysgol. Dywedwyd wrthynt y byddai enwau athrawon neu bynciau yn cael eu dileu, ac y byddai unrhyw beth a ddywedwyd ganddynt yn cael ei drin yn gyfrinachol.

Roedd y myfyrwyr yn gallu mynegi beth oedd yn gweithio ac nad oedd yn gweithio iddynt yn eu barn hwy. Roedden nhw hefyd yn ymwybodol iawn, weithiau yn boenus o ymwybodol, bod rhai myfyrwyr yn cael mwy o sylw na nhw. Ymhlith pethau eraill, mynegwyd nad oeddent yn hoffi copïo testunau, a'u bod yn mwynhau gweithgareddau lle gallent feddwl drostynt eu hunain, cyn belled â bod tasgau'n cael eu hegluro a'u bod yn 'teimlo'n rhan' o'r gweithgaredd.

Siaradodd rhai myfyrwyr yn angerddol am eu teimladau o gael eu hanwybyddu yn ystod gwersi a'r teimlad fod hyn yn annheg. Er enghraifft, esboniodd un ferch sut y byddai hi weithiau'n rhoi ei llaw i fyny i ofyn am gyngor. Wrth weld yr athro yn cerdded tuag ati, byddai wedyn yn siomedig o weld digwyddiad yn rhywle arall yn yr ystafell ddosbarth wedyn yn tynnu sylw'r athro.

Roedd myfyrwyr eraill yn cwyno mai anaml y byddent yn cael canmoliaeth, er eu bod yn mynychu bob dydd, yn gweithio'n galed a bob amser yn gorffen eu gwaith cartref yn brydlon. Yn y cyfamser, byddent yn sylwi fod myfyrwyr aflonyddgar yn aml yn cael eu gwobrwyo am gyfnodau byr o ymddygiad goddefol.

DADANSODDI A GWEITHREDU. Yna dadansoddwyd y nodiadau a'r trawsgrifiadau arsylwi a grwpiwyd rhannau o ddeialog ar themâu tebyg â'i gilydd. Nododd aelodau'r grŵp staff unrhyw adrannau a neidiodd allan atynt - a wnaeth iddynt stopio a meddwl, neu a ddysgodd rywbeth newydd iddynt am eu myfyrwyr, ac arferion a chredoau o fewn yr ysgol. Ailadroddwyd y broses hon sawl gwaith nes i'r darnau yn y pen draw gael eu trefnu o amgylch y themâu canlynol: gweithgareddau dysgu, copïo, gwaith grŵp, cael help ac esboniad ar y tasgau, trin myfyrwyr swnllyd a thawel, athrawon yn siarad, a chanmoliaeth i fyfyrwyr 'da' a 'drwg'.

Gan fod y profiad o gasglu tystiolaeth wedi bod yn bwerus i'r tîm, penderfynon nhw ymgynghori â'r pennaeth ynghylch y camau nesaf. O ganlyniad, penderfynwyd y dylid cyflwyno'r canfyddiadau mewn cyfarfod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Yn y cyfarfod, roedd rhai uwch gydweithwyr yn amlwg wedi'u synnu a'u syfrdanu gan y dystiolaeth. O ganlyniad, trefnwyd cyfarfod ysgol gyfan i drafod goblygiadau'r dystiolaeth a gasglwyd.

DISGRIFIAD 3 **'AILYSTYRIED YR AGENDA'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- A yw tystiolaeth yn cael ei defnyddio yn eich ysgol i ddadansoddi profiadau'r myfyrwyr hynny sy'n achos pryder?
- I ba raddau y mae barn myfyrwyr yn cael ei hystyried?
- A yw cyfarfodydd athrawon yn cael eu cynnal i ddatrys problemau gyda'i gilydd?

Mewn rhai achosion, gall dechrau mynd i'r afael â'r dystiolaeth arwain staff i ailfeddwl y ffordd maen nhw'n llunio eu hagendâu ymchwil. Digwyddodd hyn mewn ysgol uwchradd sydd â thua 40% o fyfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol.

Penderfynodd y pennaeth ei fod eisiau ymchwilio i anfodlonrwydd yn yr ysgol. Roedd saith o fechgyn wedi cael eu gwahardd yn barhaol yn ystod y flwyddyn flaenorol a nodwyd bod gan nifer anghymesur o'r myfyrwyr hyn, pump i gyd, dreftadaeth leiafrifol. Gyda hyn fel ffocws, ffurfiwyd grŵp ymchwil staff dan arweiniad y dirprwy bennaeth i ddarganfod mwy.

Y FFOCWS. Roedd y grŵp staff yn cymryd yn ganiataol bod yr anawsterau yn gysylltiedig â'r ffaith fod bechgyn yn rhan o is-ddiwylliant ieuenctid yn eu cymuned, a bwlch cenhedlaeth problemus rhwng y bechgyn hyn a'u rhieni. Esboniodd uwch aelod o staff

> *'Yn gyffredinol, nid oedd [y gwaharddiadau] ar gyfer digwyddiadau untro ond yn hytrach ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau nad oeddem yn gallu dod o hyd i ffordd drwodd i'w datrys yn llwyddiannus... Ein dull yw cefnogi'r myfyriwr yn y lle cyntaf, ac mae gwaharddiad parhaol yn ddewis olaf i ni'.*

Aeth ymlaen i esbonio, pan fyddai problemau yn codi gyda'r bechgyn hyn, bod y rhieni fel rheol yn gefnogol iawn o ran sut roedd yr ysgol yn delio â nhw gan ychwanegu

> *'... Anaml iawn na fyddai rhiant yn gweithio ochr yn ochr â ni i geisio dod o hyd i ateb llwyddiannus'.*

Ychwanegodd yr athro fod y bechgyn hyn wedi dangos arwyddion o anfodlonrwydd yn is yn yr ysgol. Pan ofynnwyd iddo a oedd y staff wedi teimlo y gallai hyn fod yn gysylltiedig ag ethnigrwydd neu ddiwylliant, soniodd am ei gred nad oedd rhieni'r bobl ifanc hyn yn debygol o fod yn ymwybodol o ffordd o fyw eu plant y tu allan i gartref y teulu ar y cyfan.

Roedd rhai aelodau o staff wedi clywed sgyrsiau anffurfiol rhwng myfyrwyr a roddodd gipolwg ar eu his-ddiwylliant. Yn sgil hyn, roedden nhw hefyd yn amau bod y myfyrwyr hyn wedi dod i gysylltiad â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau, achosion o gwffio wedi'i drefnu a diwylliant gangiau. O ran y sylw am farn myfyrwyr ar ddifrifoldeb y gwaharddiadau, yr un peth oedd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin oedd eu bod yn meddwl ei fod yn ddifrifol.

DEFNYDDIO TYSTIOLAETH. Nododd tîm ymchwil y staff 26 o fyfyrwyr yr oedd eu hymddygiad wedi peri'r pryder mwyaf. Roedd 24 ohonynt yn fechgyn ac roedd y rhan fwyaf o Flynyddoedd 8 i 10. Defnyddiwyd cronfa ddata ymddygiad i gynnal y dadansoddiad hwn, er bod aelodau o'r tîm yn ddiweddarach wedi sylweddoli y gallent fod wedi defnyddio eu greddf.

Cynhaliodd y staff drafodaethau grŵp ffocws ar gyfer pob grŵp blwyddyn, pob un ohonynt yn trafod cwestiynau tebyg, gydag aelod o'r tîm bugeiliol yn arsylwi. Yn ogystal, cafodd rhai staff eu cyfweld am eu barn am waharddiadau ac ymddygiad myfyrwyr.

Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr yn cydnabod eu bod yn arddangos ymddygiad heriol yn yr ysgol. Roedden nhw'n teimlo, er eu bod yn aml yn cael eu cosbi oherwydd hyn, fod gweithredoedd yr ysgol yn deg ar y cyfan. Nid oeddent yn nodi unrhyw athrawon neu bynciau penodol lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn llai teg na myfyrwyr eraill, neu lle roeddent yn ymddwyn yn waeth. Roedden nhw'n tueddu i rannu safbwyntiau tebyg am wersi, dysgu, cael eu cosbi a rhesymau dros deimlo'n anfodlon waeth beth fo'u hethnigrwydd, ac nid oedd unrhyw un o'u rhesymau am ymddygiad heriol ac anfodlonrwydd yn ymddangos yn gysylltiedig â materion hil. Roedd yr holl fyfyrwyr yn sylweddoli bod gwahardd yn ddifrifol a'i fod yn effeithio'n fawr ar gyfleoedd gyrfa yn y dyfodol. Fe wnaethant hefyd ddweud y byddai eu rhieni yn flin ac yn siomedig ynddynt pe baent yn cael eu gwahardd.

AILFEDDWL. Newidiodd ffocws sylw'r grŵp, fodd bynnag, ar ôl dadansoddiad dyfnach. Daeth yn amlwg mai nodwedd gyffredin ymhlith y myfyrwyr hyn oedd bod gan bob un ohonynt lefelau darllen sylweddol is na'u hoedran darllen cronolegol, mewn rhai achosion o fwy na thair blynedd. Fodd bynnag dim ond un ohonynt oedd yn cydnabod bod ganddo/ganddi broblem ddarllen, sef myfyriwr ym Mlwyddyn 7. Yn amlwg, gallai hyn fod oherwydd nad oedd y bobl ifanc hyn eisiau gweld eu hunain fel rhai â gwendid, neu oherwydd eu bod yn teimlo fod 'dal eu pennau uwchlaw'r dŵr' yn ddigon.

Esboniodd y dirprwy bennaeth eu bod wedi canfod bod gan tua 40% o'u holl fyfyrwyr rhwng Blynyddoedd 7 ac 11 lefelau darllen is na'u hoedran darllen cronolegol, gyda rhai o'r bylchau yn 'hollol syfrdanol'. Ychwanegodd nad oedd staff yn gwbl ymwybodol o'r ffigwr hwn ac, yn yr un modd, mae'n debyg nad oeddent yn gwbl ymwybodol o'r bobl ifanc hynny yn eu gwersi a oedd â sgiliau darllen ac ysgrifennu gwan, na maint eu trafferthion. Er bod rhai ohonynt yn gwybod am y lefelau isel o lythrennedd ar draws yr ysgol, eglurodd ei bod yn dal yn syfrdanol gweld y gydberthynas rhwng oedran darllen isel ac anfodlonrwydd ymhlith y grwpiau ffocws. Er y gallai nifer gymharol fach o'r myfyrwyr fod wedi'u gwahardd oherwydd anfodlonrwydd difrifol, gallai'r rhain fod wedi dangos nifer llawer uwch o fyfyrwyr nad oeddent mor ymgysylltiedig ag y gallent fod oherwydd llythrennedd.

Adroddwyd enghraifft o adeg pan ofynnodd athro, heb adnabod y myfyrwyr yn dda iawn, iddynt ddarllen o flaen y dosbarth. Yn hytrach na chyfaddef eu hanallu i ddarllen, gallai'r myfyriwr ymateb gydag ymddygiad heriol neu, yn llai amlwg, rhoi'r gorau i wrando. Nodwyd bod deilliannau dysgu yn tueddu i ostwng tua diwedd Blwyddyn 7 ac yn ystod Blwyddyn 8, nid yn unig oherwydd pwysau cyfoedion a'r ffaith bod y myfyrwyr yn cyrraedd y glasoed, ond hefyd oherwydd bod myfyrwyr yn gweld darllen ac ysgrifennu yn llawer anoddach.

O ganlyniad i'r ailfeddwl hwn, yn y flwyddyn ysgol ganlynol gwnaed ymdrech fawr i ganolbwyntio ar ffyrdd o feithrin llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ym mlynyddoedd 7 ac 8.

DISGRIFIAD 4 **'DOD YN GYMUNED SY'N DATRYS PROBLEMAU'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Pa mor dda mae eich ysgol yn delio â phlant sy'n dangos ymddygiad heriol?
- Oes gennych chi bolisi ymddygiad yn eich ysgol? Os felly, a yw'n ystyried myfyrwyr ag ymddygiad heriol ac a ydych chi'n siŵr eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt?
- Pa syniadau ydych chi'n eu cael o'r disgrifiad hwn, yn enwedig o ran datblygiad proffesiynol?

Mae'r ysgol gynradd yn boblogaidd gyda theuluoedd yn yr ardal leol. Yr hyn sy'n taro'r ymwelydd â'r ysgol yw'r amrywiaeth ymhlith y plant, rhai ohonynt yn anabl, yn ogystal â'r ffordd y mae'r syniad o gymorth ar gyfer dysgu yn ymddangos wrth wraidd popeth sy'n digwydd. Yn ystod y gwasanaeth boreol, er enghraifft, mae plant ag anableddau yn eistedd ochr yn ochr â'u cyd-ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn cofio un bachgen penodol a arferai sgrechian yn rheolaidd yn y gwasanaeth. 'Doedd dim ffordd nad oedd yn dod i mewn', meddai.

Weithiau yn ystod y gwasanaeth, gall myfyriwr wneud yr hyn sy'n ymddangos fel sŵn neu sylw amhriodol, ond nid yw'n ymddangos bod hynny'n tarfu ar weddill y plant. Weithiau gall aelod o staff symud at blentyn i'w dawelu gyda chyffyrddiad ysgafn ar y fraich, neu trwy sibrwd yn dawel. Yn yr un modd, gwelir plant hefyd o bryd i'w gilydd yn annog plentyn gerllaw i fod yn dawel neu i eistedd yn llonydd. Wrth i'r plant gerdded yn dawel allan o'r neuadd fesul dosbarth, mae merch fach yn cyfeirio disgybl â Syndrom Down i'r cyfeiriad cywir.

DARPARU CEFNOGAETH. Mae'r pwyslais hwn ar gefnogaeth plentyn-i-blentyn bob amser yno ac mae'n amlwg ei bod wedi'i gwreiddio'n ddwfn ym mhatrwm cymdeithasol yr ysgol gyfan. Ar wahân i wasanaethau, mae'n amlwg mewn llawer o gyd-destunau eraill, gan gynnwys yr ystafelloedd dosbarth, yr iard chwarae a'r ardal fwyta. Mae'n digwydd heb sylw ac mae pawb yn ei gymryd yn ganiataol sy'n golygu nad gwaith unrhyw unigolyn neu grŵp yw hyn. Yn hytrach, mae'n gyfrifoldeb a rennir. Mae'r pennaeth yn esbonio gyda phleser amlwg bod cymaint o rieni bellach yn mynegi balchder bod y plant i gyd yn dysgu gofalu am eraill.

Wrth gwrs, nid yw hyn wedi digwydd ar hap. Trwy'r ysgol, gwelir bod oedolion yn modelu ffyrdd o gefnogi plant mewn ffyrdd nad ydynt yn creu dibyniaeth, ac yn cynnig cyngor pan fyddant yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol. Felly, er enghraifft, ar un achlysur cynghorwyd plentyn, 'Does dim angen dal ei law'. Gellir rhoi cyngor o'r fath i oedolion hefyd. Mewn un ystafell ddosbarth, lle roedd y plant yn paratoi ar gyfer addysg gorfforol, dywedodd yr athro wrth aelod newydd o'r staff cymorth, 'Gadewch iddi wneud hynny ei hun, mae hi'n dda am wisgo'i hun'.

Fodd bynnag, mae'r dull sensitif hwn o gefnogi efallai yn fwyaf amlwg yn yr ystafelloedd dosbarth lle, unwaith eto, mae'n ymddangos ei fod yn gymysgedd llyfn o ymyrraeth ymatebol ac ysgafn gan oedolyn wedi'i ategu gan lawer o gydweithrediad rhwng y plant.

POLISÏAU. Mae athrawon yn esbonio eu bod yn pwysleisio arferion clir yn y gred bod hyn o fudd i ddysgu pob plentyn. Yn y cyd-destun hwn, mae staff o'r farn bod cynlluniau gwersi y cytunwyd arnynt wedi gwneud cyfraniad defnyddiol, yn enwedig mewn perthynas â chyfranogiad a dysgu plant y gall eu hymddygiad weithiau fod yn heriol. Dywedwyd bod plant o'r fath yn ymateb yn arbennig o dda i'r ymdeimlad o drefn sy'n sail i'r strategaethau hyn.

Nid yw polisi ymddygiad yr ysgol yn amlwg iawn yn ystod gwersi. Mae yna nifer fach o 'reolau aur' y mae disgwyl i bawb eu dilyn. Yna, mae aelodau pob dosbarth yn penderfynu eu rheolau pellach eu hunain. Mae gan ddosbarthiadau hefyd 'lyfr ymddygiad' lle cedwir nodiadau am ymddygiad arbennig o dda neu ddrwg. Mae tri chofnod negyddol yn arwain at gadw'r disgybl i mewn, ond mae'n ymddangos bod hynny'n ddigwyddiad prin iawn.

Esboniodd y pennaeth eu bod bob wythnos yn cynnal 'gwasanaeth dathlu' pan fydd plant yn dod â'u gwaith i'w ddangos i'r ysgol gyfan. Mae'n amlwg ei bod hi'n cael pleser mawr o'r ffordd y mae'r mwyafrif o'r plant yn cymeradwyo'r hyn a allai ymddangos fel camau bach iawn o gynnydd gan rai plant. Mae hi'n sôn hefyd bod llawer o'r rhieni wedi nodi'r camau breision a gymerwyd gan y plant hyn dros gyfnod o flynyddoedd.

DATBLYGU STAFF. Wrth holi rhai o fewn yr ysgol er mwyn dysgu mwy am yr hyn oedd wedi hwyluso datblygiad y polisïau a'r arferion hyn, daw un thema allweddol yn amlwg. Mae hyn yn awgrymu bod yr hyn sydd wedi digwydd yn fath o broses gymdeithasol o ddysgu proffesiynol. Wedi'u hysgogi gan rai plant y mae eu hymddygiad anarferol a heriol yn gofyn am elfen o arbrofi a chreadigrwydd, ymddengys bod grwpiau o staff wedi datblygu mwy o allu i weithio ar y cyd er mwyn datrys problemau. Yn y modd hwn, ymddengys bod gweithio mewn timau wedi dod yn nodwedd amlwg iawn o waith yr ysgol. Wrth sôn am hyn, dywed y pennaeth, 'Pan mae'n gweithio'n dda mae'n syfrdanol mewn gwirionedd'. Yma mae un ffactor pwysig yn ymwneud â rheoli a defnyddio amser. Mewn ysgol brysur, gyda chymaint o ofynion o bob cyfeiriad, mae amser bob amser yn broblem i staff. Ychydig o amser gaiff athrawon i ffwrdd o'r plant yn ystod y diwrnod ysgol ac, wrth gwrs, mae presenoldeb rhai pobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol yn ychwanegu at y pwysau hwn. Mae hyn yn sicr wedi bod yn wir yma, yn enwedig gan fod eu hymddygiad anarferol a'u hanawsterau dysgu yn cyflwyno heriau newydd sylweddol i'r athrawon dosbarth. O ganlyniad, canfuwyd bod angen neilltuo amser yn wythnosol i gydweithwyr siarad am y problemau a wynebwyd.

Drwy ddatrys problemau ar y cyd a chefnogi ei gilydd, mae'n ymddangos, felly, bod staff o fewn yr ysgol wedi dod yn fwy hyderus y gallant ddod o hyd i ffyrdd o ddelio ag ymddygiad hynod heriol ac, wrth wneud hynny, ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn anawsterau o ran y dysgu. Dywedodd y pennaeth: 'Nid cynllunio ysgrifenedig cymhleth sy'n digwydd. Ond amser i siarad. Mae pethau'n esblygu'.

FFURFIAU O ARWEINYDDIAETH. Un o rolau pwysicaf y pennaeth oedd meithrin ymdeimlad o bwrpas cyffredin ymhlith y staff. Ar sail ymrwymiad personol cryf i gyfle cyfartal, mae'n ymddangos ei bod wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth arwain cymuned yr ysgol gyfan - staff, myfyrwyr, a rhieni - mewn ffyrdd sydd wedi arwain at ymrwymiad i gynhwysiant addysgol. O ganlyniad, mae tystiolaeth o gytundeb sylweddol ynghylch ystyr rhai egwyddorion allweddol, yn enwedig y syniad o gynhwysiant.

Fel y gwelsom, mae gan yr ysgol hefyd ddealltwriaeth dda o ddibenion cefnogaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae cydnabyddiaeth o botensial gwahaniaethau i gyfoethogi bywydau pobl trwy ysgogi creadigrwydd. O ganlyniad, mae presenoldeb plant ag ymddygiad hynod heriol wedi ysgogi proses lle mae'r ysgol hon wedi dod yn gymuned datrys problemau.



GWEITHGAREDD 4

CYNNAL YMCHWILIAD CYDWEITHREDOL

NOD

Cynllunio a chynnal proses o ymchwiliad cydweithredol o fewn yr ysgol.

PROSES

1. Mae grŵp yn cael ei ffurfio yn yr ysgol a fydd yn cynllunio ac yn cydlynu'r ymchwiliad cydweithredol.

2. Mae'r grŵp yn defnyddio'r Canllaw Ymchwiliad Cydweithredol a ddarperir isod a'i Atodiad i gynnal y broses.

3. Yn dilyn eu hymchwiliad cydweithredol, mae'r grŵp yn cytuno ar grynodeb o'r canfyddiadau ac yn rhannu'r rhain gydag eraill o fewn yr ysgol.

4. Mae'r broses yn arwain at gynllun gweithredu i'w roi ar waith yn yr ysgol.

CANLLAW YMCHWILIAD CYDWEITHREDOL

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu proses ar gyfer cynnal ymchwiliad cydweithredol o fewn ysgol. Dylid ei ddefnyddio'n hyblyg, gan ystyried ffactorau ac amgylchiadau lleol. Dylai'r broses gael ei harwain gan grŵp cydlynu a sefydlwyd o fewn ysgol, gan ystyried syniadau sy'n dod i'r amlwg o drafodaethau'r Fframwaith Adolygu Ysgolion.

Mae'r broses ymchwiliad cydweithredol yn cynnwys chwe cham sy'n gorgyffwrdd, fel a ganlyn:

1. DADANSODDI EIN CYD-DESTUN. Er mwyn datblygu strategaethau effeithiol ar gyfer cyrraedd dysgwyr sy'n agored i ymyleddio, allgáu a thangyflawni, mae angen dadansoddi cyd-destunau o fewn yr ysgol a'i chymuned. Yn y modd hwn, gellir datblygu syniadau cychwynnol ynghylch y mathau o rwystrau sy'n cael eu profi gan y dysgwyr hyn a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd i'w goresgyn. Dyma pam mae'n ddefnyddiol cael aelodau o'r grŵp cydlynu sydd â safbwyntiau gwahanol ar fywyd yr ysgol.

Materion i'w hystyried:

- Pa fyfyrwyr sy'n colli allan yn ein hysgol?
- Beth ydym yn ei wybod am y dysgwyr hyn?
- Ar ba grŵp(iau) ddylen ni ganolbwyntio ein sylw?
- Beth yw ein syniadau cychwynnol am y ffactorau sy'n arwain at eu hymyleiddio?

2. CASGLU TYSTIOLAETH. Gan adeiladu ar syniadau cychwynnol, mae angen gwneud trefniadau i gasglu tystiolaeth ychwanegol o wahanol ffurfiau i ddyfnhau'r dadansoddiad. Yma gall tystiolaeth fod ar sawl ffurf (gweler yr Atodiad am awgrymiadau). Mae hyn yn debygol o ddechrau gydag ystyriaeth o ddeunydd ystadegol sydd ar gael yn rhwydd yn yr ysgol, megis data presenoldeb a pherfformiad, neu dystiolaeth arall a luniwyd gan yr ysgol. Gall hyn dynnu sylw at unigolion a grwpiau y mae pryder amdanynt. Mae hyn yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol mewn perthynas â'r myfyrwyr hyn. Mae'r cam nesaf yn cynnwys dadansoddiad llawer mwy penodol o'r sefyllfa gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol, gan gynnwys gwybodaeth a ddarperir gan y myfyrwyr eu hunain. Mae ymchwil wedi canfod y gall tystiolaeth o'r fath ddarparu ffordd bwerus o symud ysgolion ymlaen, yn enwedig oherwydd y gall herio rhagdybiaethau staff ynghylch pam mae rhai myfyrwyr yn agored i ymyleiddio, allgáu a thangyflawniad. Gall hefyd dynnu sylw at fyfyrwyr sy'n cael eu hanwybyddu.

Materion i'w hystyried:

- Pa wybodaeth bellach sydd ei hangen arnom am y myfyrwyr hyn?
- Sut allwn ni gasglu, cofnodi a dadansoddi'r wybodaeth hon?Pwy
- ddylai gymryd rhan?

3. GWNEUD SYNNWYR O'R DYSTIOLAETH. Ar ôl casglu ac ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth, bydd angen i'r grŵp cydlynu gynllunio ffyrdd o annog trafodaeth eang o fewn cymuned eu hysgol ynghylch y materion y mae angen eu hystyried. Mae hyn yn debygol o gynnwys gosod y mater ar agendâu'r uwch dîm rheoli, cyfarfodydd staff priodol, a grwpiau myfyrwyr a rhieni. Mae rhai ysgolion hefyd wedi ei chael hi'n ddefnyddiol cynnwys cynrychiolwyr o'u hysgolion partner yn y trafodaethau hyn, yn enwedig oherwydd y gall 'pobl o'r tu allan' helpu wrth ofyn cwestiynau a nodi patrymau nad yw'r 'bobl o'r tu mewn' wedi eu gweld. Dyma ffordd o 'wneud y cyfarwydd yn anghyfarwydd' er mwyn annog prosesau myfyrio dyfnach yng nghymuned yr ysgol. Pan gaiff hyn ei arwain yn dda, mae'n ffordd o dynnu pobl at ei gilydd o amgylch ymdeimlad cyffredin o bwrpas.

Materion i'w hystyried:

- Beth a awgrymir gan y dystiolaeth am brofiad y grŵp hwn o fyfyrwyr?
- Pa ffactorau sy'n ymddangos yn gysylltiedig â'u diffyg cynnydd?
- Pwy ddylai fod yn rhan o'r gwaith i wneud synnwyr o'r dystiolaeth hon?
- Beth allwn ni ei wneud i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn?
- Pa agweddau ar ein hysgol sydd angen eu hystyried?

4. SYMUD YMLAEN. Ar ôl sefydlu meysydd ar gyfer datblygu, bydd angen i'r grŵp lunio strategaethau ar gyfer cynnwys cymuned yr ysgol wrth symud ymlaen. Yma, mae'r dull cyffredinol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod ysgolion yn gwybod mwy nag y maent yn ei ddefnyddio ac mai'r man cychwyn rhesymegol ar gyfer datblygu yw cynnal dadansoddiad manwl o ffyrdd presennol o weithio. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r ysgol nodi a rhannu arferion da ac ar yr un pryd, mae'n tynnu sylw at ffyrdd o weithio a allai fod yn creu rhwystrau i bresenoldeb, cyfranogiad a dysgu rhai myfyrwyr. Ar y pwynt hwn, mae'n ddefnyddiol cofio'r hen ddywediad fod gwella ysgol yn dechnegol syml ond yn gymdeithasol gymhleth. Mewn geiriau eraill, er bod cynllunio'r camau sydd angen eu cymryd yn debygol o fod yn gymharol syml, yr her i'r grŵp cydlynu yw dod o hyd i ffyrdd o gael pawb i gymryd rhan. Yn anochel, bydd y strategaethau a gaiff eu mabwysiadu mewn gwirionedd yn dibynnu ar natur y meysydd sy'n cael sylw.

Materion i'w hystyried:

- Pa gamau ydyn ni'n eu cynnig i wella profiad y grŵp hwn o fyfyrwyr?
- Pa agweddau ar ein hysgol sydd angen i ni eu newid?
- Pwy ddylai fod yn rhan o hyn wrth i ni symud ymlaen?
- Pa gamau y dylem eu cymryd i'w cynnwys?

5. CYNNWYS PARTNERIAID. Bydd cynnwys partneriaid allanol yn bwysig wrth i'r ysgol symud ymlaen mewn perthynas â'i chynlluniau, yn enwedig teuluoedd. Yn ogystal, mae tystiolaeth sylweddol y gall cydweithredu rhwng ysgolion ychwanegu gwerth at ymdrechion ysgolion unigol i ddatblygu ffyrdd mwy teg o weithio. Mae hyn yn dangos sut y gall cydweithio rhwng ysgolion helpu i leihau polareiddiad canolfannau addysgol ac yn enwedig er budd y myfyrwyr hynny sydd wedi'u hymyleiddio ar gyrion y system ac y mae eu perfformiad a'u hagweddau yn achosi pryder. Mae tystiolaeth yn dangos hefyd, pan fydd ysgolion yn ceisio datblygu ffyrdd mwy cydweithredol o weithio, y gall

hyn gael effaith ar sut mae athrawon yn gweld eu hunain a'u gwaith. Yn benodol, gall rhannu a chymharu arferion beri i staff ysgol weld myfyrwyr sy'n tangyflawni mewn goleuni newydd. Yn hytrach na chyflwyno problemau y credir eu bod yn anorchfygol, gall myfyrwyr o'r fath gael eu hystyried fel rhai sy'n darparu adborth ar drefniadau presennol yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol. Yn y modd hwn, gellir eu gweld fel ffynonellau gwybodaeth ar gyfer deall sut y gellid datblygu'r trefniadau hyn mewn ffyrdd a allai fod o fudd i bob aelod o'r ysgol.

Materion i'w hystyried:

- Pwy sydd angen i ni eu cynnwys o'r tu allan i'r ysgol?
- Sut allwn ni eu cael nhw i gymryd rhan?
- Ym mha ffyrdd y gallant ychwanegu gwerth at ein hymdrechion?

6. MONITRO CYNNYDD. Wrth i'r ysgol symud ymlaen gyda'i chynlluniau, mae angen i'r broses weithredu gael ei monitro'n ofalus ac yn aml. Bydd angen casglu tystiolaeth hefyd er mwyn pennu'r effaith o ran presenoldeb, cyfranogiad a chyflawniadau myfyrwyr. Mae gan y grŵp rôl allweddol wrth gydlynu'r gwaith hwn. Rhaid i uwch staff hefyd fod yn rhan o'r gwaith o gasglu, cynhyrchu a dehongli gwybodaeth er mwyn creu diwylliant ymholgar ledled yr ysgol. Rhagwelir y bydd y gweithgareddau hyn yn cael effaith ehangach wrth iddynt ddatblygu. Yn y modd hwn, mae'r ffocws cychwynnol ar grwpiau o ddysgwyr yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' yn debygol o herio arferion presennol yn yr ysgolion. Mae hyn yn lleoli'r gwaith yn gadarn yng nghanol cynlluniau datblygu cyffredinol yr ysgol.

Materion i'w hystyried:

- Beth yw'r canlyniadau rydyn ni'n eu ceisio?
- Beth ydym yn disgwyl ei weld yn digwydd yn y broses o gyflawni'r canlyniadau hyn?
- Sut ydyn ni'n monitro'r camau hyn a'u heffaith ar bresenoldeb, cyfranogiad a chynnydd myfyrwyr?

YSTYRIAETHAU PWYSIG

Wrth feddwl am y math hwn o ymchwiliad cydweithredol, mae'n hanfodol cydnabod nad yw'n rysáit syml ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant a thegwch y gellir ei godi a'i drosglwyddo o le i le. Yn hytrach, mae'n diffinio dull o sicrhau gwelliant sy'n defnyddio prosesau dadansoddi cyd-destunol er mwyn dylunio strategaethau sy'n addas i amgylchiadau penodol. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â gwahanol fathau o dystiolaeth, gan arwain at ddatblygu strategaethau a bennir yn lleol.

Yr hyn sy'n fwyaf nodedig am y dull yw ei fod yn cael ei arwain o fewn ysgolion. Gallwn ragweld, fodd bynnag, y bydd hyn yn arwain at gyfnodau o 'aflonyddwch' sefydliadol. Bydd natur y ffenomen hon yn amrywio o le i le, ond yn gyffredinol mae'n codi o ganlyniad i ymatebion unigolion o fewn ysgol i syniadau a dulliau sy'n tarfu ar status quo eu bywydau bob dydd. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod tystiolaeth o waith ymchwil i awgrymu bod newid llwyddiannus, hirhoedlog yn annhebygol o ddigwydd heb gyfnodau o gynnwrf. Yn yr ystyr hwn, gellir gweld aflonyddwch fel arwydd defnyddiol bod pethau'n symud. Ar yr un pryd, mae'n tanlinellu pwysigrwydd arweinyddiaeth sensitif, gefnogol.



ATODIAD

DULLIAU AR GYFER CASGLU TYSTIOLAETH MEWN YSGOLION

Gall dulliau ymchwilio fod ar sawl ffurf. Pan fyddant yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gallant helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae'r rhai o fewn ysgol yn gwneud synnwyr o'u profiadau. Gall hyn, yn ei dro, ysgogi arbrofi a dysgu proffesiynol. Mae'r nodiadau hyn yn esbonio rhai dulliau posibl y gall ysgolion eu gweld yn ddefnyddiol.

YSTADEGAU

Mae llawer iawn o wybodaeth ystadegol fel arfer ar gael mewn ysgolion ynghylch presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad myfyrwyr. Mae'r rhain yn fan cychwyn ardderchog ar gyfer ymchwiliad yn yr ysgol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae maint a soffistigeiddrwydd data o'r fath wedi gwella, cymaint felly fel y gellir olrhain cynnydd grwpiau ac unigolion yn fanwl iawn, gan roi llawer mwy o syniad o'r gwerth y mae ysgol yn ei ychwanegu i'w myfyrwyr. Os oes angen, gellir casglu rhagor o ddeunydd ystadegol perthnasol trwy arolygon o farn myfyrwyr, aelodau staff a, lle bo'n berthnasol, rhieni a gofalwyr ar ffurf holiadur. Fodd bynnag, ychydig iawn y mae gwybodaeth ystadegol ar ei phen ei hun yn ei ddweud wrthym. Yr hyn sy'n dod â data o'r fath yn fyw yw pan fydd 'pobl o'r tu mewn' yn dechrau craffu a gofyn cwestiynau gyda'i gilydd am ei arwyddocâd, gan ddod â phrofiadau a gwybodaeth fanwl i'r broses o ddehongli. Hyd yn oed wedyn, mae cyfyngiadau y mae angen eu cadw mewn cof. Mae ystadegau yn darparu patrymau o'r hyn sy'n bodoli: maen nhw'n dweud wrthym sut mae pethau, ond nid ydynt yn rhoi llawer o ddealltwriaeth o pam mae pethau fel y maent, neu sut y daethant i fod felly. Dyma pam mae arbenigwyr mewn ymchwil yn hyrwyddo'r syniad o ddefnyddio dulliau cymysg. Dyna pam mae angen tystiolaeth a gesglir trwy ddulliau ansoddol i ategu data ystadegol. Yn fwy penodol, gall dulliau ymchwil ansoddol ein helpu i fynd i'r afael â chwestiynau 'sut' a 'pam', er mwyn penderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i gychwyn newid mewn ysgol.

DULLIAU ANSODDOL

Gall y rhain fod ar sawl ffurf. Pan fyddant yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gallant helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae cyfranogwyr mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth yn gwneud synnwyr o'u profiadau. Mae dulliau posibl yn cynnwys y canlynol:

- CYFWELIADAU. Dylai cymryd rhan ynddynt fod yn wirfoddol, ac maent fel arfer yn elfen allweddol o gasglu data. Mae yna lawer o ddulliau posibl o gynnal cyfweliadau fel rhan o ymchwiliad yn yr ysgol. Efallai y byddant yn cael eu harwain gan set o gwestiynau wedi'u trefnu ymlaen llaw sy'n gofyn am ymatebion sydd bron yn rhagweladwy. Ar y llaw arall, gallant fod ar ffurf trafodaeth â ffocws o amgylch set o themâu sy'n ysgogi'r trafod. Gellid cynnal cyfweliadau gydag unigolion neu mewn grwpiau. Mae grwpiau ffocws yn ddull deniadol, yn arbennig wrth gynnal ymchwil gyda myfyrwyr mewn ysgolion, ac yn enwedig oherwydd ei bod yn bosibl cynnwys grŵp mwy o gyfranogwyr. Fodd bynnag, mae perygl, yn enwedig gyda phlant, y gall barn unigolion arbennig o hyderus siapio cyfraniadau eraill.



• CYNNAL TAITH DDYSGU. Mae teithiau dysgu yn ymweliadau wedi'u trefnu o amgylch ardaloedd dysgu ysgol gan grwpiau o gydweithwyr. Mewn rhai achosion, efallai y bydd myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan. Gall y teithiau ganolbwyntio ar agenda y cytunwyd arni neu gellir eu cadw'n agored er mwyn i'r rhai sy'n cymryd rhan ddewis 'pethau maen nhw'n sylwi arnynt'. Yn ystod ac ar ôl y daith, anogir cydweithwyr i fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i weld mewn ffordd sydd â'r bwriado annog rhannu syniadau a herio'i gilydd. Mae fersiwn arall o'r dull hwn yn cynnwys gofyn i grwpiau o staff o ysgolion partner graffu ar enghreifftiau o waith plant mewn ffordd sy'n annog y rhai sy'n cymryd rhan i ailystyried eu diffiniadau o ansawdd.

• ARSYLWI. Mae hyn yn elfen hanfodol o ymdrechion i wella arferion o fewn ysgol, gan fod ymchwil yn awgrymu bod datblygiadau o'r fath yn annhebygol o ddigwydd heb rywfaint o amlygiad i sut mae addysgu mewn gwirionedd yn edrych pan fydd yn cael ei wneud yn wahanol. Gall arsylwadau fod ar wahanol ffurfiau, yn dibynnu ar natur yr agenda gwella. Felly, er enghraifft, gallant gael eu harwain gan set o ddangosyddion ag iddynt rywfaint o ffocws, neu, ar yr llaw arall, gan gyfres o gwestiynau neu themâu agored. Yn ogystal, gall digwyddiadau annisgwyl ddatgelu rhywbeth arwyddocaol i'r ymchwiliad. Mae dysgu sut i arsylwi mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn amgylchedd ysgol yn her - mae llawer yn digwydd yno bob amser, ac mae'n hawdd i rywbeth dynnu eich sylw. Weithiau mae gwneud recordiadau fideo yn helpu ond unwaith eto, mae manteision a chyfyngiadau i'r dull hwn o gofnodi data. Mae'n ddefnyddiol gallu ailchwarae'r recordiad er mwyn edrych ar adrannau yn fwy manwl, ac mae'n dda i grwpiau o gydweithwyr drafod recordiad fideo. Ar y llaw arall, dim ond yr hyn sydd o fewn y ffrâm y gall y camera fideo ei recordio ac efallai y bydd digwyddiadau pwysig yn cael eu colli.

• GWRANDO AR DDYSGWYR. Mae trafodaethau gyda myfyrwyr yn ysgogiad arbennig o bwerus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Gellid arwain y rhain gan set o gwestiynau wedi'u trefnu ymlaen llaw; neu, ar y llaw arall, gallant fod ar ffurf trafodaeth â ffocws o amgylch set o themâu ysgogol. Gellid cynnal cyfweliadau gydag unigolion neu mewn grwpiau. Gall athrawon ddefnyddio'r dull fel rhan o drafodaethau ffocws gyda grwpiau bach o fyfyrwyr, o fewn cyd-destun dosbarth cyfan, neu gyda myfyrwyr unigol. Gall hefyd gynnwys myfyrwyr yn gweithredu fel ymchwilwyr yn eu hysgol, cyn belled â'u bod yn derbyn hyfforddiant a chymorth priodol.

• GWELD PETHAU'N WAHANOL. Y tu hwnt i weithdrefnau arsylwi a chyfweld confensiynol, mae lle i ddefnyddio dulliau mwy creadigol er mwyn canfod barn eraill, yn enwedig barn plant. Gall cysgodi grwpiau o bobl ifanc trwy ddiwrnod ysgol roi mewnwelediadau newydd ac weithiau anghysurus i oedolion ar sut beth yw bod yn ddysgwr yn eu hysgol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd roedd yn syndod i staff ddarganfod sut mae rhai myfyrwyr yn mynd trwy'r diwrnod cyfan heb glywed oedolyn yn defnyddio eu henw. Mae profiadau o'r fath yn ein hatgoffa o'r ffyrdd cynnil sy'n peri i rai bobl ifanc deimlo eu bod wedi'u hymyleiddio. Gall dulliau gweledol, hefyd, fod yn ffordd arbennig o bwerus o y mgysylltu â phlant. Er enghraifft, gall darluniau fod yn ddefnyddiol fel ysgogiad ar gyfer c yfweliadau unigol neu grwpiau ffocws. Yn yr un modd, mae gofyn i fyfyrwyr dynnu lluniau o wahanol agweddau ar eu profiad ysgol wedi profi i fod yn arbennig o lwyddiannus wrth alluogi oedolion, a phlant eraill, i weld bywyd ysgol trwy lygaid y dysgwr sydd wedi tynnu'r llun.



DARLLEN

AINSCOW, M. & SANDILL, A. (2010). Developing inclusive education systems: the role of organisational cultures and leadership. *International Journal of Inclusive Education*, 14(1), 1-16.

HARGREAVES, D.H. (1995). School culture, school effectiveness and school improvement. *School Effectiveness and School Improvement*, 6(1), 23-27.

HARRIS, J., CARRINGTON, S. & AINSCOW, M. WITH COMBER, B, EHRICH, L., KLENOWSKI, V., SMEED,
J. & SPINA, J. (2017). *Promoting equity in schools: collaboration, inquiry and ethical leadership*. Llundain: Routledge.

JOHNSON, D. W., & JOHNSON, R.T. (1989). Leading the cooperative school. Edina: Interaction Book Co.

OECD. (2012). Equity and quality in education: *Supporting disadvantaged students and schools.* Paris: OECD.

RIEHL, C.J. (2000). The principal's role in creating inclusive schools for diverse students: a review of normative, empirical, and critical literature on the practice of educational administration. *Review of Educational Research*, 70(1), 55-81.

SCHLEICHER, A. (2015). *Schools for 21st-Century learners: Strong leaders, confident teachers, innovative approaches*. OECD Publishing: Paris.

SLEE, R. (2010). *The irregular school: Exclusion, schooling and inclusive education*. Llundain: Routledge.

Noder: Cyn cyflwyno'r adnoddau hyn i eraill, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y cyd-destun penodol.

'Inclusive education: Approaches, scope and content'. Mae'r fideo UNESCO hwn yn cynnwys enghraifft ddefnyddiol o ysgol sydd wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â chynhwysiant: http://www.ibe.unesco.org/en/video/48th-ice-2008-approaches-scope-and-content

'Inclusive education'. Mae'r fideos a'r deunyddiau cymorth hyn yn dadlau bod cynhwysiant yn ffordd o feddwl a gweithredu sy'n dangos bod pawb yn cael ei dderbyn ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i bob dysgwr: https://www.alberta.ca/inclusive-education?fbclid=IwAR1wDha676UhfYASb5FNZpH_6iiWLcfrKhcorOfyyCYeu7Wj6B-kKdrimeE

'Young people's views on inclusive education'. Mae'r fideo hwn, a wnaed yn Tanzania ac Uganda, yn dangos manteision gwrando ar farn pobl ifanc: https://www.youtube.com/watch?v=lyYGeW2nJVg

'The Index for Inclusion'. Mae'r fframwaith adolygu a datblygu hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn sawl gwlad ledled y byd i hyrwyddo cynhwysiant mewn ysgolion: https://www.eenet.org.uk/resources/docs/Index%20English.pdf

'Empowerment, equity and excellence'. Mae'r cyflwyniad hwn yn mynd i'r afael â'r thema o newid systemau addysg mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch: https://www.youtube.com/watch?v=ir058B2_Z1A

'Gender is like an ocean'. Mae'r fideo hwn, sy'n croniclo taith myfyriwr ysgol uwchradd wrth iddo drawsnewid o fod yn fenyw i fod yn ddyn, yn esbonio sut y daeth cyfoedion ac athrawon yn gynghreiriaid i wneud ystafelloedd dosbarth yn fwy cynhwysol. *Gender is like an ocean.*

'Inclusive School Reform: Reflection, Action Planning and Monitoring of Impact'. Offeryn a ddatblygwyd fel rhan o'r Prosiect Cymunedau Ysgolion Cynhwysol: *Inclusive School Reform.*

'Learning walks'. Athrawon yn ymweld, yn arsylwi ac yn myfyrio ar waith eu cyfoedion mewn dosbarth arall: https://www.youtube.com/watch?v=AUTIIOfma90&t=106s

'Your Schools Inclusion Quotient'. Offeryn adolygu sydd wedi'i gynllunio i roi syniad o ble mae ysgol arni ar ei thaith tuag at gynhwysiant: *Your Schools Inclusion Quotient.*





DATBLYGU ARFERION CYNHWYSOL

CANLLAW 2

Mae'r ail ganllaw hwn hefyd yn cefnogi athrawon i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o ymgysylltu â'r holl fyfyrwyr yn eu gwersi. Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn cyffredinol canlynol:

? *Pa fathau o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth fydd yn sicrhau bod gwersi yn gynhwysol?*

Bwriedir i'r deunyddiau yn y canllaw gael eu defnyddio gan athrawon mewn ystod o gyd-destunau addysgol, gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar ac addysg bellach, i adolygu eu ffyrdd presennol o weithio mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch er mwyn pennu syniadau ar gyfer symud ymlaen.

Er y gellir defnyddio'r deunyddiau mewn gwahanol ffyrdd i weddu i gyd-destunau penodol, argymhellir cyfres o weithgareddau cysylltiedig. Y rhain yw:

GWEITHGAREDD 1: GWNEUD ADDYSGU A DYSGU YN GYNHWYSOL - Annog cyfranogwyr i feddwl am sut y gellir datblygu addysgu a dysgu cynhwysol yn eu hysgol.

GWEITHGAREDD 2: DEFNYDDIO'R FFRAMWAITH ADOLYGU ADDYSGU A DYSGU - Dechrau'r broses o adolygu dysgu yn yr ysgol mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch.

GWEITHGAREDD 3: DISGRIFIADAU O YMARFER - Dysgu o brofiadau ysgolion eraill sydd wedi gwneud cynnydd wrth hyrwyddo addysgu a dysgu cynhwysol a theg.

GWEITHGAREDD 4: DEFNYDDIO YMCHWILIAD CYDWEITHREDOL I DDATBLYGU ADDYSGU A DYSGU CYNHWYSOL - Gweithdrefn ar gyfer dadansoddi a hyrwyddo arferion cynhwysol.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnwys prosiectau grŵp strwythuredig sydd â'r bwriad o ysgogi cyfranogiad mewn trafodaethau, rhannu profiadau ac ymdrechion i ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o sicrhau bod pob myfyriwr yn ymgysylltu mewn gwersi.

Ar ôl cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, dylai cyfranogwyr gytuno ar gynllun gweithredu i ddatblygu strategaeth barhaus er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol yn eu hysgolion. Yn y modd hwn, mae dysgu'r oedolion yn ogystal â'r plant yn dod yn elfen ganolog o bolisi yn seiliedig ar egwyddorion cynhwysiant a thegwch. Darperir awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a dolenni i adnoddau perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.



GWEITHGAREDD 1

GWNEUD ADDYSGU A DYSGU YN GYNHWYSOL

NOD

Annog cyfranogwyr i feddwl am sut y gellir datblygu addysgu a dysgu cynhwysol yn eu hysgol.

PROSES

1. Darllenwch y deunydd trafod 'Datblygu arferion cynhwysol'.

2. Trafodwch y cynnwys gyda phartner.

3. Mewn grwpiau mwy (pedwar neu chwech), trafodwch y materion canlynol:
   - Beth yw'r syniadau mwyaf diddorol yn y papur trafod hwn?
   - Beth ydych chi'n ei feddwl am y syniad o athrawon yn dysgu oddi wrth ei gilydd?
   - Faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o ddulliau dysgu cydweithredol yn eich ysgolion?

4. Cyflwynwch eich canfyddiadau i'r grwpiau eraill ac ystyriwch y goblygiadau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol o fewn ysgolion.

DEUNYDD TRAFOD: DATBLYGU ARFERION CYNHWYSOL

Wrth i chi ddarllen y deunydd hwn, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- A yw eich ysgol yn annog athrawon i gydweithio i ddatblygu eu harferion?
- A yw athrawon yn cael eu hannog i arloesi er mwyn dod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o sicrhau bod pob myfyriwr yn ymgysylltu mewn gwersi.
- A yw barn myfyrwyr yn cael ei hystyried?

Fel y pwysleisiwyd trwy'r pecyn adnoddau *Estyn Allan at Bob Dysgwr*, y man cychwyn ar gyfer datblygu arferion cynhwysol o fewn ysgol yw craffu'n fanwl ar sut y gall dulliau presennol fod yn rhwystrau i gyfranogiad a dysgu rhai aelodau o'r dosbarth. Ar yr un pryd, bydd hyn yn nodi arferion calonogol y gellir eu rhannu ac adeiladu arnynt. Mae'r papur trafod hwn yn darparu awgrymiadau ar sut i wneud i hyn ddigwydd mewn ysgol.

DYSGU O ARFERION

Mae'r dulliau a argymhellir yn rhoi cryn bwyslais ar yr angen i arsylwi arferion yr ystafell ddosbarth ac i wrando'n ofalus ar y rhai sy'n cymryd rhan. Er enghraifft:

> *Dyma ddosbarth sy'n cynnwys bechgyn 9 oed o gefndiroedd amrywiol. Mae dau fyfyriwr, sy'n eistedd ar fwrdd ynysig, mewn cysylltiad cyson â'r hyn y cyfeirir ato fel hwylusydd cynhwysiant. Mae'r dosbarth yn gwneud danteithion Eid heddiw, gyda llawer o drafod am werthoedd sy'n gysylltiedig â gweddïau a thraddodiadau, gan gynnwys pwysigrwydd rhoi i'r plant difreintiedig ar yr amser sanctaidd hwn. Gyda llawer o atebion a syniadau ynglŷn â'r pwnc, mae'r ddau fachgen yn gweithio ar daflenni gwaith print gwahanol, wedi'u symleiddio a'u chwyddo gyda darluniau a llinellau, i baru lluniau â'i gilydd gyda chymorth yr hwylusydd cynhwysiant. Yn ystod y drafodaeth yn y dosbarth, ni ofynnir iddynt gyfranogi ac mae eu prif ffocws yn parhau i fod ar y daflen waith a roddwyd iddynt.*

Mae'r profiad hwn yn codi llawer o gwestiynau. Mae'r ddau fachgen yn bresennol mewn ystafell ddosbarth gyffredin ac, o ystyried eu hanawsterau dysgu ymddangosiadol, efallai na fyddai hyn yn digwydd mewn rhai gwledydd. Maen nhw hefyd yn elwa ar lawer o sylw unigol o'r math y mae'n rhaid i rieni mewn gwledydd eraill ymladd amdano.

Ar y llaw arall, mae eu lleoliad corfforol wrth fwrdd ar wahân, ar y cyrion i ffwrdd oddi wrth y myfyrwyr eraill, yn awgrymu eu bod yn parhau i fod wedi'u hymyleiddio, yn enwedig oherwydd bod yr athrawes gynorthwyol yn tueddu i sefyll rhyngddynt a gweddill y dosbarth wrth iddi ymwneud â nhw.

Felly, a yw'r myfyrwyr hyn wedi'u cynnwys ai peidio? A allwn ni gymryd gwersi o'r enghraifft hon a allai lywio datblygiad arferion mwy cynhwysol mewn ysgolion eraill? A sut y gellid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol?

DEFNYDDIO'R ADNODDAU SYDD AR GAEL

Nodwedd o wersi sy'n ymddangos yn effeithiol o ran annog cyfranogiad myfyrwyr yw'r ffordd y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael, yn enwedig adnoddau dynol, i gefnogi dysgu, fel yn yr enghraifft hon:

Dywedir bod Laos, gwlad fach yn Asia, yn un o'r tlotaf yn economaidd yn y byd. Yn sicr, ychydig iawn o adnoddau materol sydd gan yr ystafell ddosbarth hon. Mae'r athro yn treulio deg munud cyntaf y wers yn siarad â'r plant am bwnc sy'n ymwneud â natur. Yn ei gyflwyniad, mae'n defnyddio darlun y mae wedi'i wneud sydd wedi'i binio ar y bwrdd du. Yn sydyn, mae'r plant yn symud i grwpiau o dri i bump ac yn dechrau trafodaethau. Mae'r athro wedi gosod cwestiwn iddyn nhw ei drafod sy'n deillio o'i gyflwyniad cychwynnol. Mae'n amlwg o'r cyflymder a ddefnyddir i wneud hyn i gyd fod y dosbarth wedi arfer gweithio yn y modd hwn. Yr hyn sydd hefyd yn eithaf amlwg yw'r newid yn yr awyrgylch. Mae iaith y corff a'r mynegiant wyneb yn awgrymu bod y plant hyn a oedd gynt yn ymddangos yn eithaf goddefol bellach yn dangos llawer mwy o ddiddordeb yn yr agenda yr oedd yr athro wedi'i gynllunio.

Mae enghreifftiau fel hyn yn ein hatgoffa, o fewn unrhyw ystafell ddosbarth, bod myfyrwyr yn cynrychioli ffynhonnell gyfoethog o brofiadau, ysbrydoliaeth, her a chefnogaeth, ac os caiff y rhain eu defnyddio, gallant gyfrannu llawer iawn o egni ychwanegol i'r tasgau a'r gweithgareddau sy'n cael eu gosod. Fodd bynnag, mae hyn i gyd yn dibynnu ar sgiliau'r athro i harneisio'r egni hwn. Mae hyn, yn rhannol, yn fater o agwedd, yn dibynnu ar gydnabyddiaeth bod gan fyfyrwyr y gallu i gyfrannu at ddysgu ei gilydd.

Mae'r defnydd o waith grŵp cydweithredol mewn rhai gwledydd wedi dangos ei botensial i greu amodau ystafell ddosbarth sy'n gallu sicrhau'r cyfranogiad mwyaf, yn ogystal â chyflawni safonau dysgu uchel i bob myfyriwr ar yr un pryd. Yn wir, mae tystiolaeth gref i awgrymu, mewn achosion lle mae athrawon yn fedrus wrth gynllunio a rheoli'r defnydd o weithgareddau dysgu grŵp cydweithredol fel rhan o'u repertoire, y gall arwain at ganlyniadau gwell o ran datblygiad academaidd, cymdeithasol a seicolegol. Canfuwyd bod dulliau o'r fath hefyd yn ffordd effeithiol o gefnogi cyfranogiad 'myfyrwyr eithriadol', e.e. y rhai sy'n newydd i ddosbarth; plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol neu ieithyddol; a'r rhai ag anableddau. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio eto yr angen am sgìl wrth drefnu'r math hwn o ymarfer ystafell ddosbarth. Mae dulliau grŵp wedi'u rheoli'n wael fel arfer yn arwain at wastraff amser sylweddol ac, yn wir, gallant gyflwyno llawer o gyfleoedd ar gyfer mwy o aflonyddwch.

O ystyried cryfderau'r dadleuon dros ddysgu cydweithredol, byddai'n rhesymol tybio y byddai'r defnydd o ddulliau o'r fath yn gyffredin. Fodd bynnag, er ei bod yn gyffredin gweld plant yn eistedd o amgylch byrddau mewn grwpiau, mae golwg agosach yn cadarnhau eu bod yn aml yn gweithio ar dasgau unigol. Yn yr ystyr hwn, efallai eu bod yn cael y gwaethaf o'r ddau fyd. Mae gwaith unigol yn gofyn am ganolbwyntio, a gallai trafodaethau grŵp achlysurol a anogir gan drefniadau eistedd o'r fath aflonyddu ar hyn.

CYDWEITHREDU YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Gall gwaith grŵp effeithiol fod ar sawl ffurf gwahanol, ond y nodwedd ganolog yw bod cwblhau'r dasg yn gofyn am gyfranogiad gweithredol pob unigolyn o fewn y grŵp gweithio, ac na all un aelod o'r grŵp lwyddo heb lwyddiant y lleill. Mae'n hanfodol, felly, bod aelodau'r grŵp yn sylweddoli pwysigrwydd gweithio gyda'i gilydd, parchu ei gilydd a rhyngweithio mewn ffyrdd defnyddiol.

Yr agwedd bwysicaf ar weithio cydweithredol yw bod aelodau'r grŵp yn derbyn y gallant gyflawni eu hamcanion dim ond os yw aelodau eraill yn cyflawni eu hamcanion. Gallwn gyfeirio at hyn fel cyd-ddibyniaeth gadarnhaol – y syniad 'na all un ddysgu heb y lleill'.

Gellir cyflawni cyd-ddibyniaeth gadarnhaol mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar natur y tasgau penodol, cynnwys y wers a phrofiad blaenorol y myfyrwyr. Er enghraifft:

- Efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr weithio mewn parau i baratoi datganiad ar y cyd am bwnc y byddant yn gyfrifol am ei roi i grŵp mwy neu, o bosibl, i'r dosbarth cyfan;
- Gall grŵp o fyfyrwyr fod yn rhan o dasg y gellir ei chwblhau dim ond os yw deunyddiau ar wahân sydd yn nwylo aelodau unigol yn cael eu cyfuno;
- Gellir neilltuo aelodau unigol o grŵp i rolau penodol, e.e. cadeirydd, cofnodwr, crynhöwr, adroddwr;
- Efallai y gofynnir i bob aelod o'r grŵp gwblhau'r drafft cyntaf o dasg y mae'n rhaid ei chwblhau gan y grŵp cyfan; a
- Gellir dweud wrth grŵp y byddant yn cael eu graddio o ganlyniad i gyfuno'r perfformiadau a gwblheir gan aelodau unigol.

Wrth ofyn i fyfyrwyr weithio ar y cyd, rydym mewn gwirionedd yn cyflwyno set ychwanegol o amcanion i'w cyflawni. Yn ogystal â cheisio cyflawni eu hamcanion academaidd, mae'n ofynnol i'r myfyrwyr gofio amcanion sy'n gysylltiedig â'u sgiliau wrth weithio gydag eraill. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cyflwyno cymhlethdod a gofynion gweithio ar y cyd yn ofalus a'u cynyddu yn raddol. Gellir lleihau anawsterau cychwynnol, er enghraifft, trwy ofyn i bob myfyriwr weithio gydag un cyd-ddisgybl cyfarwydd ar dasg gymharol syml. Gellir cynyddu natur gofynion y dasg, a maint a chymhlethdod y grŵp, yn raddol wrth i'r myfyrwyr fagu cymhwysedd a hyder.

IAITH YMARFER

Mae tystiolaeth ymchwil gref sy'n awgrymu mai'r ffordd orau o ddatblygu ffyrdd cynhwysol o weithio yw trwy gael athrawon o fewn ysgol yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r neges yn syml: i annog cydweithrediad ymhlith myfyrwyr, dylid dechrau trwy gryfhau cydweithrediad ymhlith y staff. Yn y modd hwn, y nod yw 'symud gwybodaeth o gwmpas' o fewn ysgol, fel bod yr arferion gorau ar gael i'r holl blant.

Mae ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd creu hinsawdd lle bydd y math hwn o ddysgu proffesiynol yn digwydd. Yn ganolog i'r broses mae trafodaeth am ymarfer, fel yn yr enghraifft ganlynol:

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned dlawd mewn dinas yn India. Yn dilyn gwers lle roedd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae rôl am deuluoedd, mae'r athrawon yn esbonio sut roedd hyn wedi'i gynllunio. Y flwyddyn flaenorol roedd y pennaeth wedi trefnu cyfarfodydd bore Sadwrn achlysurol i drafod eu gwaith. O amgylch waliau'r ysgol mae posteri hardd a ddatblygwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Roedd y trafodaethau hyn, esboniodd yr athrawon, wedi eu hysgogi i roi cynnig ar wahanol ddulliau o addysgu. Fodd bynnag, fe wnaethant esbonio nad y cyfarfodydd yn unig oedd i gyfrif am hynny. Roedden nhw hefyd wedi datblygu'r syniad o'r hyn a elwid yn 'addysgu mewn partneriaeth', lle maent weithiau'n cael cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd yn ystafelloedd dosbarth ei gilydd. Roedd hyn, yn fwy na dim, medden nhw, wedi ysgogi eu hawydd i arbrofi. Pan ofynnwyd iddynt sut maen nhw'n dod o hyd i amser, fe wnaethant esbonio y byddai'r pennaeth weithiau yn cymryd dosbarth i ryddhau athro i weithio gyda chydweithiwr. Ar adegau eraill, efallai y byddant yn rhoi dau ddosbarth at ei gilydd, ond mae hyn fel arfer yn golygu bod yn rhaid iddynt weithio y tu allan gan fod yr ystafelloedd dosbarth yn orlawn.

Wrth wraidd prosesau fel hyn, lle mae dysgu proffesiynol yn digwydd o fewn ysgol, mae datblygiad iaith gyffredin y gall cydweithwyr ei siarad â'i gilydd ac, yn wir â nhw eu hunain, am agweddau manwl ar eu hymarfer. Heb iaith ymarfer o'r fath, mae athrawon yn ei chael hi'n anodd arbrofi gyda phosibiliadau newydd.

Mae llawer o'r hyn y mae athrawon yn ei wneud yn ystod y cyfarfyddiadau dwys sy'n digwydd yn cael ei wneud yn reddfol. Ar ben hynny, nid oes llawer o amser i stopio a meddwl. Dyma pam mae cael y cyfle i weld cydweithwyr wrth eu gwaith mor hanfodol i lwyddiant ymdrechion i ddatblygu ymarfer. Trwy brofiadau a rennir, gall cydweithwyr helpu ei gilydd i fynegi beth maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd a diffinio beth yr hoffen nhw ei wneud. Dyma hefyd y modd o greu gofod lle gall rhagdybiaethau a gymerir yn ganiataol am grwpiau penodol o ddysgwyr gael eu beirniadu ar y cyd.

Gall ymdrin â thystiolaeth o wahanol fathau er mwyn astudio addysgu mewn ysgol helpu i greu iaith ymarfer o'r fath. Gall hyn, yn ei dro, feithrin datblygiad arferion sy'n fwy effeithiol wrth ymgysylltu â dysgwyr sy'n cael eu hystyried yn anodd eu cyrraedd. Yn benodol, gall hyn greu gofod i ailfeddwl trwy dorri ar draws sgyrsiau presennol a chwestiynu ffyrdd arferol o weithio.

Y man cychwyn ar gyfer prosesau o'r fath yn aml yw ystyried tystiolaeth ystadegol ynghylch cynnydd myfyrwyr. Fodd bynnag, mae'r angen i dyrchu'n ddyfnach i ffactorau sy'n dylanwadu ar gynnydd fel arfer yn gofyn am edrych ar ffurfiau ansoddol o dystiolaeth. Mae technegau arbennig o bwerus yn hyn o beth yn cynnwys athrawon yn arsylwi gwersi ei gilydd, weithiau trwy recordiadau fideo, a thystiolaeth a gasglwyd gan fyfyrwyr am drefniadau addysgu a dysgu o fewn ysgol.

Mae hyn i gyd yn gyson â'r syniad o 'asesu ar gyfer dysgu', dull lle mae athrawon yn helpu eu myfyrwyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei ddysgu a sut. Mae hyn yn golygu rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr drafod eu hamcanion dysgu, ac i fyfyrio a siarad am eu cynnydd a'u camau nesaf.

Yn sail i'r dull hwn mae cydnabyddiaeth bod pob gweithgaredd addysgu a dysgu yn cynnig cyfleoedd asesu, ac y dylai asesu ar gyfer dysgu gael ei ymgorffori mewn ymarfer dosbarth o ddydd i ddydd fel modd o asesu cynnydd holl aelodau'r dosbarth yn barhaus mewn ffordd sy'n llywio addysgu ac yn darparu adborth i wella dysgu myfyrwyr.

CREU YMYRIADAU

O dan yr amodau cywir, mae dulliau o'r fath sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn darparu ymyriadau sy'n helpu i wneud y cyfarwydd yn anghyfarwydd mewn ffyrdd sy'n ysgogi hunan-gwestiynu, creadigrwydd a gweithredu. Wrth wneud hynny, gallant weithiau arwain at fynegi problemau canfyddedig mewn ffordd wahanol sydd, yn ei dro, yn tynnu sylw'r athro at bosibiliadau a anwybyddwyd ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad a dysgu. Yn y modd hwn, mae gwahaniaethau rhwng myfyrwyr, staff ac ysgolion yn dod yn gatalydd ar gyfer gwelliant.

Mae ymboeni am yr egwyddor o degwch yn golygu bod rhaid canolbwyntio hefyd ar y meddylfryd sydd y tu ôl i weithredoedd ac effeithiau meddylfryd o'r fath ar arferion. Yn benodol, mae'n rhaid ystyried yr agweddau a'r rhagdybiaethau sy'n dylanwadu ar yr hyn y mae athrawon yn ei wneud, rhai ohonynt efallai'n digwydd yn anymwybodol, a sut y gellir addasu'r rhain trwy ddeialog gydag eraill, yn enwedig gyda dysgwyr eu hunain.

Dull pwerus o gyflwyno'r math hwn o ddysgu proffesiynol yw astudio gwersi, gweithdrefn systematig ar gyfer datblygu addysgu sydd wedi'i hen sefydlu yn Japan a rhai gwledydd Asiaidd eraill. Nod astudio gwersi yw gwella effeithiolrwydd y profiadau y mae athrawon yn eu darparu i'w holl fyfyrwyr. Mae'r ffocws ar wers benodol, sydd wedyn yn cael ei defnyddio fel sail i gasglu tystiolaeth am ansawdd y profiadau y mae myfyrwyr yn eu derbyn. Gelwir y gwersi hyn yn wersi ymchwil ac fe'u defnyddir i archwilio pa mor dda mae'r myfyrwyr yn ymateb i'r gweithgareddau a gynlluniwyd.



GWEITHGAREDD 2

DEFNYDDIO'R FFRAMWAITH ADOLYGU ADDYSGU A DYSGU

Mae prosiect ymchwil diweddar yn Ewrop, 'Reaching the hard to reach', wedi archwilio sut y gall myfyrwyr sy'n cael eu hyfforddi fel ymchwilwyr gyfrannu at brosesau dysgu proffesiynol o'r fath.

NOD

Dechrau'r broses o adolygu addysgu a dysgu mewn perthynas â chynhwysiant a thegwch.

PROSES

1. Mae'r Fframwaith Adolygu Ysgolion yn cael ei gyflwyno i gyfranogwyr, gan nodi bod y dangosyddion a'r cwestiynau yn seiliedig ar ymchwil ryngwladol ynghylch y ffactorau sy'n gysylltiedig â strategaethau addysgu a dysgu sy'n gynhwysol ac yn deg.
2. Gan ddefnyddio'r raddfa sgorio pedwar pwynt ganlynol, mae cyfranogwyr unigol yn sgorio addysgu a dysgu eu hysgol yn erbyn y dangosyddion, lle:
   Mae A yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn dda. Mae nifer o gryfderau sylweddol, a dim gwendidau amlwg.
   Mae B yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn eithaf da. Ar y cyfan, mae cryfderau yn gorbwyso gwendidau.
   Mae C yn golygu: Nid yw'r ysgol yn gwneud yn dda iawn. Ar y cyfan, mae gwendidau yn gorbwyso cryfderau.
   Mae D yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn wael. Nid oes unrhyw gryfderau amlwg ac mae nifer o wendidau sylweddol.
3. Yna mae'r cyfranogwyr yn myfyrio ar y cwestiynau canlynol:
   - Beth yw'r cryfderau y gall ein hysgol adeiladu arnynt?
   - Beth yw'r prif heriau a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?
   - Beth ddylai'r camau nesaf fod?
4. Yn olaf, mae cyfranogwyr yn rhannu eu meddyliau am y broses hon ac yn trafod y goblygiadau ar gyfer y camau nesaf.

Y FFRAMWAITH ADOLYGU ADDYSGU A DYSGU

2.1 Mae'r addysgu yn cael ei gynllunio gyda'r holl fyfyrwyr mewn golwg

- A yw gweithgareddau gwersi yn ystyried diddordebau a phrofiadau myfyrwyr?
- A ddefnyddir dulliau addysgu amrywiol?
- A yw'r myfyrwyr yn deall dibenion gweithgareddau gwersi?

2.2 Mae'r gwersi yn annog cyfranogiad yr holl fyfyrwyr

- A gyferchir pob myfyriwr gyda'i enw?
- A oes deunyddiau sy'n ennyn diddordeb y myfyrwyr?
- A yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn ystod gwersi?
- A yw gwersi yn ddiwylliannol berthnasol?
- A yw bechgyn a merched fel ei gilydd yn cael eu hannog i siarad yn gyfartal?

2.3 Mae myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain

- A yw myfyrwyr yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain?
- A yw amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn annog dysgu annibynnol?

2.4 Anogir myfyrwyr i gefnogi dysgu ei gilydd

- A yw trefniadau eistedd yn annog myfyrwyr i ryngweithio?
- A oes disgwyl weithiau i fyfyrwyr weithio mewn parau neu grwpiau?
- A yw myfyrwyr yn helpu ei gilydd i gyflawni nodau gwersi?

2.5 Mae cymorth yn cael ei roi pan fydd myfyrwyr yn profi anawsterau

- A yw athrawon yn cadw llygad am fyfyrwyr sy'n profi anawsterau?
- A yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am help?

2.6 Mae disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth yn seiliedig ar barch gan y naill at y llall

- A oes rheolau sefydledig ar gyfer cymryd tro i siarad a gwrando?
- A yw myfyrwyr yn teimlo bod rheolau'r ystafell ddosbarth yn deg?
- A yw'r ysgol yn cymell myfyrwyr i beidio â bwlio?

2.7 Mae myfyrwyr yn teimlo bod ganddyn nhw rywun i siarad â nhw pan fyddant yn poeni neu'n ofidus

- A yw'r ysgol yn gwrando ar bryderon myfyrwyr ac yn mynd i'r afael â hwy?
- A yw athrawon ar gael i fyfyrwyr siarad â nhw'n breifat?

2.8 Mae asesu yn cyfrannu at gyflawniad pob myfyriwr

- A yw athrawon yn defnyddio asesu i annog dysgu?
- A yw myfyrwyr yn cael adborth adeiladol ar eu gwaith?
- A yw myfyrwyr yn cael eu helpu i adolygu ar gyfer profion neu arholiadau?
- A yw athrawon yn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei barchu, hyd yn oed o fewn un system asesu ffurfiol unedig?



GWEITHGAREDD 3

DISGRIFIADAU O YMARFER

NOD

Dysgu o brofiadau ysgolion eraill sydd wedi gwneud cynnydd wrth hyrwyddo addysgu a dysgu cynhwysol a theg.

PROSES

1. Mae cyfranogwyr unigol yn darllen un o'r pedwar disgrifiad, fel bod chwarter y grŵp yn edrych ar bob un. Eglurir y gall y disgrifiadau fod mewn cyd-destunau sy'n wahanol o ran polisïau cenedlaethol a'r adnoddau sydd ar gael.
2. Mae grwpiau yn cael eu ffurfio o gyfranogwyr sydd wedi darllen yr un disgrifiad. Ar ôl trafod y disgrifiad, maent yn cytuno ar grynodeb o'r syniadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg.
3. Mae'r grwpiau i gyd yn dod at ei gilydd ac yn esbonio'r disgrifiadau maen nhw wedi'u darllen a'r syniadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'u trafodaeth.
4. Ystyrir y gwersi sydd wedi'u dysgu o'r gweithgaredd hwn mewn perthynas â'r cwestiynau canlynol:
   - Beth rydyn ni wedi'i ddysgu o'r disgrifiadau hyn o ymarfer?
   - Beth yw'r goblygiadau ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd yn ein hysgol?
   - Beth ddylai ein camau nesaf fod?

DISGRIFIADAU O YMARFER

Bwriad yr enghreifftiau hyn yw ysgogi trafodaeth am yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn hyrwyddo datblygiad arferion cynhwysol. Wrth ddarllen y disgrifiadau, mae'n bwysig cofio bod cyd-destunau ac adnoddau yn wahanol. Felly, byddai angen newid y dulliau a ddefnyddir gan yr ysgolion yn yr enghreifftiau hyn i gyd-fynd ag amgylchiadau gwahanol mewn cymunedau amrywiol.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r pedair enghraifft yw'r pwyslais a roddir ar ddefnyddio tystiolaeth i ddadansoddi'r rhwystrau sy'n wynebu rhai dysgwyr a phwysigrwydd ymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth wrth symud pethau ymlaen.

DISGRIFIAD 1
'ATHRAWON YN SYMUD ALLAN O'U MANNAU CYSURUS'

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- A yw athrawon yn eich ysgol yn ystyried barn myfyrwyr wrth gynllunio gwersi?
- Beth ydych chi'n ei feddwl am y dull astudio gwersi?
- Ydych chi'n cael cyfleoedd i siarad am ymarfer gyda'ch cydweithwyr?

Mabwysiadodd tri o athrawon mewn ysgol uwchradd y syniad o astudio gwersi, dull o ddatblygiad proffesiynol sy'n seiliedig ar ymchwiliad. Wrth gynllunio gwers ddrama ar y cyd, fe wnaethant nodi myfyrwyr ym mhob un o'u dosbarthiadau a oedd yn arbennig o fregus yn eu barn hwy. Trwy feddwl am y wers gyda'r unigolion hyn mewn golwg, roeddent yn teimlo y gallent greu ffyrdd newydd a gwahanol o hwyluso dysgu eu holl fyfyrwyr. Felly, er enghraifft, soniodd un athro am fyfyriwr a oedd â dealltwriaeth o iaith ond na fyddai'n siarad, hyd yn oed pan fyddai'n cael ei wahodd i wneud hynny. Canolbwyntiodd athro arall ar un o'i fyfyrwyr a oedd ag anawsterau darllen difrifol.

Arweiniodd hyn at drafod ymysg yr athrawon sut y gallent gynllunio'r wers yn wahanol. Er enghraifft, fe wnaethon nhw siarad am gael y myfyrwyr i ysgrifennu ar y bwrdd gwyn a chael myfyrwyr i ymarfer ar lafar yr hyn yr oeddent eisiau ei ddweud, yn hytrach nag ysgrifennu dadleuon i lawr.

GWRANDO AR DDYSGWYR. Yn ogystal, penderfynodd y tri fod angen iddynt weithio gyda rhai o'u myfyrwyr cyn addysgu'r gwersi i gael syniad o sut roedd yn well ganddynt ddysgu. Roedden nhw hefyd eisiau ystyried sut orau i gynllunio'r wers i gefnogi'r gwahaniaethau niferus ymhlith y myfyrwyr. Gyda hyn mewn golwg, fe wnaethant ddewis saith myfyriwr, pob un o gefndir ethnig gwahanol, a chwech ohonynt wedi'u geni y tu allan i'r wlad.

Fe wnaeth yr athrawon ddod â'r myfyrwyr hyn at ei gilydd amser cinio a gofyn iddynt raddio eu dewisiadau ynghylch gwahanol weithgareddau ystafell ddosbarth y gellir eu defnyddio. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, penderfynon nhw y byddent, fel athrawon, yn caniatáu mwy o gyfle i fyfyrwyr wneud penderfyniadau yn ystod y wers yr oeddent yn ei chynllunio gyda'i gilydd.

Nod cyffredinol y wers a gynlluniwyd oedd datblygu hyder ac ymwybyddiaeth o amrywiaeth o dechnegau drama. Roedd pob athro yn dysgu'r wers gyda'u cydweithwyr yn gwylio, gan wneud newidiadau yng ngoleuni'r trafodaethau rheolaidd a gynhaliwyd wrth iddynt fynd ymlaen. Roedd yn amlwg bod y rhain yn canolbwyntio fwyfwy ar fanylion, ac, o ganlyniad, arweiniodd at fwy o bwyslais ar gynnig her i'w gilydd a myfyrio personol, fel y dangosir isod.

MYFYRIO AR BROFIAD. Ar ôl un o'r gwersi, cafwyd sgwrs lle clywyd yr athrawon yn 'meddwl yn uchel' am eu ffyrdd eu hunain o weithio o ganlyniad i wylio eu cydweithiwr yn dysgu'r wers:

Athro 1: 'Roeddwn i'n meddwl fod y wers yn swnllyd. Roeddwn i'n gwybod ei fod yn iawn, ond roeddwn i'n teimlo ychydig yn anghyfforddus oherwydd alla i ddim dychmygu cael yr un lefel o sŵn yn fy nosbarth a bod mewn rheolaeth. Dwi ddim yn siŵr y gallwn adael iddyn nhw fynd fel 'na'.

Athro 2: 'Gallwch ddweud eich bod chi (Athro 3) wedi gwneud llawer o waith grŵp gyda'ch dosbarth. Rydych chi wedi meithrin y berthynas honno o adael iddyn nhw weithio'n fwy annibynnol, dros amser, felly nid rhywbeth sy'n digwydd unwaith yw hyn'.

Athro 1: 'Byddwn i'n rhoi mwy o strwythur i fy ngwers. Fe wnaethoch chi roi'r ddwy dasg iddyn nhw gyda'i gilydd. Wnaethoch chi ddim mynd trwyddynt cyn i'r wers ddechrau ond roeddech yn mynd o'u cwmpas pan oeddent yn gwneud eu tasg gyntaf, nodweddion drama, i wneud yn siŵr eu bod yn iawn ar gyfer yr ail dasg. Byddwn i'n ei rhannu'n ddwy dasg, y gyntaf fyddai cyflawni'r nodwedd ddramatig, ac yna'r ail un fyddai lle maen nhw'n myfyrio ar beth yw agweddau pwysig pob nodwedd o ddrama. Byddwn i'n gwneud un dasg, yna eu stopio i gyd a dod â nhw yn ôl ataf i, ac yna byddwn i'n dweud wrthyn nhw beth i'w wneud ar gyfer yr ail dasg. Efallai 'mod i'n gwneud tro gwael â nhw, ond dydw i ddim yn credu y gallent ymdopi. Neu efallai fy mod i jyst eisiau teimlo 'mod i mewn rheolaeth'.

Athro 2: 'Cefais fy synnu o weld sut oedd y myfyrwyr wedi bwrw ymlaen a darllen eu pecynnau o wybodaeth yn eu grwpiau. Rwy'n genfigennus! Yr hyn oedd yn fy synnu oedd y ffordd roeddech chi'n gallu rhoi cyfarwyddiadau iddynt a dibynnu arnynt i ddarllen trwyddynt. Rydych chi'n amlwg wedi bod yn eu dysgu i fod yn annibynnol'.

Arweiniodd hyn i gyd at ystyried y gwahanol arddulliau addysgu a ddefnyddiwyd gan aelodau'r triawd:

Athro 1: 'Rwy'n credu bod gan (athro 3) arddull dawel iawn. Mae'n cael effaith ar y myfyrwyr. Roeddwn i'n gwylio sut roedd hi'n symud o gwmpas y dosbarth. Ni fyddai'r arddull dawel honno yn gweithio gyda fy ngrŵp i, neu ai dyna'r ffordd rydw i wedi'u mowldio nhw? Mae eu gallu nhw'n is o lawer ac mae'n cymryd llawer o egni i'w cael i roi pin ar bapur. Mae yna lawer o broblemau ymddygiad hefyd. Rwy'n teimlo'n flinedig iawn ar y diwedd. Pe bawn i'n dawelach, efallai y byddent yn ymdawelu hefyd? Byddwn i'n nerfus ynghylch fy myfyrwyr yn gallu bod mor annibynnol. Doeddech chi ddim wedi dweud wrthyn nhw bopeth yr oedd angen iddyn nhw ei wneud. Allai fy myfyrwyr i ddim gwneud hynny, neu efallai ei fod yn ymwneud â'm disgwyliadau o fy myfyriwr? Mae'n ymwneud yn rhannol â phwy yw'r myfyrwyr, ond mae hefyd yn ymwneud â disgwyliadau'.

AILFEDDWL. Aeth y sgwrs ymlaen i ystyried ffyrdd o ddeffro cryfderau cudd ymhlith y myfyrwyr:

> *Athro 2: 'Roeddwn hefyd yn hoffi'r ffordd roeddech chi'n dewis arweinwyr ar gyfer pob un o'r grwpiau. Fe wnaethoch chi ddewis pobl yr oeddech chi'n gwybod y bydden nhw'n hyderus i arwain y grwpiau'.*
>
> *Athro 1: 'Dydyn ni ddim yn tynnu digon ar eu cryfderau. Cymerwch Fyfyriwr Y er enghraifft. Mae'n isel ym mhopeth, ond mae'n athletwr i dîm y dref. Mae Myfyriwr X yn brysur iawn efo'r cadetiaid, efallai y byddai'n dda am arwain y gweithgaredd hwn. Efallai nad yw'n dda iawn am siarad, ond dydy hynny ddim yn golygu na allwn fanteisio ar eu cryfderau mewn meysydd eraill'.*
>
> *Athro 2: 'Dydw i ddim yn gwybod beth yw eu diddordebau, pa grwpiau neu glybiau maen nhw'n perthyn iddynt, beth sy'n eu cyffroi. Mae'n rhaid i ni ddangos eu bod nhw'n dda mewn rhywbeth a thynnu ar eu cryfderau'.*

Erbyn diwedd y broses, dywedodd y tri athro eu bod wedi cael eu herio i ailystyried eu dulliau cynllunio a threfnu gwersi. Trwy hyn, roedden nhw'n sylweddoli fod y dulliau newydd wedi rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu y tu allan i'r hyn y maent yn cyfeirio atynt fel eu 'mannau cysurus', ac, wrth wneud hynny, symud y tu hwnt i'w disgwyliadau am alluoedd eu myfyrwyr.

DISGRIFIAD 2 **'HERIO DISGWYLIADAU'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Pa fyfyrwyr sy'n destun pryder yn eich ysgol?
- Pa feysydd o'u cynnydd sy'n destun pryder?
- Sut allech chi ddarganfod mwy am brofiadau'r dysgwyr hyn?

Yn yr ysgol gynradd hon, dangosodd cofnodion asesu fod cyfran sylweddol o blant yn cael trafferth gydag ysgrifennu, o'i gymharu â'u cynnydd mewn mathemateg. Er gwaethaf yr hyn yr oedd rhai o'r athrawon wedi'i ddisgwyl, roedd yn amlwg na ellid cyfiawnhau ffocws ar fechgyn yn unig, o ystyried bod bechgyn hefyd yn rhai o'r perfformwyr gorau, a bod llawer o ferched prin yn perfformio'n well na'r bechgyn sy'n perfformio isaf.

CASGLU TYSTIOLAETH. Cynhyrchwyd tystiolaeth am y mater hwn gan grŵp ymchwil staff a gyfwelodd nifer fach o blant wrth iddynt ysgrifennu, gyda rhai ohonynt yn tynnu sylw at eu teimladau o fod ofn methu. Roedd aelodau'r grŵp wedi'u taro gan y mewnwelediadau a gafwyd gan feddwl tybed pa mor gyffredin oedd y teimladau hyn am ysgrifennu ymhlith yr holl fyfyrwyr.

Gyda hyn mewn golwg, penderfynodd yr athrawon ddyfeisio holiadur, a gafodd ei gwblhau gan bob plentyn ym mlynyddoedd pump a chwech, gyda chynorthwywyr dysgu yn ysgrifennu ar ran rhai plant. Roedd y ffactorau a nododd plant fel rhwystrau i ysgrifennu da yn fater o syndod a chwilfrydedd i aelodau'r grŵp ymchwil staff ac fe wnaethant ddechrau ystyried sut y gellid newid eu harferion eu hunain i leddfu rhai o'r materion hyn.

EHANGU'R DRAFODAETH. Penderfynwyd bod hwn yn foment i ymgysylltu â staff eraill yn yr ysgol. Felly, penderfynodd y grŵp ddefnyddio'r dystiolaeth o'r cyfweliadau a'r holiaduron, ochr yn ochr ag enghreifftiau o ysgrifennu'r plant, fel sail i gynllunio diwrnod datblygiad proffesiynol i athrawon.

Roedd y pwyslais trwy gydol y diwrnod hwn ar athrawon yn dehongli'r dystiolaeth gan eu plant 'hwy' a sut y gallent ymateb o ran eu hymarfer eu hunain. Cynhyrchodd y cyfarfod lawer o drafod, gyda llawer o athrawon yn rhoi enghreifftiau o sut roedden nhw'n bwriadu rhoi cynnig ar syniadau newydd mewn perthynas â'r mewnwelediadau a gafwyd. Roedd cynorthwywyr dysgu yn rhan o'r trafodaethau hyn, gan ddarparu mewnwelediadau gwerthfawr a phenodol o'u gwaith un-i-un gyda myfyrwyr.

Roedd elfennau o 'hwyl' yn ystod y dydd – er enghraifft, rhoi cynnig ar weithgaredd drama sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu stori – hefyd yn helpu i atgoffa staff o'r perthnasoedd da parhaus o fewn yr ysgol ac yn annog trafodaeth am eu blaenoriaethau wrth wynebu llawer o heriau. Serch hynny, datgelodd cyfweliadau dilynol gyda rhai athrawon sut yr oeddent yn cael trafferth gweld ffyrdd o newid eu harfer o fewn cyfyngiadau polisi'r ysgol. Yn wir, dim ond yn ddiweddarach, ar ôl i arolygwyr allanol farnu bod ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn gryf, y dechreuodd athrawon ymddiried yn eu barn eu hunain eto wrth benderfynu sut y gallent ddatblygu eu hymarfer.

DILYNIANT. Yn arwyddocaol, ddwy flynedd yn ddiweddarach roedd nifer o'r athrawon yn dal i ddefnyddio'r dystiolaeth o'r holiadur i lywio datblygiadau. Cynhaliwyd treialon o wahanol ddulliau o annog ysgrifennu hefyd, gyda phwyslais parhaus ar ofyn i'r plant dan sylw am eu barn.

DISGRIFIAD 3 '**CANOLBWYNTIO AR FANYLION**'

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Sut ydych chi'n ymgysylltu â myfyrwyr yn eich dosbarth sy'n profi anawsterau wrth ganolbwyntio?
- Ydych chi'n cael cyfleoedd i siarad â chydweithwyr am eich arferion yn yr ystafell ddosbarth?
- A yw myfyrwyr yn eich synnu weithiau?

Yn ystod cam cychwynnol gwers ddarllen yn yr ysgol gynradd hon, roedd y plant yn eistedd ar garped mewn cylch, pob un yn dal eu llyfr darllen. Yn ei chyflwyniad i'r wers, trafododd yr athrawes y syniad o'r 'prif gymeriadau' mewn stori. Defnyddiodd gwestiynau i ganfod gwybodaeth bresennol y plant, e.e. 'Beth ydyn ni'n galw'r person sy'n ysgrifennu llyfr?'

GWEITHIO MEWN PARAU. Yna gofynnwyd i'r plant weithio mewn parau, gan siarad am y prif gymeriadau yn eu llyfrau eu hunain. Symudodd yr athrawes o amgylch y cylch o blant gan nodi pwy oedd y partneriaid. Yna esboniodd y byddai'n ofynnol i bob person, yn y pen draw, siarad am yr hyn yr oedd eu partner wedi'i ddweud. Roedd un bachgen, Jose, i weithio gyda hi.

Ar ôl ychydig eiliadau o'r gweithgaredd hwn, daeth yn amlwg bod cryn dipyn o aelodau'r dosbarth yn dal i fod yn ansicr ynghylch beth oedd angen iddynt ei wneud. O ganlyniad, stopiodd yr athrawes y dosbarth a rhoi eglurhad pellach o'r dasg. Yna bu'r plant yn siarad yn eu parau am tua phum munud.

GWNEUD CYSYLLTIADAU. Ymhen dipyn, gofynnwyd i aelodau'r dosbarth orffen siarad â'u partner, ac yna cymerodd pob person ei dro i adrodd i'r dosbarth. Ar ôl gwrando ar grynodeb pob plentyn, ysgrifennodd yr athrawes eiriau penodol ar y bwrdd gwyn. Weithiau, roedd hi'n eu holi i ennyn geirfa addas, e.e. 'Fyddech chi'n ei hoffi?'; 'Pam lai?' Ymddengys bod llawer o'r cwestiynau wedi'u hanelu at wneud cysylltiadau â phrofiadau beunyddiol plant, eu cael i feddwl yn ddyfnach ac, ar yr un pryd, ymestyn eu geirfa, e.e. 'Cael eich diarddel - beth mae hynny'n ei olygu?' Er bod y cam hwn o'r wers yn cymryd peth amser ac yn cynnwys llawer o wrando, roedd y plant yn parhau i ddangos diddordeb. Yn wir, tua diwedd y broses llongyfarchodd yr athrawes yr holl blant am ganolbwyntio mor dda. Yna gofynnodd iddyn nhw ddarllen y geiriau yr oedd hi wedi'u rhestru fel parti llefaru.

Dywedwyd wrth y dosbarth bod yn rhaid iddynt nawr ddychwelyd i'w byrddau a chyflawni tasg ysgrifennu am beth fyddai'n digwydd pe bai eu cymeriad yn ymweld â'r ysgol. Wrth iddynt symud i'w lleoedd, gofynnodd un ferch, a oedd yn amlwg wedi llwyr ymgolli yn yr hyn a drafodwyd, a oedd hyn yn mynd i ddigwydd mewn gwirionedd!

Roedd y plant yn eistedd wrth bum bwrdd, yn ôl pob golwg wedi'u grwpio ar sail eu cyrhaeddiad darllen. Wrth iddynt ddechrau gweithio, dosbarthodd yr athrawes daflenni gwaith amrywiol. Yna, symudodd i rai byrddau er mwyn helpu unigolion i ddechrau arni. Ar ôl ychydig, stopiodd y dosbarth a gofynnodd iddynt wrando ar un bachgen yn darllen ei destun yn uchel, er mwyn ei helpu i benderfynu ble y dylid lleoli pob atalnod llawn.

ATHRAWON YN DYSGU GYDA'I GILYDD. Yn ddiweddarach, siaradodd yr athrawes ag un o'i chydweithwyr llai profiadol a oedd wedi arsylwi'r wers. Fe wnaethon nhw siarad, er enghraifft, am y gofal yr oedd yr athrawes yn ei gymryd gydag iaith a'i defnydd o gwestiynu i archwilio dealltwriaeth y plant eu hunain. Fe wnaethant hefyd drafod ei defnydd o drafodaeth mewn pâr. Yn ôl pob tebyg, mae'r plant yn gyfarwydd â'r dull hwn gan ei fod wedi cael ei ddefnyddio mewn gwersi blaenorol. Roedd gallu'r myfyrwyr i ganolbwyntio ac i fynegi eu hunain wedi creu argraff ar y ddwy athrawes.

Soniodd yr athrawes iau am y ffordd yr oedd ei chydweithiwr wedi dewis gweithio gyda Jose. Yn ôl pob tebyg, roedd hyn wedi digwydd ar hap, er ei bod wedi ei lywio i flaen y dosbarth, er mwyn 'cadw llygad agos arno'. Mae'n ymddangos fod Jose yn gallu bod yn aflonyddgar weithiau. Siaradon nhw am wahanol dactegau ar gyfer cadw llygad ar fyfyrwyr a allai fod yn anodd.

AGWEDDAU ANNISGWYL. Efallai mai'r agwedd fwyaf diddorol o'r drafodaeth oedd trafod ffyrdd o ddarparu ar gyfer gwahaniaethau o fewn y dosbarth. Cyfeiriodd yr athrawes at brofiad yn gynnar yn ei gyrfa a oedd wedi dylanwadu ar ei meddylfryd. Meddai, 'Mae gan bob plentyn bethau ynddynt i'n synnu... gallant i gyd ein synnu ni'.

Soniodd y ddwy gydweithiwraig am ffyrdd gwahanol yr oedd y wers hon wedi caniatáu cyfleoedd ar gyfer 'agweddau annisgwyl', tra oedd, ar yr un pryd, yn cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth i unigolion er mwyn iddynt allu cymryd rhan. Fe wnaethon nhw sôn, er enghraifft, am y ffordd y cafodd rhai plant eu hannog i ymateb trwy ddefnyddio cwestiynau a luniwyd yn ofalus. Fe wnaethant hefyd gynnig sylwadau ar sut roedd yr athrawes wedi cynnig gwahanol lefelau o gefnogaeth ar ôl i'r plant ddechrau'r dasg ysgrifennu. Felly, er enghraifft, symudodd ar unwaith i roi cyfarwyddiadau llafar pellach i'r rhai yr oedd hi'n tybio y byddai arnynt eu hangen. Rhoddodd hefyd daflenni sbarduno ysgrifenedig ychwanegol i rai plant, ond heb dynnu sylw at eu hangen am gymorth pellach. Yn y ffyrdd hyn, cymerodd yr holl blant ran yn yr un wers, lle roeddent yn rhannu agenda debyg, ond mewn ffordd a oedd yn ceisio ymateb i'w hanghenion penodol.

Roedd y ddwy athrawes yn teimlo bod eu trafodaethau wedi helpu'r ddwy ohonynt i fyfyrio'n fanwl ar agweddau ar eu meddylfryd a'u hymarfer eu hunain. Yn hyn o beth, dangosodd y profiad werth cael cyfle i arsylwi ymarfer a chael amser penodol i gymryd rhan mewn trafodaeth fanwl o'r profiad a rannwyd ganddynt.

DISGRIFIAD 4 **'CYDLYNU CYMORTH AR GYFER DYSGU'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- A oes gan bob myfyriwr yn eich ysgol rywun i siarad â nhw pan fyddant yn profi anawsterau, trais neu fwlio?
- Oes gennych chi systemau monitro sy'n eich galluogi i alw am gymorth pan fydd ei angen?
- A yw'r disgrifiad hwn yn pwyntio at bethau yn eich ysgol y gallai fod angen eu hadolygu?

Wedi'i lleoli mewn ystad dai gyhoeddus fawr ar gyrion dinas, mae gan yr ysgol tua 900 o fyfyrwyr yn yr ystod oedran 11 i 16. Mae tlodi yn cael effaith enfawr ar ei gwaith.

Mae'r ysgol yn wynebu problem arbennig gyda symudedd myfyrwyr. Er enghraifft, o'r 160 o fyfyrwyr a raddiodd yr haf diwethaf, dim ond 100 o'r rhain oedd wedi dechrau yn yr ysgol. Yn y cyfamser, dros y pum mlynedd blaenorol, roedd 227 o fyfyrwyr wedi bod yn rhan o'r garfan ar un adeg neu'i gilydd.

Mae yna hefyd ffurf fwy cudd o symudedd, gyda myfyrwyr yn symud rhwng cartrefi gwahanol rieni, neu aelodau eraill o'u teuluoedd. Dywedir bod iechyd gwael yn cael effaith barhaus ar bresenoldeb a chynnydd mewn ffyrdd nad yw'r rhai yn yr ysgol yn credu eu bod yn cael eu deall mewn cylchoedd ehangach.

Mae gan strategaeth yr ysgol ar gyfer meithrin cynhwysiant ddwy elfen ryng-gysylltiedig. Y rhain yw: monitro cynnydd a chefnogaeth i ddysgu.

MONITRO CYNNYDD. Mae'r strategaeth fonitro yn cynnwys amryw o wahanol dactegau, pob un ohonynt wedi'u bwriadu i helpu staff a myfyrwyr i ganolbwyntio ar gynnydd myfyrwyr unigol. Yma, mae'r pennaeth yn glir iawn bod 'rhaid i ni wybod beth sy'n digwydd!'

Mewn gwahanol ffyrdd, defnyddir gwybodaeth gyfredol am bresenoldeb, ymdrech a chynnydd i ysgogi, i ddathlu llwyddiant, ac, wrth gwrs, i nodi rhwystrau i gynnydd. Yma, dadansoddi tystiolaeth yw'r sail ar gyfer gwneud defnydd priodol o'r timau cymorth i fyfyrwyr sydd wedi'u cyflwyno. Ar yr un pryd, mae'n bwysig nodi bod pwysau ar bob un o'r myfyrwyr i gyflawni canlyniadau da.

Mae athrawon yn derbyn taenlenni rheolaidd sy'n crynhoi cynnydd pob myfyriwr. Mae'r rhain yn cael eu trafod gydag unigolion, yn enwedig y rhai sydd mewn unrhyw ystyr yn achos pryder, ac mae targedau unigol yn cael eu gosod.

Mae pob aelod o'r uwch dîm rheoli yn gyfrifol am fonitro un adran bwnc. Yn ogystal, mae'r uwch staff yn ymgymryd â rôl fonitro ehangach o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod gan athrawon gefnogaeth uniongyrchol sylweddol wrth ddelio â digwyddiadau aflonyddgar yn eu dosbarthiadau.

CEFNOGAETH I DDYSGU. Mae'r ymwelydd â'r ysgol yn cael ei daro gan yr awydd cryf i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr allu dysgu. Yr hyn sy'n anarferol yma yw'r ffordd y mae'r rhai o fewn yr ysgol yn gallu mynegi dibenion y gefnogaeth a'u sensitifrwydd i'r peryglon posibl. Hefyd, y ffordd drawiadol y mae staff o wahanol statws yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu strategaeth gefnogi sy'n teimlo'n 'unedig'. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod cefnogaeth barod ar gael, pan fo angen hynny ar unrhyw un yn yr ysgol.

Mae athroniaeth gynhwysol yr ysgol wedi'i harwain i ymgymryd â chyfrifoldebau ehangach fel canolfan adnoddau ar gyfer myfyrwyr ag amhariadau corfforol, rhai ohonynt mewn cadeiriau olwyn, a myfyrwyr eraill sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Mae hyn yn golygu bod hyd yn oed mwy o gymorth gan oedolion ar gael. Yr hyn sy'n ddiddorol yma, fodd bynnag, yw, gan fod pob un o'r myfyrwyr hyn yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y dosbarthiadau prif ffrwd, mae'r gefnogaeth a ddarperir ar gael i eraill a allai fod ei hangen.

Trwy'r ysgol gyfan, ymhlith myfyrwyr a staff, mae'n amlwg fod pawb yn derbyn yn ganiataol hawl y rhai ag anableddau i fod yn yr ysgol. Yn wir, ystyrir bod eu presenoldeb yn cael dylanwad cadarnhaol.

Mae'r rhesymeg gyffredinol dros ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr yn yr ysgol yn cael ei esbonio yn nhermau'r amcan 'mynediad heb gymorth'. Hynny yw, dim ond pan fo angen y darperir cymorth ac mae'n cael ei ddileu cyn gynted â phosibl. Fel y dywedodd un athro, 'Os nad oes ei angen arnoch, mae'n cael ei ddileu'.

Pwysigrwydd ethos. Mewn sawl ffordd, mae'r strwythurau trefniadol yn yr ysgol yn eithaf traddodiadol. Yr hyn sy'n wahanol iawn, fodd bynnag, yw natur y perthnasoedd gwaith sy'n gorwedd yn llorweddol ar draws y systemau eithaf hierarchaidd hyn. Esboniodd un o'r dirprwy benaethiaid hyn yn nhermau'r hyn y mae'n ei weld fel yr ethos sy'n treiddio i waith pob person, beth bynnag fo'u statws. Dywedodd:

> *'Mae aelodau o staff yn llawer agosach at fyfyrwyr yma nag mewn ysgolion eraill. Mae'n ddull llawer mwy cyfannol'.*

Mae'n cofio cyrraedd am y tro cyntaf, a chael ei 'syfrdanu'n llwyr' gan hyn, yn enwedig y disgwyliadau uchel sydd gan staff ar gyfer y myfyrwyr. Soniodd athrawes ifanc am y gefnogaeth a gafodd hi, gan nodi 'popeth rydych chi'n ei ddysgu, rydych chi'n ei ddysgu gan y rhai o'ch cwmpas'. Esboniodd pennaeth adran sut roedd datblygiadau sylweddol o ran arferion ystafell ddosbarth wedi cyfateb â newidiadau mewn agweddau a disgwyliadau. Dywedodd:

> *'I fod yn onest, gwarchod plant oedd llawer o fy addysgu cynnar. Nawr rydyn ni i gyd yn canolbwyntio ar wella cyflawniad ac mae ethos cynyddol o'r ysgol fel canolfan ddysgu. Ein gwir gryfder, fodd bynnag, yw'r gwaith tîm ymhlith yr holl staff'.*

Mae'n arwyddocaol bod trafodaethau yn yr ysgol yn aml yn dychwelyd at y thema o gydweithio. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod y pwysau o bob math y mae'n rhaid i'r ysgol weithio oddi tano wedi cael ei droi'n fantais.



GWEITHGAREDD 4

DEFNYDDIO YMCHWILIAD CYDWEITHREDOL I DDATBLYGU ADDYSGU A DYSGU CYNHWYSOL

NOD

Cyflwyno gweithdrefn ar gyfer dadansoddi a hyrwyddo addysgu a dysgu cynhwysol.

PROSES

Bwriad y cyfarwyddiadau a gyflwynir yma yw llywio proses o ymchwiliad cydweithredol gyda'r nod o wneud arferion ystafell ddosbarth yn fwy cynhwysol. Dylid defnyddio'r dull yn hyblyg, gan ystyried ffactorau ac amgylchiadau lleol. Tybir y bydd y broses yn cael ei harwain gan grŵp cydlynu a sefydlwyd o fewn ysgol.

IAITH YMARFER

Mae'r awgrymiadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o ymchwil ryngwladol ynghylch strategaethau ar gyfer meithrin mathau o addysgu sy'n effeithiol o ran sicrhau ymgysylltiad pob aelod o ddosbarth. Mae hyn yn awgrymu bod datblygiadau ymarfer, yn enwedig ymhlith athrawon mwy profiadol, yn annhebygol o ddigwydd heb rywfaint o amlygiad i sut olwg sydd ar addysgu mewn gwirionedd pan fydd yn cael ei wneud yn wahanol, ac amlygiad i rywun a all helpu athrawon i ddeall y gwahaniaeth rhwng yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r hyn maen nhw'n dymuno ei wneud.

Wrth wraidd prosesau mewn ysgolion lle mae newidiadau mewn ymarfer yn digwydd, mae datblygiad iaith gyffredin ynghylch ymarfer y gall cydweithwyr ei defnyddio i siarad â'i gilydd ac, yn wir â nhw eu hunain, am agweddau manwl ar eu hymarfer. Heb iaith o'r fath, mae athrawon yn ei chael hi'n anodd arbrofi gyda phosibiliadau newydd. Dyma pam mae cael y cyfle i weld cydweithwyr wrth eu gwaith mor hanfodol i lwyddiant ymdrechion i ddatblygu ymarfer. Trwy brofiadau a rennir, gall cydweithwyr helpu ei gilydd i fynegi beth maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd a diffinio beth yr hoffen nhw ei wneud. Dyma hefyd sut y gellir cyd-feirniadu rhagdybiaethau a gymerir yn ganiataol am grwpiau penodol o ddysgwyr.

ASTUDIO GWERSI

Mae hyn yn codi cwestiynau am y ffordd orau o gyflwyno ymagwedd o'r fath at ddatblygiad proffesiynol. Dull pwerus o wneud hyn yw astudio gwersi, gweithdrefn systematig ar gyfer datblygu addysgu sydd wedi'i hen sefydlu yn Japan a rhai gwledydd Asiaidd eraill.

Nod astudio gwersi yw gwella effeithiolrwydd y profiadau y mae athrawon yn eu darparu i'w holl fyfyrwyr. Mae'r gweithgaredd craidd yn cynnwys ymchwil gydweithredol ar faes ffocws a rennir sy'n cael ei ddewis trwy drafodaeth. Cynnwys y ffocws yw'r wers a gynlluniwyd, sydd wedyn yn cael ei defnyddio fel sail i gasglu tystiolaeth ar ansawdd y profiadau y mae myfyrwyr yn eu cael. Gelwir y gwersi hyn yn wersi ymchwil ac fe'u defnyddir i archwilio pa mor ymatebol yw'r myfyrwyr i'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

Mae aelodau'r grŵp yn gweithio gyda'i gilydd i ddylunio cynllun y wers, sydd wedyn yn cael ei roi ar waith gan bob athro yn ei dro. Trefnir arsylwadau a chyfarfodydd ar ôl y wers i hwyluso'r broses o wella'r wers ymchwil rhwng pob treial. Dylid nodi yma bod y prif ffocws ar y wers ac ymatebion aelodau'r dosbarth, nid yr athro.

Mae casglu tystiolaeth yn ffactor allweddol wrth astudio gwersi. Lle bo'n bosibl, gall hyn gynnwys recordio fideo. Rhoddir pwyslais hefyd ar wrando ar farn myfyrwyr mewn ffordd sy'n tueddu i gyflwyno elfen feirniadol i'r trafodaethau sy'n digwydd.

GWEITHDREFNAU

Mae'r awgrymiadau a wnaed yn y nodiadau hyn yn seiliedig ar y profiad o ddefnyddio'r dull astudio gwersi mewn llawer o ysgolion, mewn gwahanol rannau o'r byd. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu bod yn cael eu defnyddio'n hyblyg, a'u haddasu i gyd-fynd â thraddodiadau ac amgylchiadau cyd-destunau penodol.

Canfuwyd ei bod yn ddefnyddiol cynnal gweithdy cychwynnol i gyflwyno'r canllawiau hyn ar gyfer sefydlu grwpiau astudio gwersi. Yna, dros gyfnod o ychydig wythnosau, mae'r athrawon dan sylw yn dilyn fersiwn o'r weithdrefn gam wrth gam ganlynol:

1. Mae athrawon yn ffurfio triawdau, fel arfer yn cynnwys cydweithwyr â phrofiad amrywiol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i dreialu a gwerthuso'r syniad o astudio gwersi fel modd o gryfhau addysgu a dysgu mewn perthynas â themâu sy'n cael eu hystyried yn berthnasol, e.e. ymgysylltiad dysgwyr; ymateb i amrywiaeth; annog dysgu annibynnol.

2. Mae'r triawd yn dewis ac yn cynllunio un wers y bydd pob un ohonynt yn ei dysgu. Nod y wers ymchwil hon fydd dod â'r arbenigedd gorau sydd ar gael ynghyd gyda'r nod o ymgysylltu â holl aelodau'r dosbarth.

3. Wrth i bob aelod o staff ddysgu'r wers, mae eu dau gydweithiwr yn arsylwi'r broses, gan ganolbwyntio'n benodol ar y ffordd y mae myfyrwyr yn ymateb. Os yn bosibl, dylid recordio'r wers ar fideo hefyd, a chyfweld â sampl o fyfyrwyr i weld eu hymatebion a faint maent wedi ei ddysgu.

4. Ar ôl pob gwers ymchwil, mae'r triawd yn myfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd, gan ddefnyddio eu nodiadau, barn y myfyrwyr a'r recordiad fideo i ddadansoddi prosesau a chanlyniadau. Yna maent yn gwneud addasiadau i gynllun y wers cyn i'r wers gael ei dysgu gan yr aelod nesaf o'r triawd.

5. Ar ôl i'r wers gael ei dysgu gan bob aelod o'r triawd, paratoir adroddiad byr, sy'n crynhoi canfyddiadau'r broses ac argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

Ar ddiwedd cyfnod yr astudio gwersi, gellir cynnal cyfarfod staff pellach lle mae pob triawd yn cyflwyno canfyddiadau eu hymchwil a'r casgliadau y maent wedi'u llunio. Mae'r grŵp cyfan yn mynd ymlaen i ystyried beth yw'r goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer gyda'u hysgol.

RHAI MATERION I'W HYSTYRIED

CYNLLUNIO'R WERS YMCHWIL. Y nodau dysgu yw asgwrn cefn gwers ac maent yn darparu'r 'rheswm' dros addysgu a thros arsylwi'r wers. Mae timau fel arfer yn dechrau trwy ddewis pwnc, cysyniad, thema neu destun yn y cwrs maen nhw am ei astudio. Mae llawer o athrawon yn cael eu denu at destunau sy'n arbennig o anodd i fyfyrwyr eu dysgu, neu i athrawon eu haddysgu. Mae eraill yn dewis testun sy'n dod yn ddiweddarach yn y tymor, er mwyn iddynt gael digon o amser i gynllunio a dylunio'r wers. Mae eraill yn canolbwyntio ar destunau sy'n newydd i'r cwricwlwm, neu sy'n arbennig o bwysig wrth feithrin dealltwriaeth myfyrwyr.

Dylid nodi nodau dysgu yn nhermau yr hyn y bydd myfyrwyr yn ei ddeall a'r hyn y byddant yn gallu ei wneud o ganlyniad i'r wers. Mae nodau yn nodi'r ffurfiau y dymunir i'r myfyrwyr ddysgu, meddwl, ymgysylltu ac ymddwyn. Bydd beth bynnag y mae'r athrawon yn penderfynu ei wneud yn y dosbarth yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r nodau hyn.

Yn ystod y cam cynllunio, mae aelodau'r tîm fel arfer yn dechrau trwy rannu sut maent wedi addysgu neu sut y byddent yn addysgu'r wers, trafod a phwyso a mesur rhinweddau gwahanol fathau o weithgareddau, aseiniadau, ymarferion dosbarth ac yn y blaen. Er mwyn cadw'r ffocws ar ddysgu'r myfyrwyr, fodd bynnag, mae athrawon hefyd yn cyfuno eu gwybodaeth am sut mae myfyrwyr yn y gorffennol wedi dysgu neu wedi cael trafferth dysgu'r testun dan sylw. Unwaith y bydd profiadau blaenorol a dulliau personol ar y bwrdd, gall y tîm ddechrau dylunio gwers ymchwil a fydd yn helpu myfyrwyr i gyflawni'r nod dysgu a ddewiswyd.

Trwy gydol y broses, mae athrawon yn ymarfer yr hyn a elwir yn empathi gwybyddol. Mae hyn yn golygu edrych ar y pwnc o safbwynt y myfyriwr, gweithio i ddeall sut mae myfyrwyr yn dysgu. Wrth gynllunio'r wers, mae athrawon yn rhagweld sut y bydd myfyrwyr yn canfod, gweld a dehongli'r testun a gweithgareddau'r wers. Mae cynlluniau gwersi yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n rhagweld ymatebion myfyrwyr o ran dysgu, meddwl ac ymgysylltu.

CASGLU TYSTIOLAETH. Wrth baratoi ar gyfer addysgu'r wers, dylai timau ystyried sut i gasglu tystiolaeth a fydd yn eu helpu i benderfynu i ba raddau y mae'r nodau dysgu yn cael eu cyflawni. Efallai y bydd timau yn dymuno datblygu protocol arsylwi yn seiliedig ar eu rhagfynegiadau o ymatebion myfyrwyr a phenderfynu pa fath o dystiolaeth fydd yn cael ei chasglu gan fyfyrwyr.

Cyn y wers ei hun, gall fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i'r myfyrwyr am y wers ymchwil a'r arsylwyr a fydd yn yr ystafell ddosbarth. Cyn y wers, mae'r arsylwyr yn cael eu cyflwyno i'r dosbarth, gan esbonio mai'r nod cyffredinol yw dod o hyd i ffyrdd o wella eu dysgu.

Mae arsylwadau dosbarth traddodiadol yn tueddu i ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r athro yn ei wneud yn ystod y wers. Fodd bynnag, mae arsylwadau gwersi ymchwil yn canolbwyntio ar fyfyrwyr a'r hyn maen nhw'n ei wneud mewn ymateb i'r addysgu.

DADANSODDI TYSTIOLAETH.

Mae'r cam dadansoddi yn mynd i'r afael â thri chwestiwn:

- Ym mha ffyrdd y cyflawnodd myfyrwyr nodau y wers?
- Sut y gellid gwella'r wers?
- Beth wnaethon ni ei ddysgu o'r profiad hwn?

Ar ôl i'r wers gael ei dysgu, a'i bod yn dal yn ffres ym meddyliau pawb, dylai'r grŵp gwrdd i drafod a dadansoddi beth ddigwyddodd. Mae cyfranogwyr yn cynnig eu sylwadau, eu dehongliadau a'u sylwadau ar y wers. Pwrpas hyn yw dadansoddi a gwerthuso'r wers yn drylwyr o ran dysgu, meddylfryd ac ymgysylltiad y myfyrwyr.

Er mwyn paratoi ar gyfer y sesiwn ôl-wers hon, mae'n syniad da gofyn i rywun gymryd nodiadau gofalus a chasglu'r data ychwanegol gan arsylwyr y wers. Mae athrawon Japan yn cyfeirio at y sesiynau ôl-wers hyn fel 'colloquium', lle mae athro'r wers astudio, aelodau'r grŵp ac, lle bo hynny'n briodol, arsylwyr allanol yn trafod y wers ymchwil. Fel arfer, rhoddir cyfle i'r person a ddysgodd y wers siarad yn gyntaf, ac yna aelodau'r grŵp astudio gwersi ac arsylwyr eraill. Dylai'r drafodaeth ganolbwyntio ar y wers (nid yr athro) ac ar ddadansoddi beth, sut a pham y dysgodd myfyrwyr neu na ddysgodd myfyrwyr o'r profiad.



ESTYN ALLAN AT BOB DYSGWR: pecyn adnoddau ar gyfer cefnogi cynhwysiant a thegwch mewn addysg



DARLLEN

AINSCOW, M., DYSON, A., GOLDRICK, S. AND WEST, M. (2016). Using collaborative inquiry to foster equity within school systems: opportunities and barriers. *School Effectiveness and School Improvement,* 27(1), 7-23.

AINSCOW, M. AND MESSIOU, K. (2017). Engaging with the views of students to promote inclusion in education. *Journal of Educational Change,* 19(1), 1-17.

DYSON,A., HOWES,A. AND ROBERTS,B. (2004). What do we really know about inclusive schools? A systematic review of the research evidence. Yn D. Mitchell (Gol.), *Special Educational Needs and Inclusive Education: Major Themes in Education*. Llundain: Routledge.

FLORIAN, L., BLACK-HAWKINS, K., AND ROUSE, M. (2016). *Achievement and Inclusion in Schools* (Ail olygiad). Llundain, Routledge.

LEWIS, C., PERRY, R., & MURATA, A. (2006). How should research contribute to instructional improvement? The case of lesson study. *Educational Researcher,* 35(3), 3–14.

SKYHAR, C. (2021). Teacher-directed action research as a mediating tool for professional learning in rural contexts. *Australian and International Journal of Rural Education,* 31(1), 12-29.

Noder: *Cyn cyflwyno'r adnoddau hyn i eraill, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y cyd-destun penodol.*

Lesson Study: A handbook. Dyma ganllaw ar sut i ddefnyddio Astudio Gwers i ddatblygu a mireinio addysgu a dysgu:
https://lessonstudy.co.uk/wp-content/uploads/2012/03/new-handbook-revisedMay14.pdf

Assessment for Learning. Mae'r canllaw rhagarweiniol hwn yn esbonio sut y dylai athrawon roi cyfleoedd i fyfyrwyr fyfyrio a siarad am eu dysgu, eu cynnydd a'u camau nesaf.
https://www.nfer.ac.uk/media/3094/assessment_for_learning.pdf

'Reaching the Hard to Reach'. Mae'r deunyddiau datblygiad proffesiynol hyn yn canolbwyntio ar ddeialog rhwng athrawon/myfyrwyr fel strategaeth ar gyfer hyrwyddo ystafelloedd dosbarth cynhwysol (ar gael mewn pum iaith): https://reachingthehardtoreach.eu

'Teachers Helping Teachers'. Proses datrys problemau 30 munud mewn tîm:
https://www.youtube.com/watch?v=SI8_aQGjzvI

'Developing Inclusive Education'. Mae'r fideo hwn yn edrych ar sut mae arferion cynhwysol yn cael eu datblygu yn Ne Affrica:https://www.youtube.com/watch?v=828QHy53JFQ

'School Wide Culturally Response practices'. Addysgwyr yn buddsoddi mewn dull a rennir: https://www.youtube.com/watch?v=ztnwmVBMfd0

'Embedding culture in teaching and learning'. Ymgorffori diwylliant yn ymarferol ar gyfer addysgu a dysgu meithrin: https://www.youtube.com/watch?v=SJ_Ra8MnFe8

'Learning in classes'. Enghreifftiau o arferion cynhwysol:
https://www.youtube.com/playlist?list=PL10g2YT_In2hmTkac8YDMkCeFUcrPxOu6

'Dealing with bullying'.
https://en.unesco.org/news/what-you-need-know-about-school-violence-and-bullying



unesco
International Bureau of Education



GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID

CANLLAW 3

Mae'r trydydd canllaw hwn yn annog ysgolion a chanolfannau addysg eraill i gydweithio â theuluoedd, ysgolion eraill a chynrychiolwyr o'r gymuned ehangach. Mae'n cymryd yn ganiataol y gall partneriaethau fel hyn gryfhau gallu ysgol i ymateb i amrywiaeth dysgwyr. Mae'r deunyddiau yn mynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol:

? *Sut gall ysgolion ymgysylltu â theuluoedd, ysgolion partner a'r gymuned ehangach yn eu hymdrechion i ddod yn gynhwysol a theg?*

Y nod yw cyfeirio a chefnogi ysgolion i adolygu a datblygu eu perthynas â phartneriaid allanol. Er y bydd angen datblygu'r union ddull o wneud hyn mewn perthynas â chyd-destunau penodol, argymhellir set o weithdrefnau trwy'r gweithgareddau canlynol:

Dyma'r gweithgareddau:

- **GWEITHGAREDD 1**: **Ysgolion yn cydweithio â phartneriaid -** Archwilio rôl partneriaid allanol wrth gefnogi ymdrechion ysgolion i hyrwyddo cynhwysiant a thegwch.
- **GWEITHGAREDD 2: Defnyddio'r fframwaith adolygu partneriaethau -** Dechrau'r broses o adolygu gwaith yr ysgol gyda phartneriaid allanol.
- **GWEITHGAREDD 3**: **Disgrifiadau o ymarfer -** Dysgu o'r ffyrdd y mae ysgolion eraill wedi cydweithredu â phartneriaid allanol.
- **GWEITHGAREDD 4: Defnyddio ymchwiliad cydweithredol i hyrwyddo partneriaethau –** Datblygu blaenoriaethau ysgol ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid allanol.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnwys gweithgareddau grŵp strwythuredig sydd â'r bwriad o ysgogi cyfranogiad mewn trafodaethau, rhannu profiadau ac ymdrechion i weithio'n agos gyda phartneriaid allanol.

Ar ôl cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, dylai cyfranogwyr gytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer datblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo partneriaethau allanol. Yn y modd hwn, gall yr ysgol ddod yn ganolfan gweithredu cymunedol cydgysylltiedig ar gyfer cryfhau darpariaeth addysgol gynhwysol a theg yn ei hardal leol. Ceir awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a dolenni i adnoddau perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.



GWEITHGAREDD 1

YSGOLION YN CYDWEITHREDU Â PHARTNERIAID

NOD

Archwilio rôl partneriaid allanol wrth gefnogi ymdrechion ysgolion i hyrwyddo cynhwysiant a thegwch.

PROSES

1. Darllenwch y deunydd trafod 'Ysgolion yn estyn allan at bartneriaid'.

2. Trafodwch y cynnwys gyda phartner.

3. Mewn grwpiau mwy (pedwar neu chwech), trafodwch y materion canlynol:
   - Beth yw'r syniadau mwyaf diddorol yn y papur hwn?
   - Beth ydych chi'n ei feddwl am y syniad o ysgolion yn cydweithredu â phartneriaid allanol?
   - Pa mor dda mae eich ysgol yn cydweithredu â phartneriaid allanol?

4. Cyflwynwch eich canfyddiadau i'r grwpiau eraill ac ystyriwch y goblygiadau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol o fewn ysgolion.

DEUNYDD TRAFOD: YSGOLION YN ESTYN ALLAN AT BARTNERIAID

Wrth i chi ddarllen y deunydd hwn, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda mae eich ysgol yn cydweithredu â phartneriaid allanol?
- A yw eich ysgol yn aelod o unrhyw bartneriaethau neu rwydweithiau?
- Beth yw'r prif heriau a sut y gellid goresgyn y rhain?

> *'…. Bydd cau'r bwlch mewn canlyniadau rhwng y rhai o gefndiroedd mwy a llai breintiedig yn digwydd dim ond pan fydd yr hyn sy'n digwydd i blant y tu allan yn ogystal ag y tu mewn i ysgolion yn newid.'*
>
> AINSCOW, DYSON, GOLDRICK a WEST (2012).

Mae'r dull cyffredinol a gyflwynir yng Nghanllawiau 1 a 2 yn seiliedig ar y syniad bod y rhai o fewn ysgolion yn casglu ac yn ymgysylltu â gwahanol fathau o dystiolaeth er mwyn ysgogi camau i greu ffyrdd mwy cynhwysol o weithio. Mae'r ymchwil sy'n cael ei grynhoi yn y canllawiau hynny yn darparu tystiolaeth gadarnhaol o botensial y dull hwn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwrw goleuni ar rai o'r anawsterau wrth roi meddylfryd o'r fath ar waith. Mae hyn yn tynnu sylw at gyfyngiadau strategaethau o fewn yr ysgol, gan awgrymu y dylid ategu'r rhain gydag ymdrechion i annog mwy o gydweithrediad â theuluoedd, ysgolion eraill a phartneriaid cymunedol. Dylai partneriaethau cydweithredol o'r fath gael eu nodweddu gan barch a dealltwriaeth gan y naill at y llall, yn ogystal â chyfathrebu clir a chyfeillgar rhwng y rhai sy'n cymryd rhan.

CYNNWYS TEULUOEDD

Mae cynnwys teuluoedd yn arbennig o hanfodol. Mewn rhai gwledydd, mae rhieni ac awdurdodau addysg eisoes yn cydweithio'n agos wrth ddatblygu rhaglenni cymunedol ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rhai sydd wedi'u heithrio oherwydd eu rhywedd, eu statws cymdeithasol neu eu hamhariadau. Cam nesaf rhesymegol yw i'r rhieni hyn gymryd rhan yn y gwaith o gefnogi cynhwysiant a thegwch mewn ysgolion.

Lle nad oes gan rieni yr hyder a'r sgiliau i gyfranogi mewn datblygiadau o'r fath, efallai y bydd angen cryfhau'r capasiti trwy rwydweithiau cymorth. Gallai hyn gynnwys creu grwpiau rhieni, eu cefnogi i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda'u plant, neu feithrin sgiliau eiriolaeth rhieni i drafod gydag ysgolion ac awdurdodau. Yma, mae'n werth ychwanegu bod tystiolaeth y gall safbwyntiau teuluoedd, gan gynnwys y plant eu hunain, fod o gymorth i ddod â meddylfryd newydd i ymdrechion ysgolion i ddatblygu ffyrdd mwy cynhwysol o weithio.

Mae hyn i gyd yn golygu newid sut mae teuluoedd a chymunedau'n gweithio, a chyfoethogi'r hyn maen nhw'n ei gynnig i blant. Yn hyn o beth, mae yna lawer o enghreifftiau calonogol o'r hyn a all ddigwydd pan fo'r hyn y mae ysgolion yn ei wneud yn cyd-fynd mewn strategaeth gydlynol ag ymdrechion chwaraewyr lleol eraill – megis cyflogwyr, grwpiau cymunedol, prifysgolion a gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod ysgolion yn gwneud mwy, ond mae'n awgrymu partneriaethau y tu hwnt i'r ysgol, lle mae'r cysylltiadau hyn yn lluosi effeithiau ymdrechion ei gilydd.

YSGOLION YN GWEITHIO GYDA'I GILYDD

Mae tystiolaeth sylweddol o waith ymchwil sy'n awgrymu y gall cydweithredu ymhlith ysgolion gryfhau prosesau gwella trwy ychwanegu at yr ystod o arbenigedd sydd ar gael. Mae'r astudiaethau hyn hefyd yn dangos bod gan gydweithredu rhwng ysgolion botensial enfawr i feithrin eu gallu i ymateb i amrywiaeth dysgwyr. Yn fwy penodol, maent yn dangos sut y gall partneriaethau o'r fath weithiau helpu i leihau polareiddio ysgolion, er budd arbennig y myfyrwyr hynny sy'n ymddangos wedi'u hymyleiddio ar gyrion y system, ac y mae eu cynnydd a'u hagweddau yn achosi pryder.

Mae tystiolaeth hefyd y gall partneriaethau gryfhau gallu ysgolion unigol i ymateb i amrywiaeth dysgwyr. Pan fydd ysgolion yn ceisio datblygu ffyrdd mwy cydweithredol o weithio, gall hyn gael effaith ar sut mae athrawon yn gweld eu hunain a'u gwaith. Yn benodol, gall cymharu arferion mewn gwahanol ysgolion arwain athrawon i weld myfyrwyr sy'n tangyflawni mewn goleuni newydd. Yn y modd hwn, nid yw dysgwyr na ellir eu haddysgu'n hawdd o fewn arferion sefydledig yr ysgol yn cael eu hystyried fel rhai 'sydd â phroblemau' ond fel rhai sy'n herio athrawon i ail-edrych ar eu harferion er mwyn eu gwneud yn fwy ymatebol a hyblyg.

Fodd bynnag, nid yw datblygu partneriaethau cydweithredol rhwng ysgolion yn broses syml. Yn rhy aml, gall arwain at ddim ond cynnal cyfarfodydd heb unrhyw gamau gweithredu sylweddol. Mae pryder hefyd bod yr ysgolion hynny a allai elwa fwyaf o gymryd rhan yn llai tebygol o wneud hynny.

Mae ymchwil yn tynnu sylw at amodau penodol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud cydweithrediad ymhlith ysgolion yn effeithiol. Yn fyr, mae'r rhain fel a ganlyn:

- Datblygu perthynas gadarnhaol a pharchus rhwng parau neu grwpiau o ysgolion, mewn rhai achosion ar draws ffiniau awdurdodau lleol;
- Presenoldeb cymhellion sy'n annog rhanddeiliaid allweddol i archwilio'r posibilrwydd y bydd cydweithredu o les iddyn nhw eu hunain;
- Uwch staff mewn ysgolion sy'n barod ac yn ddigon medrus i yrru cydweithredu yn ei flaen tuag at gyd-gyfrifoldeb, tra'n ymdopi â'r ansicrwydd a'r aflonyddwch anochel; a
- Creu agendâu gwella cyffredin sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i ystod eang o randdeiliaid.

Mae hefyd yn ddefnyddiol cael cymorth allanol gan ymgynghorwyr/cynghorwyr credadwy (o'r awdurdod lleol neu rywle arall) sydd â'r hyder i ddysgu ochr yn ochr â'u partneriaid yn yr ysgol, gan archwilio a datblygu rolau a pherthnasoedd newydd lle bo angen.

PARTNERIAETHAU SY'N SEILIEDIG AR ARDAL

Gellir annog cydweithredu i hyrwyddo cynhwysiant a thegwch trwy fentrau o fewn ardaloedd lleol sy'n cynnwys ystod eang o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd cydgysylltiedig. Ysgolion yn aml yw'r allwedd i'r partneriaethau hyn a'r ysgolion weithiau yw'r prif ysgogwyr iddynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn fater yn unig o ysgolion yn ymrestru asiantaethau a sefydliadau eraill i gefnogi eu hagenda ar gyfer gwella. Yn hytrach, mae partneriaethau seiliedig ar ardal wedi'u hanelu at wella ystod eang o ganlyniadau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys canlyniadau addysgol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny - ac yn sicr nid i ganlyniadau cyrhaeddiad cul. Mae hyn yn ein hatgoffa bod iechyd a llesiant, datblygiad personol a chymdeithasol, ffynnu yn y blynyddoedd cynnar a chanlyniadau cyflogaeth cadarnhaol i gyd lawn mor bwysig â pha mor dda y mae plant yn ei wneud mewn perthynas â'r cwricwlwm ysgol academaidd.

Nid oes unrhyw ran o hyn yn awgrymu y dylid israddio pwysigrwydd cyflawniadau yn yr ysgol, ond mae'n gydnabyddiaeth bod yr holl ganlyniadau i blant a phobl ifanc yn gysylltiedig â'i gilydd. Ar ben hynny, mae'r ffactorau sy'n hyrwyddo neu'n atal un canlyniad yn debygol iawn o fod yr un ffactorau sy'n hyrwyddo neu'n atal canlyniadau yn eu cyfanrwydd. Mae ffocws mentrau o'r fath ar boblogaeth yr ardal, yn hytrach na dim ond ar fyfyrwyr mewn un ysgol benodol, a gallant gael eu harwain gan sefydliadau nad ydynt yn rhai addysgol, fel cymdeithasau cymunedol neu sefydliadau gwirfoddol. Ar ben hynny, mae'n rhaid eu hystyried yn hirdymor, meddwl yn nhermau cyfnod o ddeng mlynedd, ac ymrwymo i weithredu'n strategol, gan seilio eu gweithredoedd ar ddadansoddiad dwfn o heriau a phosibiliadau sylfaenol yr ardal leol.

EFFAITH GYFUNOL

Mae amrywiaeth o fentrau sy'n cysylltu ysgolion ac asiantaethau eraill yn y math hwn o weithredu ar sail ardal yn dod i'r amlwg mewn cymdogaethau trefol tlawd yn UDA a gwledydd eraill. Mae'r syniad o'r hyn a elwir yn 'effaith gyfunol' yn arbennig o arwyddocaol yn y datblygiadau hyn. Mewn geiriau eraill, ystyrir bod yr heriau cymhleth sy'n wynebu ysgolion, fel gyda'r holl wasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun amrywiaeth, anghydraddoldeb, anfantais a bregusrwydd, yn gofyn am ymatebion mewn sawl maes ar lefel leol.

Gellir dod o hyd i ddisgrifiadau o ddulliau seiliedig ar ardal mewn gwledydd incwm isel ar wefan Enabling Education Network (https://www.eenet.org.uk/what-we-do/). Gan weithio gydag adnoddau ariannol cyfyngedig, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut y gall cynrychiolwyr cymunedol weithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd addysgol i'w plant a'u pobl ifanc. Gall arweinyddiaeth ar gyfer mentrau o'r fath ddod gan grwpiau gweithredu dros deuluoedd neu sefydliadau gwirfoddol. Gall ysgolion eu hunain hefyd fod â rôl wrth gydlynu'r ymdrechion cydweithredol hyn.

Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu meddylfryd tebyg i'r prosiect uchel ei barch Harlem Children's Zone yn UDA. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys ymdrechion i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn ardal ddifreintiedig yn Efrog Newydd trwy ddull sy'n cael ei adnabod fel un 'dwbl gyfannol'. Hynny yw, mae'r fenter yn ceisio datblygu ymdrechion cydlynol i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi anfantais i blant a gwella'r ffactorau sy'n eu cefnogi, ar draws pob agwedd ar eu bywydau, ac ar draws eu hoes, o'r beichiogi hyd at ddod yn oedolion.

Mae prosiect Harlem wedi cael ei ddisgrifio gan ymchwilwyr fel 'o bosibl yr arbrawf cymdeithasol mwyaf uchelgeisiol i leddfu tlodi yn ein hoes ni.' Mae rhaglen Americanaidd arall, StriveTogether, yn gweithredu fel sefydliad asgwrn cefn canolog ar gyfer safleoedd sy'n defnyddio syniadau tebyg sydd wedi'u teilwra'n lleol ledled yr Unol Daleithiau. Mae'r mentrau hyn yn cael eu harwain gan ddangosyddion sy'n rhychwantu bywydau pobl ifanc 'o'r crud i yrfa', gyda chynnydd yn cael ei bennu ar sail tystiolaeth ar bob cam datblygu.

CYDLYNU LLEOL

Rhaid cofio bod polisi yn cael ei wneud ar bob lefel o system addysg, gan gynnwys ar lefel ysgol ac ystafell ddosbarth. Mae symud i ffyrdd mwy cynhwysol o weithio felly yn gofyn am newidiadau ar draws system addysg. Mae'r rhain yn rhychwantu newidiadau yng ngwerthoedd a ffyrdd o feddwl llunwyr polisi, sy'n eu galluogi i gynnig gweledigaeth sy'n siapio diwylliant o gynhwysiant, i newidiadau sylweddol yng ngwaith athrawon. Mae dod ag egwyddorion tegwch a chynhwysiant i bolisi addysg hefyd yn gofyn am ymgysylltu â sectorau eraill, megis iechyd, lles cymdeithasol a gwasanaethau amddiffyn plant.

Mae diwylliant o gynhwysiant mewn addysg yn gofyn am set o ragdybiaethau a chredoau a rennir ymhlith llunwyr polisi ac uwch staff ar lefel genedlaethol, ardal ac ysgol sy'n gwerthfawrogi gwahaniaethau, yn credu mewn cydweithredu, ac yn ymrwymedig i gynnig cyfleoedd addysgol i bob myfyriwr. Fodd bynnag, mae newid y normau diwylliannol sy'n bodoli o fewn system addysg yn anodd ei gyflawni, yn enwedig mewn cyd-destun sy'n wynebu cymaint o bwysau cystadleuol a lle mae ymarferwyr yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu hwynebu. Felly, rhaid i arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys y rhai mewn cymdeithas sifil a sectorau eraill, fod yn barod i ddadansoddi eu sefyllfaoedd eu hunain, nodi rhwystrau a hwyluswyr lleol, cynllunio proses ddatblygu briodol, a darparu arweinyddiaeth ar gyfer arferion cynhwysol a strategaethau effeithiol ar gyfer monitro tegwch mewn addysg.

Mae angen cydlynu lleol er mwyn annog ffurfiau o gydweithio o'r fath. Yn wir, o edrych ar bedair o'r systemau addysg cenedlaethol mwyaf llwyddiannus - Singapore, Estonia, y Ffindir, ac Ontario - mae gan bob un 'haen ganol' gydlynol, waeth beth yw'r graddau gwahanol o ymreolaeth ysgolion neu ddatganoli o ran gwneud penderfyniadau. Yn benodol, mae gan bob un ohonynt strwythurau ar lefel rhanbarth sy'n cynnig safiad cyson, sef bod angen dylanwad cydlynol awdurdodol gydag atebolrwydd lleol er mwyn cynnal tegwch yn ogystal â rhagoriaeth.

GOBLYGIADAU

Mae gan ddatblygiadau fel hyn oblygiadau i'r gwahanol randdeiliaid allweddol o fewn systemau addysg. Yn benodol, mae'n rhaid i athrawon, yn enwedig y rhai mewn swyddi uwch, weld eu hunain fel rhai sydd â chyfrifoldeb ehangach dros bob plentyn a pherson ifanc yn eu hardal leol, nid dim ond y rhai sy'n mynychu eu hysgolion eu hunain. Mae'n rhaid iddynt hefyd gefnogi ei gilydd i ddatblygu patrymau gweithio sy'n eu galluogi i gael yr haelioni a'r hyblygrwydd i gydweithredu ag ysgolion eraill a'u cymunedau ehangach. Mae'n golygu, hefyd, bod yn rhaid i'r rhai sy'n gweinyddu systemau ysgol addasu eu blaenoriaethau a'u ffyrdd o weithio mewn ymateb i ymdrechion i wella sy'n cael eu harwain o fewn ysgolion a'u cymunedau lleol.



GWEITHGAREDD 2

DEFNYDDIO'R FFRAMWAITH ADOLYGU PARTNERIAETHAU

NOD

Dechrau'r broses o adolygu gwaith yr ysgol gyda phartneriaid allanol.

PROSES

1. Mae'r Fframwaith Adolygu Partneriaethau yn cael ei gyflwyno i gyfranogwyr, gan nodi bod y dangosyddion a'r cwestiynau yn seiliedig ar ymchwil ryngwladol ynghylch y ffactorau sy'n gysylltiedig â strategaethau addysgu a dysgu sy'n gynhwysol ac yn deg.

2. Gan ddefnyddio'r raddfa sgorio pedwar pwynt ganlynol, mae cyfranogwyr unigol yn sgorio i ba raddau y mae eu hysgol yn ymwneud â phartneriaid allanol yn erbyn y dangosyddion, lle:
   Mae A yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn dda. Mae nifer o gryfderau sylweddol, a dim gwendidau amlwg.
   Mae B yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn eithaf da. Ar y cyfan, mae cryfderau yn gorbwyso gwendidau.
   Mae C yn golygu: Nid yw'r ysgol yn gwneud yn dda iawn. Ar y cyfan, mae gwendidau yn gorbwyso cryfderau.
   Mae D yn golygu: Mae'r ysgol yn gwneud yn wael. Nid oes unrhyw gryfderau amlwg ac mae nifer o wendidau sylweddol.

3. Yna mae'r cyfranogwyr yn myfyrio ar y cwestiynau canlynol:
   - Beth yw'r partneriaethau y gall ein hysgol adeiladu arnynt?
   - Beth yw'r prif heriau o ran gweithio gyda phartneriaid allanol a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?
   - Beth ddylai'r camau nesaf fod?

4. Yn olaf, mae cyfranogwyr yn rhannu eu meddyliau am y broses hon ac yn trafod y goblygiadau ar gyfer y camau nesaf.

Y FFRAMWAITH ADOLYGU PARTNERIAETHAU

3.1 Mae'r ysgol wedi'i threfnu mewn ffyrdd sy'n galluogi staff i ymgysylltu â phartneriaid allanol

- A oes hyblygrwydd yn y ffordd y mae'r diwrnod ysgol yn cael ei drefnu fel bod aelodau staff yn cael amser i gysylltu â phartneriaid y tu allan i'r diwrnod ysgol?
- A yw uwch aelodau o staff yn ystyried bod gwneud cysylltiadau â phartneriaid allanol yn rhan o'u rôl?

3.2 Mae athrawon yn cynnwys aelodau o'r teulu wrth gefnogi dysgu eu plant

- A yw aelodau'r teulu yn cael eu hannog i ddod i'r ysgol i gefnogi dysgu a gweithgareddau cymdeithasol?
- A yw rhieni/gofalwyr yn rhan o weithgareddau dysgu eu plentyn gartref?
- A gynhelir cyfarfodydd lle mae athrawon a rhieni yn trafod cynnydd eu plentyn?
- A yw'r perthnasoedd hyn yn ymatebol yn ddiwylliannol?

3.3 Darperir gwybodaeth reolaidd i deuluoedd am gynnydd eu plant

- A yw teuluoedd yn cael adroddiadau cynnydd am eu plant?
- A gysylltir â theuluoedd pan fydd eu plentyn yn gwneud cyfraniad sylweddol yn yr ysgol?
- A yw'r ysgol yn cyhoeddi cylchlythyrau neu'n defnyddio ffyrdd eraill o hysbysu teuluoedd am ddatblygiadau diddorol?

3.4 Mae'r ysgol yn aelod o rwydweithiau a phartneriaethau

- A yw'r ysgol yn aelod gweithgar o unrhyw rwydweithiau neu bartneriaethau ysgolion?
- A yw uwch aelodau staff yn cymryd rhan o ran cydlynu unrhyw rwydweithiau neu bartneriaethau ysgolion?

3.5 Mae athrawon yn cael cyfleoedd achlysurol i ymweld ag ysgolion partner er mwyn rhannu arferion

- A yw ymweliadau ag ysgolion eraill yn cael eu hannog a'u trefnu?
- A yw'r ysgol yn annog athrawon o ysgolion eraill i ymweld?

3.6 Mae uwch staff yn cefnogi eu cydweithwyr yn eu hysgolion partner i adolygu polisïau ac arferion

- A yw'r pennaeth ac uwch aelodau eraill o staff yn ymwneud â phrosesau adolygu gan gymheiriaid gyda chydweithwyr mewn ysgolion eraill?
- A yw'r ysgol yn fodlon darparu cymorth pan fydd ysgol arall yn wynebu anawsterau?

3.7 Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â phlant a'u teuluoedd

- A yw staff o'r gwasanaethau iechyd, llesiant cymdeithasol ac amddiffyn plant yn cyfrannu at waith yr ysgol?
- A oes gan yr ysgol gysylltiadau â mudiadau gwirfoddol, gan gynnwys grwpiau cymorth i deuluoedd?

3.8 Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â sefydliadau cymunedol lleol

- A oes gan yr ysgol gysylltiadau â busnesau lleol, cymdeithasau gwirfoddol a sefydliadau addysg uwch, a chymunedau brodorol?
- A yw'r ysgol yn defnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo ei gwaith?



GWEITHGAREDD 3

DISGRIFIADAU O YMARFER

NOD

Dysgu o'r ffyrdd y mae ysgolion eraill wedi cydweithredu â phartneriaid allanol.

PROSES

1. Mae cyfranogwyr unigol yn darllen un o'r pedwar disgrifiad, fel bod chwarter y grŵp yn edrych ar bob un. Eglurir y gall y disgrifiadau fod mewn cyd-destunau sy'n wahanol o ran polisïau cenedlaethol a'r adnoddau sydd ar gael.

2. Mae grwpiau yn cael eu ffurfio o gyfranogwyr sydd wedi darllen yr un disgrifiad. Ar ôl trafod y disgrifiad, maent yn cytuno ar grynodeb o'r syniadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg.

3. Mae'r grwpiau i gyd yn dod at ei gilydd ac yn esbonio'r disgrifiadau maen nhw wedi'u darllen a'r syniadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'u trafodaeth.

4. Ystyrir y gwersi sydd wedi'u dysgu o'r gweithgaredd hwn mewn perthynas â'r cwestiynau canlynol:
   - Beth ydyn ni wedi'i ddysgu o'r disgrifiadau hyn o ymarfer?
   - Beth yw'r goblygiadau ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd yn ein hysgol?
   - Beth ddylai ein camau nesaf fod?

DISGRIFIADAU O YMARFER

Bwriad yr enghreifftiau hyn yw ysgogi trafodaeth am yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cynnwys partneriaid yn y gwaith o hyrwyddo cynhwysiant a thegwch addysgol. Wrth ddarllen y disgrifiadau, mae'n bwysig cofio bod cyd-destunau ac adnoddau yn wahanol. Felly, efallai y bydd angen newid y dulliau a ddefnyddir yn yr enghreifftiau hyn i gyd-fynd ag amgylchiadau gwahanol mewn cymunedau amrywiol.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r pedair enghraifft yw'r pwyslais a roddir ar ddefnyddio tystiolaeth i ddadansoddi'r rhwystrau sy'n wynebu rhai dysgwyr a phwysigrwydd ymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithrediad ac arweinyddiaeth wrth symud pethau ymlaen.

DISGRIFIAD 1 **'CROESI FFINIAU'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- A yw eich ysgol yn lle diogel i'r holl blant?
- A yw anawsterau gydag ymddygiad yn eich ysgol yn cael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol?
- A oes strategaethau y cyfeirir atynt yn y disgrifiad hwn ar gyfer cynnwys teuluoedd y gallech roi cynnig arnynt?

Mae'r gair 'ffiniau' i'w glywed yn aml yn ystod ymweliad â'r ysgol gynradd hon, sy'n gwasanaethu cymuned amrywiol, amlddiwylliannol. Yn gyntaf oll, mae'r ymwelydd yn sylwi ar y ffens fetel gyda phigau pigfain sy'n nodi ffiniau ffisegol yr ysgol, ac yn cadw tresmaswyr allan. Yna, mae llawer o sôn am y ffiniau diwylliannol y mae plant yn eu croesi bob dydd wrth iddynt symud rhwng cyd-destunau sy'n cael eu dylanwadu gan wahanol draddodiadau, crefyddau ac ieithoedd. Caiff ymdeimlad o ffiniau hefyd ei greu gan y rheolau a'r gweithdrefnau clir sy'n pennu'r ffyrdd y mae staff a phlant yn mynd o gwmpas eu gwaith.

Mae'r adroddiad yn arbennig o ddiddorol oherwydd yn gymharol ddiweddar, roedd ymddygiad myfyrwyr yn yr ysgol yn broblem fawr. Erbyn hyn, mae pethau'n llawer gwell.

YMATEB I AMRYWIAETH. Mae'r ysgol yn cymryd camau penodol i gefnogi plant a theuluoedd wrth iddynt symud rhwng gwahanol ddiwylliannau. Ar ôl cyrraedd y feithrinfa am y tro cyntaf, mae gan lawer o'r plant iaith gyfyngedig ac mae'n rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth, gan arwain at yr hyn sy'n aml yn gynnydd cyflym. Mae staff hefyd yn sensitif i'r ffaith bod rhai o'r plant yn mynychu gwersi ychwanegol yn y Mosg lleol yn hwyr yn y prynhawn. Gwnaed ymdrechion sylweddol i sicrhau cefnogaeth rhieni i ymdrechion yr ysgol i feithrin awyrgylch gweithio mwy cydweithredol. Mae'r pennaeth yn esbonio ei bod wedi ceisio argyhoeddi rhieni ei bod yn angenrheidiol *'torri'r cylch o drais'*.

Roedd yna hefyd gyfnod pan fyddai rhai rhieni, yn enwedig rhai o'r tadau, yn dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn ymosodol gyda'r pennaeth ac aelodau eraill o staff. Weithiau, roedd y pennaeth yn defnyddio'r hyn yr oedd hi'n ei gyfeirio ato fel *'bygythiadau cudd'*, er enghraifft: *'Rydw i wedi dweud wrthyn nhw y byddwn i'n diarddel eu plentyn os nad yw pethau'n gwella'*.

Mewn gwirionedd, mae'r pennaeth yn gwrthwynebu diarddel myfyrwyr, er ei bod wedi cael ei gorfodi i ddefnyddio'r dull hwn ar adegau, yn enwedig er mwyn denu cefnogaeth o'r tu allan i'r ysgol. Yn raddol, fodd bynnag, mae barn rhieni wedi dod yn llawer mwy cadarnhaol, ac mae eu cyfranogiad mewn gwasanaethau bore a'u cefnogaeth i ddigwyddiadau eraill yr ysgol yn dyst i hyn. Yma, mae'r rhaglen llythrennedd teuluol a gyflwynwyd gan yr ysgol wedi profi i fod yn arbennig o lwyddiannus.

TENSIYNAU. Ar yr un pryd, mae tensiynau rhwng y cartref a'r ysgol yn dal i fodoli. Er enghraifft, mae un athro yn dweud bod llawer o'r plant yn perthyn i'w gilydd ac weithiau maen nhw'n dod ag anghydfodau teuluol gyda nhw i'r ysgol. Mae gwahaniaethau mewn disgwyliadau hefyd yn dod i'r amlwg ar rai adegau. Mae'r pennaeth yn esbonio:

> *'Er enghraifft, bydd rhai mamau yn gwisgo'r bechgyn ac yn gadael i'r merched wisgo eu hunain'.*

Dywed un athrawes, wrth siarad am ei dosbarth o blant un ar ddeg oed:

> *'Mae pob bachgen yma yn ysmygu. Maen nhw'n dwyn sigarét s o'r cartref'.*

Serch hynny, mae'r ymwelydd yn cael ei daro gan yr awyrgylch tawel, a'r ymdeimlad o dawelwch a threfn o amgylch yr ysgol. Mae uwch staff yn esbonio sut maen nhw wedi gweithio gyda'r rhieni i feithrin yr awyrgylch hwn. Esboniodd un, 'Rydyn ni'n dweud wrthyn nhw, mae'n rhaid i chi fodelu'r ymddygiad rydych chi eisiau ei weld gan y plant'.

ARWEINYDDIAETH. Felly, beth sydd wedi arwain at y gwelliannau trawiadol hyn? Yn benodol, pa fathau o ymarfer arweinyddiaeth a ddefnyddiwyd? Mae'n ymddangos bod dau gyfnod datblygu wedi gor-gyffwrdd, y ddau yn rhoi pwyslais ar ddulliau eithaf gwahanol i'w gilydd.

Yn ystod y cyfnod cyntaf, ymddengys bod llawer o'r arweinyddiaeth wedi canolbwyntio ar y pennaeth ei hun. Yn fwy diweddar, ceir tystiolaeth o ddull gwahanol, un sy'n cael ei nodweddu gan lawer mwy o bwyslais ar ffurfiau o arweinyddiaeth a rennir ac arweinyddiaeth ddosranedig.

Mae'n ymddangos bod y pennaeth yn arbennig o sensitif i'r heriau sy'n wynebu ei chydweithwyr. Mae hi'n nodi bod 'gormod o bwysau ar bawb'. Wedi dweud hynny, ymddengys ei bod wedi llwyddo i ddatblygu ymdeimlad o bwrpas cyffredin ac ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cefnogi ei gilydd. Yma, nid oes llawer o dystiolaeth o unrhyw wahaniaeth rhwng rolau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Dywedodd un cynorthwyydd cymorth: 'Rydyn ni i gyd yn ymwneud â phopeth'.

HYRWYDDO CYNHWYSIANT. Mae'r symudiad tuag at ffurfiau mwy cyfranogol o arweinyddiaeth wedi digwydd ochr yn ochr â datblygiad strategaeth a gynlluniwyd yn ofalus ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant. Wrth wraidd y strategaeth hon mae pwyslais ar fonitro effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer addysgu a dysgu.

I ddechrau, cyfrifoldeb y pennaeth oedd y monitro hwn i raddau helaeth. Yn raddol, fodd bynnag, mae hyn wedi dod yn gyfrifoldeb a rennir, gydag aelodau o staff yn defnyddio gwahanol ddulliau i gasglu gwybodaeth, megis arsylwi cymheiriaid ac arolygon ar ffurf holiaduron o farn myfyrwyr, er mwyn monitro'r sefyllfa yn yr ysgol. Trwy'r prosesau hyn, caiff meysydd pryder eu nodi ac mae'r rhain yn cael eu diffinio fel blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Gwneir ymdrechion hefyd i gynnwys aelodau o'r teulu yn y broses hon.

Mae'r prosesau monitro mewnol yn cael eu hadlewyrchu gan awydd cryf i ddod o hyd i bosibiliadau allanol ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu staff ymhellach. Fodd bynnag, mae'r pennaeth yn ofalus i sicrhau bod y staff yn cymryd rhan mewn prosiectau sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau a nodwyd yn unig.

DISGRIFIAD 2
'CEFNOGI'R GYMUNED YN YSTOD CYFNOD O ARGYFWNG'

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Pa wersi ydych chi'n eu codi o'r disgrifiad hwn?
- Ym mha ffyrdd mae eich ysgol wedi gweithio gyda'r gymuned yn ystod y pandemig?
- Beth oedd yr heriau a sut aethpwyd ati i ddelio gyda'r rhain?

Mae pandemig COVID-19 wedi peri i lawer o ysgolion gryfhau eu perthynas â theuluoedd a chymunedau. Mae'r disgrifiad hwn yn esbonio beth ddigwyddodd mewn ysgol sy'n gwasanaethu cymuned drefol gyda lefelau uchel o anfantais economaidd.

YMATEB I ARGYFWNG. Mae gan yr ysgol 900 o fyfyrwyr rhwng 2 a 18 oed. Wrth i'r wlad brofi'r cyfnod clo, dechreuodd y staff gynllunio eu hymateb i'r argyfwng. O ganlyniad, mabwysiadodd yr ysgol rôl arweiniol wrth gydlynu ymateb aml-asiantaeth ar draws y gymuned leol.

Yn ystod misoedd y cyfnod clo, parhaodd myfyrwyr â'u haddysg ar-lein gartref. Ar y lefel gynradd (4-11 oed) roedd cyfradd cwblhau gwaith o 98%, a hynny'n gostwng ychydig i 85% ar y lefel uwchradd (11-18 oed). Mae uwch staff o'r farn mai diwylliant cynhwysol cryf yr ysgol a'r disgwyliadau ledled y sefydliad sy'n gyfrifol am hynny.

Y rhwystr amlwg oedd diffyg mynediad i'r rhyngrwyd neu gyfrifiadur adref ymhlith rhai o'r teuluoedd. Yn yr achosion hynny lle roedd problemau TGCh yn y cartref, gwahoddwyd myfyrwyr i'r ysgol i gwblhau eu gwaith ar-lein yn unigol.

Y SYSTEM GYMORTH. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gynhwysiant ers ei sefydlu. Mae ffurfio perthynas gref â myfyrwyr a rhieni felly wrth wraidd diwylliant yr ysgol. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cyswllt rheolaidd â theuluoedd myfyrwyr ac roedd yr ymateb i COVID-19 yn naturiol yn cynnwys hyn.

Derbyniodd pob teulu o leiaf un cyswllt yr wythnos gan eu hathro dosbarth ar y lefel meithrin a chynradd, neu gan aelod cyfarwydd o'r staff uwchradd ymhellach i fyny'r ysgol. I'r rhieni mwyaf agored i niwed, cafwyd galwad ffôn dyddiol neu ymweliad cartref.

Roedd y disgwyliad bod yn rhaid i fyfyrwyr gyflwyno gwaith yn ddyddiol yn bwynt cyswllt arall rhwng yr ysgol a'r teuluoedd. Os nad oedd myfyriwr yn cyflwyno unrhyw waith ar ddiwrnod penodol, roedd hyn yn sbarduno galwad ffôn i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn ac i gynnig cymorth pellach os oedd angen.

CEFNOGAETH I'R GYMUNED. Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod clo, trefnodd yr ysgol gyfarfod rhithwir gyda gwahanol sefydliadau ar draws yr ardal leol i drafod y ffordd orau o gefnogi'r gymuned leol yn ystod yr argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys elusennau, eglwysi, cynrychiolwyr llywodraeth leol, ysgolion a grwpiau ieuenctid, a chwblhaodd pob un ohonynt arolwg a anfonwyd er mwyn nodi'r grwpiau o bobl mwyaf agored i niwed a lle y byddai angen cefnogaeth fwyaf. Ar sail hyn, sefydlwyd tri gweithgor: bwyd a hanfodion, iechyd meddwl a llesiant, a gwybodaeth a chyngor ariannol.

Roedd gan ymateb y grŵp bwyd a hanfodion ffocws ar yr ysgol a ffocws cymunedol. Mae ychydig dros draean o'r myfyrwyr fel arfer yn derbyn cinio ysgol am ddim oherwydd incwm isel eu teuluoedd. Yn ystod y cyfnod clo, parhaodd y gwasanaeth hwn, gan gynnwys yn ystod y cyfnodau gwyliau.

Yn ffodus, mae gan yr ysgol ei chyfleusterau arlwyo ei hun ar y safle ac mae'n gyfrifol am ddarparu ei phrydau ei hun i fyfyrwyr. Roedd hyn yn galluogi'r ysgol i ymestyn ei darpariaeth prydau bwyd am ddim y tu hwnt i'w myfyrwyr a'u teuluoedd.

Cynhyrchodd arlwywyr yr ysgol 400 o brydau i deuluoedd bob dydd. Roedd hyn yn cynnwys bwyd i deuluoedd cymwys tair ysgol leol arall, yn ogystal â 25 o bobl oedrannus bregus y gofynnodd y llywodraeth iddynt hunanynysu am 12 wythnos. Roedd y rhai a oedd yn gallu gwneud hynny yn casglu eu prydau am ddim y tu allan i'r ysgol ar ddydd Llun a dydd Iau. Yn ogystal, bu tîm o staff yn gyfrifol am ddosbarthu bwyd i 50 o deuluoedd lleol nad oeddent yn gallu cyrraedd yr ysgol oherwydd problemau trafnidiaeth, hunan-ynysu neu fregusrwydd.

MATHAU ERAILL O GYMORTH. Creodd y grŵp iechyd meddwl a llesiant becyn cymorth yn cynnwys ystod eang o weithgareddau, fideos a blogiau oedd yn awgrymu strategaethau ar gyfer cefnogi iechyd meddwl. Roedd y pecyn hefyd yn cynnwys manylion ble i ofyn am gymorth proffesiynol.

Casglodd y grŵp gwybodaeth a chyngor ariannol wybodaeth am gymorth ariannol personol ac i fusnesau ac roedd hyn ar gael ar wefan y gymuned. Roedd yr ysgol yn rhagweld y byddai angen cyngor ar deuluoedd ar sut i gael mynediad at gymorth economaidd y llywodraeth oherwydd y nifer uchel o swyddi a gollwyd o ganlyniad i COVID-19.

DISGRIFIAD 3

'HYRWYDDO CYNHWYSIANT A THEGWCH AR YSTAD DAI'

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Pa wersi ydych chi'n eu codi o'r disgrifiad hwn?
- Ym mha ffyrdd allech chi gydweithredu â sefydliadau cymunedol yn eich ardal leol?
- Beth yw'r heriau a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

Weithiau mae ysgolion yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol lleol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cynhwysiant a thegwch addysgol. Yn yr enghraifft hon, daeth yr ysgogiad gan gymdeithas sy'n darparu tai rhent isel mewn ystad fach yng nghanol dinas.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r dref lle mae'r ystad wedi elwa o dwf economaidd. Fodd bynnag, mae'r ystad wedi'i hynysu i raddau helaeth o hyn. Nid oes ganddi enw da, mae'n parhau i gael ei nodweddu gan ganlyniadau gwael i bobl ifanc, ac mae'r trigolion yn aml heb y sgiliau a'r incwm angenrheidiol i gael mynediad at gyfleoedd newydd yr ardal. Mae tua 50 y cant o breswylwyr yn deuluoedd mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf sy'n gallu canfod eu bod wedi'u hynysu yn gymdeithasol yn hawdd ac sydd heb fawr o wybodaeth am sut i gael mynediad at wasanaethau.

NODAU. Un o nodau canolog menter y gymdeithas dai oedd sicrhau gostyngiadau hirdymor o ran tlodi plant ar yr ystad. Yn unol â hyn, daeth y gymdeithas ag ystod o wasanaethau awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol at ei gilydd i weithio ar gynyddu:

- Nifer y preswylwyr o bob oed mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant;
- Help sydd ar gael i rieni trwy rwydweithiau cymorth anffurfiol, cyrsiau hyfforddi, a thrwy gryfhau cysylltiadau o fewn teuluoedd; ac
- Ymyrraeth a gwaith atal cynnar gyda phlant ieuengaf yr ystad, rhwng 0-5 oed.

Roedd y fenter yn wynebu heriau arbennig wrth geisio cysylltu â phrofiadau ysgol plant. Nid oes unrhyw ysgolion ar yr ystad ac mae'r system ysgol leol yn hynod gystadleuol. O ganlyniad, mae ysgolion wedi tueddu i ganolbwyntio'n drwm, ac ar wahân, ar sicrhau gwelliannau mewnol ar draul gweithgarwch partneriaeth.

PARODRWYDD I'R YSGOL. Mae plant o'r ystad yn mynychu ysgolion lleol amrywiol. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran fach o'r boblogaeth myfyrwyr leol y mae staff ysgol yn ymwybodol ohonynt. O ganlyniad, efallai na fydd athrawon yn gwybod bod eu myfyrwyr yn wynebu rhwystrau posibl i ddysgu sy'n ymwneud â chyd-destun yr ystad, neu'n gwerthfawrogi efallai nad oes gan rieni fawr ddim gwybodaeth am y system ysgol, neu o ddisgwyliadau ysgol ynghylch sut y dylai rhieni gefnogi dysgu eu plant. Felly, aeth y gymdeithas dai ati i greu mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion lleol, gan eu cysylltu â gwasanaethau a allai helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Nododd y gymdeithas dai un ysgol gynradd leol sy'n derbyn tua 20 o blant newydd o'r ystad yn flynyddol. Defnyddiodd y nod cyffredin o hyrwyddo parodrwydd i'r ysgol fel sail ar gyfer datblygu partneriaeth dair ffordd rhwng yr ysgol gynradd, y gymdeithas dai, a chanolfan gymunedol leol sy'n darparu cymorth i deuluoedd â phlant iau. O ganlyniad, llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol i gyflogi athro rhan-amser i weithio ar yr hyn a elwir yn brosiect 'parodrwydd i'r ysgol'.

Mae'r prosiect hwn wedi'i gynllunio i roi cefnogaeth i blant a rhieni cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd (unwaith y byddant yn gwybod eu bod wedi cael lle yno), ac yn y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Yn benodol, mae'n anelu at:

- Helpu plant o'r ystad i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol gynradd, a chefnogi eu dysgu a'u llesiant yn ystod y flwyddyn dderbyn;
- Cynorthwyo rhieni i gefnogi dysgu eu plant yn well;
- Lleihau rhwystrau ehangach i lesiant teuluoedd a sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael mynediad at wasanaethau a manteisio arnynt; a
- Cryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol/cartref/cymuned.

Yn y cyfnod cyn-ysgol, rôl yr athro yw gweithio gyda'r teuluoedd i nodi'r hyn sydd ei angen i gefnogi dysgu pob plentyn a'u paratoi ar gyfer trosglwyddo – gan eu cysylltu â gweithgareddau canolfan plant, a datblygu sesiynau dysgu unigol a grŵp yn ôl yr angen.

Mae gan y gymdeithas dai hefyd gynghorwyr rhieni sy'n gweithio ochr yn ochr â'r athro i helpu i gysylltu rhieni â gwasanaethau ar yr ystad, sy'n amrywio o gymorth gyda rheoli ariannol a mynediad at gyflogaeth, i rwydweithio anffurfiol a chymorth i rieni. Ar ôl i blant ddechrau'r ysgol, rôl yr athro yw gweithio'n agos gyda staff derbyn yr ysgol gynradd i'w helpu i ymgartrefu yn yr ysgol a chefnogi eu dysgu, ac i ddarparu cyswllt gweithredol rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned ehangach.

GOBLYGIADAU. Mae'r enghraifft hon yn awgrymu, mewn mannau lle mae'r system ysgol yn dameidiog, a chysylltiadau rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau'n wan, y gallai sefydliadau o'r tu allan i'r system ysgol fod yn y sefyllfa orau i bontio'r bylchau hyn. Yn yr enghraifft hon, cymdeithas dai gyda chysylltiadau teuluol a chymunedol cryf oedd y catalydd, gan sicrhau cefnogaeth gan ysgolion.

DISGRIFIAD 4 **'CYDWEITHREDIAD RHWNG YSGOLION'**

Ystyriwch y cwestiynau hyn wrth i chi ddarllen y disgrifiad hwn:

- Pa wersi ydych chi'n eu codi o'r disgrifiad hwn?
- A oes gan eich ysgol gysylltiadau gydag ysgolion eraill?
- Os felly, beth fu'r effaith?

Mae rhwydwaith o ysgolion cynradd wedi gweithio mewn partneriaeth ag adran addysg prifysgol leol i ddod ag athrawon ac ymchwilwyr at ei gilydd. Mae'r ysgolion yn dilyn model o ymchwiliad cydweithredol tebyg i'r un a argymhellir yn y pecyn adnoddau hwn, gan dynnu ar wybodaeth broffesiynol athrawon a gwybodaeth ymchwil ehangach, i archwilio ffyrdd newydd o gefnogi dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais economaidd. Y nod cyffredinol yw gwella cyfleoedd, profiadau a chanlyniadau dysgu pob plentyn, ac yn enwedig y rhai sy'n profi rhwystrau i ddysgu.

Mae pob ysgol yn pennu ei ffocws ei hun ar gyfer yr ymchwil, gan ddechrau trwy nodi materion sy'n peri pryder neu sy'n ddryslyd mewn rhyw ffordd. Yna maent yn dilyn rhaglen ymchwil strwythuredig lle mae'r athrawon ac ymchwilwyr y brifysgol yn casglu ac yn rhannu tystiolaeth, am arferion yr ysgol, fel y gallant ddatblygu dealltwriaeth gyfoethog a dwfn o'r hyn sy'n digwydd i ddysgwyr yn yr ysgol, ac o waith ymchwil ehangach. Yna defnyddir y dystiolaeth hon i ysgogi ffyrdd newydd o feddwl a dysgu'n broffesiynol am arferion cyfredol, ac i nodi strategaethau ar gyfer ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil.

DYSGU O WAHANIAETHAU. Mae'r ysgolion wedi defnyddio ymweliadau cyfnewid i gynhyrchu tystiolaeth ynghylch y ffocws maent wedi cytuno i'w roi ar ddatblygu arferion mwy cynhwysol. Nod yr ymweliadau hyn yw edrych yn benodol ar gryfderau a gwendidau cymharol o fewn ysgolion yn y rhwydwaith, gan ddefnyddio gwahaniaethau i ysgogi ffyrdd newydd o feddwl.

Roedd yr ymweliadau mwyaf llwyddiannus fel arfer yn cael eu nodweddu gan ymdeimlad o ddysgu rhwng y lletywyr a'r ymwelwyr. Roedd yn amlwg, hefyd, ei bod yn aml yn cymryd peth amser i nodi ac egluro beth oedd ffocws yr ymweliadau hyn. Yn wir, roedd y trafodaethau rhagarweiniol a gynhaliwyd yn agwedd allweddol ar y broses ynddynt eu hunain.

ENGHRAIFFT. Yn ystod un ymweliad o'r fath, gwahoddwyd yr athrawon oedd yn ymweld i arsylwi dau blentyn. Roedd fframwaith arsylwi syml, a gynlluniwyd gan y grŵp ymchwil staff yn yr ysgol sy'n lletya, yn canolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng plant â chyfoedion ac athrawon.

Dewiswyd y plant i'w harsylwi gan yr athro dosbarth, a oedd yn ddirprwy bennaeth yr ysgol. Cawsant eu henwebu ar y sail mai nhw oedd y plant yr oedd ef yn gwybod leiaf amdanynt yn ei ddosbarth. Yn ogystal ag arsylwadau, gofynnwyd i'r athrawon a oedd yn ymweld gyfweld â'r plant hyn. Unwaith eto, dyfeisiwyd strwythur llac, ond roedd y prif bwyslais ar yr athrawon a oedd yn ymweld yn dilyn i fyny ar bethau yr oeddent wedi'u gweld yn ystod arsylwadau.

Wedi hynny, dywedodd un o'r athrawon a oedd yn ymweld fod y diwrnod wedi bod yn *'hynod o ddiddorol...' Ychwanegodd*: *'Does dim ffordd y gallech wneud hyn yn eich ysgol eich hun.'*

Ymddengys bod hyn yn cael ei gefnogi gan rai o'r disgrifiadau a ddefnyddiwyd gan fyfyrwyr am eu hathro yn ystod y cyfweliadau y diwrnod hwnnw. Er enghraifft, dywedodd un: *'Mae fel piranha yn edrych o gwmpas y dosbarth. Mae'n gwybod pan nad ydw i'n gwrando'*. Dywedodd myfyriwr arall: *'Gallai fod yn athro da iawn pe byddai'n gallu esbonio, ond mae'n mynd yn rhy rhwystredig.'* Ymateb doniol yr athro dosbarth i'r datganiadau hyn oedd: *'Rydw i eisiau mynd adref! Rydw i wedi cael digon nawr!'*

MYND I'R AFAEL Â HERIAU. Mae natur bersonol yr arsylwadau hyn, a pharodrwydd yr athro i wrando ar yr adborth hwn gyda chydweithwyr o'i ysgol ei hun ac ysgol arall yn bresennol, yn dangos maint yr her a oedd weithiau'n gysylltiedig â'r math hwn o gydweithio. Yn wir, nid oedd ymweliadau o'r fath yn *'gysurus'*, ac nid oeddent bob amser yn arwain at deimladau cynnes.

Y ffactor allweddol, fodd bynnag, oedd yr her i'r naill ochr a'r llall o fewn perthynas a oedd yn barchus a chefnogol. Yn yr enghraifft benodol hon, efallai bod statws yr athro fel uwch athro a'r ffaith ei fod wedi gwirfoddoli ar gyfer y lefel hon o graffu wedi cyfrannu at greu hinsawdd lle roedd yn teimlo ei fod yn gallu bod yn rhan o ddeialog mor heriol gyda chydweithwyr o ysgol arall.

Codwyd llawer o themâu eraill yn ystod y sgwrs o ganlyniad uniongyrchol i'r arsylwadau a'r sgyrsiau a gafodd yr athrawon gyda myfyrwyr. Roedd rhai o'r themâu hyn yn canolbwyntio ar faterion manwl iawn ynglŷn ag arferion sydd â goblygiadau o ran y graddau y mae aelodau'r dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwersi.



GWEITHGAREDD 4

CYDWEITHIO Â PHARTNERIAID CYMUNEDOL

NOD

Datblygu blaenoriaethau ysgol ar gyfer cynnwys partneriaid allanol.

PROSES


1. Mae athrawon (a, lle maent ar gael, staff cymorth) yn gweithio mewn grwpiau bach i ystyried ffyrdd y mae partneriaid allanol yn rhan o fywyd yr ysgol. Dyma gwestiynau i'w trafod:
   - Pwy ydyn ni'n eu cynnwys o'r tu allan i'r ysgol?
   - Pwy allai wneud mwy o gyfraniadau at ein hymdrechion i wella presenoldeb, cyfranogiad, llesiant a chyflawniad ein holl fyfyrwyr?

2. Mae'r grwpiau yn cynnal gweithgaredd Diemwnt Naw. Mae'r gweithgaredd grŵp rhyngweithiol hwn yn ffordd o annog cyfranogwyr i feddwl yn ddyfnach am ymgysylltiad gan bartneriaid cymunedol.

3. Rhoddir hyd at 15 cerdyn i grwpiau gyda geiriau fel:-
   - Teuluoedd
   - Ysgolion eraill
   - Gweithwyr iechyd
   - Gwasanaethau cymdeithasol
   - Mannau addoli
   - Busnesau
   - Prifysgolion
   - Gweithwyr ieuenctid
   - Seicolegwyr
   - Grwpiau celf
   - Sefydliadau chwaraeon

Mae dau gerdyn gwag y gall y grwpiau ddewis eu defnyddio er mwyn ychwanegu partneriaid eraill.

4. Mae un aelod o bob grŵp yn cytuno i gadeirio'r drafodaeth. Gofynnir i'r grwpiau ddewis naw cerdyn a'u rhoi ar ffurf diemwnt (gweler y diagram), gan osod ar y brig yr un maen nhw'n credu ei fod bwysicaf ac ar y gwaelod yr un maen nhw'n meddwl sy'n lleiaf pwysig.



5. Ar ôl y gweithgaredd, mae'r grŵp yn trafod beth maen nhw wedi'i ddysgu a pha gamau y mae angen i'r ysgol eu cymryd. Mae eu syniadau yn cael eu rhannu gyda'r grwpiau eraill er mwyn cytuno ar y camau nesaf ar gyfer cydweithio â phartneriaid allanol.

6. Yn dilyn y broses adolygu hon, bydd angen datblygu strategaeth ar gyfer symud ymlaen mewn perthynas â'r camau gweithredu â blaenoriaeth sydd wedi dod i'r amlwg. Yn ddelfrydol, dylai hyn gael ei arwain gan grŵp gweithredu dan arweiniad aelod uwch o staff ac sy'n cynnwys ystod amrywiol o gyfranogwyr.

Darllen pellach:





DARLLEN PELLACH

AINSCOW, M. (2016). Collaboration as a strategy for promoting equity in education: possibilities and barriers. *Journal of Professional Capital and Community,* 1(2), 159–172.

AINSCOW, M., DYSON, A., GOLDRICK, S., & WEST, M. (2012). *Developing equitable education systems. Llundain:* Routledge.

DOBBIE, W. & FRYER, R.G. (2009). Are high-quality schools enough to close the achievement gap? *Evidence from a bold social experiment in Harlem.* Cambridge: Harvard University.

DYSON, A. & KERR, K. (2013). *Developing children's zones for England: What's the evidence?* Llundain: Save the Children https://resourcecentre.savethechildren.net/node/13661/pdf/developing_childrens_zones1.pdf

FULLAN, M. (2021). *The right drivers for whole system success. CSE Leading Education Series.* https://michaelfullan.ca/wp-content/uploads/2021/03/Fullan-CSE-Leading-Education-Series-01- 2021R2-compressed.pdf

HARGREAVES, A., & AINSCOW, M. (2015). *The top and bottom of leadership and change. Phi Delta Kappa,* Tachwedd, 2015. https://doi.org/10.1177/0031721715614828

KERR, K., DYSON, A., & RAFFO, C. (2014). *Education, disadvantage and place: Making the local matter.* Bryste: Policy Press.

MASON, P. & BARNES, M. (2007). Constructing theories of change: methods and sources, *Evaluation,* 13(2), pp. 151-170.

MILES, S. (2002). *Family Action for Inclusion in Education. Manceinion,* Enabling Education Network: https://www.eenet.org.uk/resources/docs/family_action.pdf

MUIJS, D., AINSCOW, M., CHAPMAN, C., & WEST, M. (2011). *Collaboration and networking in education.* Llundain: Springer.

RINCÓN-GALLARDO, S. & FULLAN, M. (2016). Essential features of effective networks in education.
Journal of Professional Capital and Community, 1(1) 5 – 22.

STRIVETOGETHER (2021). *Theory of Action: Guiding framework:* https://www.strivetogether.org/what-we-do/theory-of-action

WHITEHURST, G. J. & CROFT. M. (2010). *The Harlem Children's Zone, promise neighbourhoods, and the broader, bolder approach to education. Washington: The Brookings Institution.*

Noder: *Cyn cyflwyno'r adnoddau hyn i eraill, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y cyd-destun penodol.*

'The UNESCO Open File on Inclusive Education'. Cyflwyniad i lunwyr polisi a rheolwyr sydd â rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r newid sydd ei angen i wneud addysg gynhwysol yn realiti: https://www.eenet.org.uk/resources/docs/132164e.pdf

'Children's Neighbourhoods Scotland'. Mae'n mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u cymunedau: *Children's Neighbourhoods Scotland*

'The Harlem Children's Zone'. Ymdrechion i dorri'r cylch o dlodi rhwng cenedlaethau, gyda rhaglenni cynhwysfawr ar lawr gwlad, sy'n datblygu cyfleoedd i blant a theuluoedd ffynnu yn yr ysgol a'r gwaith: https://hcz.org

'Strive Together'. Rhwydwaith o gymunedau yn UDA sy'n gweithio ac yn esblygu gyda'i gilydd i hyrwyddo tegwch fel y gall straeon llwyddiant lleol ddod yn realiti i bob plentyn:
https://www.strivetogether.org


'Give your Child the Best Start'. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor defnyddiol i rieni i'w helpu i weithio gydag addysgwyr i eirioli dros ddarpariaeth addysg o safon ar gyfer datblygiad plentyndod cynnar:
Give your child the best start: Laying the foundation for quality learning

Students as researchers'. Ymchwil gweithredu drwy gyfranogiad pobl ifanc: https://www.youtube.com/watch?v=RJ5dHttlwRU

'School-community partnership'. Enghraifft o ysgolion yn Awstralia sy'n cysylltu â chymunedau brodorol o wreiddiau Brodorol ac Ynysoedd Culfor Torres:
https://www.youtube.com/watch?v=MjUkyufiSw8

'Youth-led peacebuilding in Kenya'. Menter ieuenctid dros heddwch:
https://www.youtube.com/watch?v=pvsNeKlbbss

NODIADAU



ESTYN ALLAN AT BOB DYSGWR:
pecyn adnoddau ar gyfer cefnogi cynhwysiant a thegwch mewn addysg

Mae deunyddiau'r adnodd Estyn Allan at Bob Dysgwr yn ymdrin â'r gwaith o fynd i'r afael â'r heriau hyn yn ymarferol mewn ysgolion a chanolfannau addysg eraill, gan gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg bellach. Yn fwy penodol, mae'r deunyddiau yn canolbwyntio ar dri chwestiwn strategol:

- Sut y gellir datblygu ysgolion er mwyn ymateb yn gadarnhaol i amrywiaeth y myfyrwyr?
- Sut y gellir datblygu arferion ystafell ddosbarth a fydd yn sicrhau bod gwersi yn gynhwysol?
- Sut y gall ymarferwyr ymgysylltu â theuluoedd, ysgolion partner a'r gymuned ehangach yn eu hymdrechion i ddod yn gynhwysol a theg?

unesco
International Bureau of Education

UNESCO - BIE
C. P. 199
1211 Geneva 20
Y Swistir
22.917.78
Ffôn: +41.22.917.78.00
Ffacs: +41.22.917.78.01